



**CPS**

# **Trais yn erbyn Menywod a Merched Adroddiad Troseddau**

2013-2014

# Cynnwys

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus	3
Crynodeb gweithredol	5
Cyflwyniad	12
Trais yn erbyn menywod a merched	13
Trais domestig	23
Stelcio ac aflonyddu	38
Treisio	44
Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)	55
Priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu benywod	60
Cam-drin plant	65
Masnachu mewn pobl	70
Puteindra	74
Pornograffi ac anweddustra	77
Atodiad 1: Erlyniadau'n ôl Ardal	80
Rhestr Termiau	84
Geirfa acronymau	89

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Yn fy adroddiad cyntaf ar Drais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) ers i mi ddechrau ar fy swydd fel Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn Nhachwedd 2013, mae'n dda gennyf gyhoeddi bod nifer atgyfeiriadau'r heddlu, diffynyddion a gyhuddir ac erlyniadau wedi cynyddu'n ddramatig, gan arwain at gynnydd o 11% yn y nifer o ddiffynyddion VAWG a gollfarnwyd yn 2013-14.

Ar gyfer trais domestig, roedd erlyniadau wedi cyrraedd (74.6%), y gyfradd gollfarnu uchaf erioed i'w chofnodi, ac yn codi am drydedd flynedd yn olynol; gyda 58,276 o ddiffynyddion wedi eu cael yn euog, cynnydd o bron i 6,000 o ddiffynyddion ers 2012-13.

Ar draws VAWG rydym wedi gweithio gyda'r heddlu i ddelio â'r lleihad yn y niferoedd a nodwyd gennym yn yr adroddiad VAWG diwethaf (2012-13); gan lwyddo i gael trawsnewidiad cyffredinol yn ystod 2013-14. Fodd bynnag, ar gyfer treisio, er gwaethaf dechrau gweld cynnydd yn y niferoedd, gyda chynnydd o 25% mewn diffynyddion a gyhuddwyd yn ystod 2013-14, fe ostyngodd y gyfradd collfarn. Mae hyn yn fater difrifol iawn ac rydym wedi llunio Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol, i gyflawni newidiadau yn dilyn Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio yr oedd yn ei gadeirio ar y cyd gydag arweinydd Cenedlaethol yr Heddlu ar dreisio yn Ebrill 2014. Rydym wedi ymroi i ddelio â'r materion sy'n rhwystro achosion treisio rhag symud yn llwyddiannus trwy'r system gyfiawnder troseddol i sicrhau cynnydd mewn niferoedd ac mewn cyfraneddau.

Mae'r Cynllun ar gyfer 2014-15 yn cynnwys adolygiad o Unedau Trais a Throseddau Rhyw difrifol (RASSO) y CPS a chyfarwyddyd i adfocadau priodol mewn treialon treisio, gyda'r nod o weithredu camau i gynhyrchu gwell deilliannau ar gyfer achosion trais. Ynghyd â'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Dreisio, cynhelir adolygiad i waith ymchwilio ac erlyn achosion treisio yn yr Ardal Fetropolitan, wedi ei gyflawni gan y Fonesig Elish Angiolini QC. Yn hwyrach yn 2014, rydym yn bwriadu cynnal Cynhadledd Genedlaethol gyda'r holl erlynyddion treisio arbenigol ac arweinwyr treisio'r heddlu i godi ymwybyddiaeth o faterion allweddol megis y ddeddfwriaeth ar gydsyniad, herio mythau a stereoteipiau, diweddarau protocol yr heddlu/CPS a sut i ddelio â natur fregus dioddefwyr trais.

Mae cyswllt clir rhwng yr holl waith yma a thair blaenoriaeth y CPS – ansawdd gwaith achos, ein gwasanaeth i ddioddefwyr a rhoi'r offer a sgiliau i staff i wneud y gwaith. Trwy ganolbwyntio ar y materion hyn, gallwn ddarparu gwasanaeth cyson i ddioddefwyr VAWG. Mae'r gefnogaeth gan randdeiliaid eleni wedi bod yn aruthrol, nid yn unig ar dreisio, anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), cam-drin plant yn rhywiol (CSA), stelcio a masnachu mewn pobl ond hefyd trwy gyfarfodydd chwarterol o'r Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG a'r Fforwm Atebolwydd Cymunedol. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am eu cymorth a chefnogaeth.

Yn 2013-14, rydym wedi helpu gwaith trawslywodraethol ar FGM, masnachu mewn pobl, stelcio a CSA, yn cynnwys datblygu cynlluniau gweithredu penodol i'r CPS. Yn 2013, fe lansiom ein canllaw ar CSA a hyfforddi ein harbenigwyr. Mae gennym erlynyddion FGM arbenigol a arweiniodd ar gytuno ar brotocolau gyda phob heddlu lleol. Rydym yn archwilio gwersi o awdurdodaethau eraill ar FGM ac yn cefnogi trafodaethau ar newidiadau

deddfwriaethol cenedlaethol. Yn 2014, fe lansiom y cynllun ar fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth. FE ddiweddarom ganllaw ar stelcio ac rydym nawr yn datblygu protocol ar y cyd gyda'r heddlu.

Rwy'n hynod falch o'r hyn mae'r CPS wedi ei gyflawni yn y blynyddoedd diweddar o ran taclo materion VAWG, diolch yn rhannol i arweinyddiaeth y cydlynwyr VAWG ymroddedig ym mhob ardal CPS. Rydym yn dal yn ymroddedig i adeiladu ar ein llwyddiannau, dysgu o'n camgymeriadau a gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau gwell gwasanaeth i ddioddefwyr y troseddau hyn.

**Alison Saunders CB**  
**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**  
**Gorffennaf 2014**

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn ddadansoddiad o'r prif faterion erlyn ym mhob maes Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) – trais domestig (TD), treisio, troseddau rhywiol, stelcio, aflonyddu, priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu benywod, cam-drin plant, masnachu mewn pobl, puteindra a phornograffi. Rydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r troseddau hyn wedi eu targedu at ddioddefwyr gwrywaidd yn ogystal â dioddefwyr benywaidd. Defnyddir nifer o astudiaethau achos i ddangos rhai arferion da o Ardaloedd.

Yn unol â pholisi llywodraethol, rydym yn cyhoeddi'r data gwaelodol a ddefnyddir yn ein hadroddiadau.

Gellir dod o hyd i'r data sylfaenol ar gyfer yr adroddiad hwn<sup>1</sup> ar wefan y CPS, yn yr adran Cyhoeddiadau dan [Atebolrwydd cyhoeddus a chynhwysiant](#).

Mae'r adroddiad VAWG hwn y cyntaf a fydd yn adrodd yn fanylach ar atgyfeiriadau'r heddlu o achosion VAWG yn ogystal â phenderfyniadau cyhuddo.

## Trais yn erbyn menywod a merched

Mae VAWG yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r CPS a'r llywodraeth, fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Trawslywodraeth VAWG, a oruchwylir gan y Grŵp Rhyngweinidogol VAWG.

Ers cyflwyno cofnodi troseddau VAWG<sup>2</sup>, rydym wedi cyrraedd y lefel uchaf o atgyfeiriadau gan yr heddlu o ddiffynyddion VAWG ar gyfer penderfyniadau cyhuddo. Yn 2013-14, cyfeiriwyd 109,419 o ddiffynyddion i'r CPS – cynnydd o 15,905 o atgyfeiriadau (17%) o 2012-13 ac yn uwch na'r lefel uchaf flaenorol yn 2010-11. Roedd y cynnydd hwn hefyd wedi ei adlewyrchu yn y nifer a'r gyfran a gyhuddwyd<sup>3</sup> – gan gyrraedd 76,526 (69.9%) – cynnydd o 13,448 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (21.3%) o 2012-13 a'r uchaf erioed. Mae gwarediadau allan o'r llys yn y cam cyn cyhuddo hefyd wedi cyrraedd y lefel isaf hyd yn hyn (1,296, ychydig dros 1% o'r holl atgyfeiriadau). Mae'r gwelliant hwn wedi dangos pwysigrwydd cael y CPS i nodi niferoedd atgyfeiriadau a chyhuddiadau yn yr adroddiad troseddau VAWG diwethaf a delio â hyn.

Cododd y nifer o droseddau VAWG a erlynwyd<sup>4</sup> yn 2013-14 o 8,351 o 82,165 yn 2012-13 i 90,516, cynnydd o fwy na 10%, ond heb gyrraedd lefel uchaf 2010-11<sup>5</sup>. Felly hefyd,

<sup>1</sup> Adroddir data trwy gydol yr adroddiad hwn; darperir unrhyw ddata gwaelodol atodol yn yr atodiad.

<sup>2</sup> Mae data ar gyfer 'troseddau VAWG' wedi ei grwpio gyda'i gilydd yn cynnwys trais domestig, treisio a throseddau rhywiol (ac eithrio data cyn cyhuddo ar gyfer troseddau rhywiol). Adroddir ar ddata o ffrydiau VAWG eraill ar wahân.

<sup>3</sup> Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n darparu ffigur mwy cywir ar gyfer y canran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen at erlyniad. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

<sup>4</sup> Sylwer fod y niferoedd cyhuddo yn cwmpasu'r achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* i'r CPS yn ystod 2013-14 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo na ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd gyda'r rhai a erlynwyd sy'n cwmpasu achosion yn ôl diffynnydd, a *gwblhawyd* yn ystod 2013-14.

<sup>5</sup> Roedd y nifer uchaf o erlyniadau a sicrhawyd yn 2010-11 ar 95,257.

cynyddodd y nifer a gafwyd yn euog o 6,527 o 60,853 yn 2012-13 i 67,380 yn 2013-14<sup>6</sup>, cynnydd o 11%. Er bod y nifer a gyhuddir wedi codi, bydd rhywfaint o oedi o ran gweld effaith yr erlyniadau a chanlyniadau a gwblhawyd wrth i'r achosion symud trwy system y llysoedd yn y flwyddyn i ddod. Fodd bynnag, roedd y gyfradd o gollfarnau VAWG ar y lefel uchaf erioed, gan gyrraedd 74.4% o ganlyniadau llwyddiannus yn 2013-14.

Mae cydlynwyr VAWG lleol yn cefnogi Ardaloedd, gan ddarparu cyfeiriad strategol a Sicrwydd VAWG ddwywaith y flwyddyn i'r DPP. Maent yn gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol drwy Baneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol (LSIPau). Mae asesiad o LSIPau ac ymgysylltiad cymunedol wedi darparu ystod o arfer da wedi ei rannu ar draws Ardaloedd:

- Mae pob LSIP Ardal wedi delio â VAWG yn 2013-14; gan ddelio â TD, treisio ac mewn rhai Ardaloedd trais yn seiliedig ar urddas, cam-drin plant yn rhywiol, cam-drin yr un rhyw ac aflonyddu.
- Cynhaliwyd detholiad o gynadleddau a chyfarfodydd VAWG gyda dioddefwyr yn lleol, yn cynnwys TD, treisio, priodas dan orfod ac anffurfio organau cenedlu benywod (FGM).
- Datblygwyd bwletinâu VAWG lleol pellach, gyda rhai Ardaloedd yn cynnwys cyfryngau lleol a chenedlaethol.
- Sefydlwyd protocolau lleol a rhestrau gwirio gyda'r heddlu ar amrywiaeth o faterion VAWG.

## Trais domestig

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau TD gan yr heddlu i 103,569 yn 2013-14 – cynnydd o 15,459 o atgyfeiriadau (17.5%) o 2012-13 a'r lefel uchaf erioed.
- Cyhuddwyd 72,905 (70.4% o'r atgyfeiriadau hyn), y niferoedd a chyfrannau uchaf erioed a chynnydd o 12,716 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (21.1%) o 2012-13.
- Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2013-14 i 78,071 – cynnydd o 7,369 o erlyniadau (10.4%) o 2012-13, ond heb gyrraedd y nifer uchaf o 82,187 a erlynwyd yn 2010-11 eto. Gallai'r cynnydd hwn mewn diffynyddion a gyhuddir yn ystod 2013-14 effeithio ar ganlyniadau erlyniadau yn 2014-15.
- Mae llwyth achosion TD<sup>7</sup> wedi codi ers 2012-13 o 8.9% i 10.7% yn 2013-14.
- Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 58,276 – cynnydd o 5,727 o gollfarnau (10.9%) ers 2012-13.
- Rhwng 2005-6 a 2013-14, mae cyfraddau collfarnau wedi codi o 59.7% i 74.6% – cynnydd o 15 pwynt canrannol (ppt)<sup>8</sup> yn ystod y cyfnod naw mlynedd hwn.
- Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 0.3ppt dros y flwyddyn ers 2012-13, gan gyrraedd y gyfradd collfarn uchaf erioed i'w gofnodi am y drydedd flwyddyn olynol.
- Cododd y nifer a'r gyfran o bledion euog eto – roedd y nifer yn 53,620, cynnydd i 68.7% – mae 92% o bob canlyniad llwyddiannus o ganlyniad i bledion euog.
- Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i ostwng gan gyrraedd y lefel isaf erioed, yn 19.2% o'r holl achosion trais domestig a erlynwyd.

<sup>6</sup> Roedd y nifer uchaf o gollfarnau a sicrhawyd yn 2010-11 ar 68,154.

<sup>7</sup> Llwyth achosion trais domestig fel % o'r holl erlyniadau.

<sup>8</sup> Cyfeirir at newidiadau mewn canrannau fel newidiadau i bwyntiau canrannol (ppt).

- Mae'r troseddau stelcio newydd wedi eu gweithredu a chafwyd cynnydd arwyddocaol mewn erlyniadau o aflonyddu a thoriadau yn ymwneud â TD – bron i chwarter yn fwy ar draws 2013-14 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Adolygwyd canllaw cyfreithiol y TD yn ystod 2013-14<sup>9</sup> i ddelio ag ymddygiadau rheolaethol a gorfodol, cyngor manylach ar gyfer erlynyddion ar achosion yn ymwneud â phlant sy'n ymosod ar rieni, rhai yn eu harddegau (yn cynnwys y rhai a allai fod yn gysylltiedig â gangiau) a dioddefwyr hŷn hefyd.
- Datblygwyd adolygiad o Lysoedd TD Arbenigol i ddechrau yn 2014-15.
- Mae astudiaethau achos o nifer o Ardaloedd CPS yn arddangos sut mae'r Ardaloedd wedi gwella canlyniadau erlyniadau – yn cynnwys achosion o amrywiaeth o ddiodefwyr; defnydd o dystiolaeth arall; cam-drin mewn perthnasau rhai yn eu harddegau ac arferion da Ardaloedd.

## Stelcio ac aflonyddu<sup>10</sup>

- Cychwynwyd erlyniadau ar gyfer 10,535 o droseddau stelcio ac aflonyddu yn 2013-14; mae hyn yn gynnydd o 1,887 o droseddau (21.8%) o 2012-13 pan gychwynwyd 8,648 o erlyniadau; roedd 743 o erlyniadau ar waith dan y troseddau stelcio newydd.
- Cychwynwyd erlyniadau ar gyfer 11,651 o doriadau troseddau gorchymyn ataliol, cynnydd o 1,376 o doriadau (13.4%) o 10,275 yn 2012-13.
- O'r holl erlyniadau aflonyddu a stelcian, roedd 6,725 (63.8%) yn ymwneud â TD – cynnydd o 1,666 yn ymwneud â TD (32.9%) o 5,059 yn y flwyddyn flaenorol;
- Cychwynwyd 516 o erlyniadau yn ymwneud â TD dan y troseddau stelcio a gyflwynwyd ar ddiwedd Tachwedd 2012.
- Roedd 9,006 (77.3%) o'r holl doriadau gorchymynion ataliol yn ymwneud â TD; cynnydd o 1,632 (22.1%) o 7,374 yn 2012-13.
- O'r 322 o doriadau gorchymynion ataliol (a wnaed ar ryddfarniad), roedd 245 (76.1%) mewn achosion TD.
- Dechreuodd 6,498 o doriadau gorchymynion peidio aflonyddu erlyniad, o gymharu â 5,563 yn y flwyddyn flaenorol, 85.9% ohonynt ar gyfer TD.

## Trais

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau treisio gan yr heddlu i 5,850 yn 2013-14 – cynnydd o 446 o atgyfeiriadau (8.3%) o 2012-13.
- Cyhuddwyd 3,621 (61.9% o'r atgyfeiriadau hyn), y niferoedd a chyfrannau uchaf erioed a chynnydd o 732 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (25.3%) o 2012-13.
- Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2013-14 i 3,891 – cynnydd o 199 o erlyniadau (5.4%) o 2012-13, ond heb gyrraedd y nifer uchaf o 4,208 a erlynwyd yn 2010-11 eto. Gallai'r cynnydd hwn mewn diffynyddion a gyhuddir yn ystod 2013-14 effeithio ar ganlyniadau erlyniadau yn 2014-15.
- Mae'r llwyth achosion<sup>11</sup> treisio wedi codi ers 2012-13 o 9.8% i 11.1% yn 2013-14.
- Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 2,348 – cynnydd o 0.6% ers 2012-13.

<sup>9</sup> Dechreuwyd ymgynghori â'r cyhoedd ym Mai 2014.

<sup>10</sup> Mae'r data a adroddir yma o gofnodion data'r CPS; mae'r adran ar stelcio ac aflonyddu hefyd yn cynnwys ystadegau 2013 yr MoJ.

<sup>11</sup> Llwyth gwaith treisio fel % o'r holl erlyniadau ditiadwy yn unig.



- Mae'r ystadegau treisio cenedlaethol swyddogol gan yr MoJ ([link](#)) yn nodi ym mlwyddyn galendr 2013 i 3,081 o ddiffynyddion, ar sail prif drosedd<sup>12</sup>, gael eu herlyn am dreisio mewn llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 2,822 yn 2012. Anfonwyd 3,020 o ddiffynyddion i Lys y Goron ar gyfer treial, o gymharu â 2,765 yn 2012. Yn 2013 cafwyd 1,121 yn euog o dreisio yng Nghymru a Lloegr, lleihad o 1,145 yn 2012, gan arwain at gyfradd erlyniad i gollfarn yn 2013 o 36% – lleihad o 41% yn 2012. Nid yw'r gymhareb hon yn cymryd i ystyriaeth ddiffynyddion a erlynir am dreisio ond sy'n eu cael yn euog yn Llys y Goron am drosedd arall.
- Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion a gyhuddwyd a'u llumanu fel treisio o'r cychwyn, ond hefyd achosion ble cafwyd collfarn am drosedd arall neu lai. Defnyddir y data i ddibenion rheoli achosion y CPS, ochr yn ochr â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gollfarnau achosion a gyhuddwyd ac a gafwyd yn euog o dreisio. Gosodir y faner o gychwyn yr achos; bydd y faner yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiad o dreisio'n cael ei ddiwygio wedi hynny. Darperir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i osod cyd-destun i ddata perfformiad y CPS. Mae hyn ar gyfer blwyddyn galendr, yn hytrach nag ariannol, a dim ond ar gyfer yr achosion hynny ble'r oedd y gollfarn derfynol am dreisio.
- Rhwng 2007-8<sup>13</sup> a 2013-14, mae cyfraddau collfarnau'r CPS<sup>14</sup> wedi codi o 57.7% i 60.3%, ond roedd lleihad o 63.2% y llynedd y gyfradd collfarn CPS uchaf erioed i'w chofnodi ers dechrau cadw cofnodion ar gyfer treisio.
- Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i ostwng gan gyrraedd y lefel isaf erioed, yn 13.1% o'r holl achosion treisio a erlynwyd.
- Sefydlwyd Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol difrifol (RASSO) ym mhob Ardal CPS erbyn Hydref 2013, a hyfforddi arbenigwyr treisio pellach.
- Datblygwyd rhwydwaith o Arweinyddion Unedau RASSO, gyda chylchlythyrau RASSO.
- Cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer Unedau RASSO ar ddelio â chyhuddiadau ffug honedig o dreisio gan fonitro troseddau yn y system sicrwydd VAWG trwy gydol 2013-14.
- Cynhaliwyd Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio yn Ebrill 2014, gyda chamau gweithredu wedi eu cynllunio yn 2014-15. Mae'r cynllun yn cynnwys adolygiad o Unedau RASSO y CPS a chyfarwyddyd i eiriolwyr priodol mewn treialon treisio; Cynhadledd Genedlaethol i'r heddlu/erlynyddion i godi ymwybyddiaeth bellach o faterion allweddol megis cydsyniad, diweddarau protocol treisio'r heddlu/CPS a sut i ddelio â natur fregus dioddefwyr trais.
- Ynghyd â'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Dreisio, cynhelir adolygiad i waith ymchwilio ac erlyn achosion treisio gan yr Ardal Fetropolitan.
- Mae nifer o astudiaethau achos yn arddangos gwaith mewn Unedau RASSO, gyda dioddefwyr bregus, mewn achosion treisio nad ydynt yn rhai diweddar ac arferion da mewn Ardaloedd.

<sup>12</sup> Gwybodaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Mae'r ffigurau ar achosion llys yn ymwneud ag unigolion ble roedd y troseddau hyn y prif droseddau yr oeddynt yn delio â nhw. Pan fydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Ble gweithredir yr un gwarediad am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddetholir yw'r un gyda'r uchafswm cosb statudol uchaf.

<sup>13</sup> Cychwynnodd cofnodi achosion treisio yn hwyrach nag ar gyfer trais domestig

<sup>14</sup> Deilliannau o gyhuddo i gollfarn.



## Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

- Ni all y CPS gofnodi unrhyw ddata cyn cyhuddo ar gyfer troseddau rhywiol<sup>15</sup>.
- Erlynwyd 8,554 o ddiffynyddion yn 2013-14 am droseddau rhywiol, ac eithrio treisio; cynnydd o 7,771 yn 2012-13; ond heb gyrraedd y nifer uchaf o 8,862 a erlynwyd yn 2010-11;
- Cododd erlyniadau troseddau rhywiol o 1.0% yn 2012-13 i 1.2% o lwyth achosion y CPS<sup>16</sup> yn 2013-14.
- Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 6,756 – y swm uchaf erioed a chynnydd o 13% ers 2012-13.
- Cododd y gyfran o ddeilliannau llwyddiannus i 79.0%, cynnydd o 5.5pnt ers 2007-08 a'r gyfradd collfarnau uchaf erioed i'w chofnodi hefyd.
- Cyhoeddwyd arweiniad dros dro newydd ar erlyn achosion nad ydynt yn ddiweddar ble mae cosb enwol y canlyniad tebygol ar gyfer ymgynghoriad yn Chwefror 2014.
- Darperir nifer o astudiaethau achos yn arddangos achosion yn ymwneud â throseddau rhywiol ble roedd camddefnydd o ymddiriedaeth a chysylltiadau i ddelweddau anweddus.

## Priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu benywod<sup>17</sup>

### Priodas dan orfod

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau priodas dan orfod o'r heddlu i 67 yn 2013-14 – o 59 yn 2012-13.
- Cafodd 42 (62.7% o'r atgyfeiriadau hyn) eu cyhuddo, y nifer uchaf erioed i'w gofnodi a'r un gyfran ag yn 2012-13.
- Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2013-14 i 45 – cynnydd o 41 yn 2012-13.
- Roedd 71% yn llwyddiannus, fel yn 2012-13.
- Gostyngodd achosion a derfynwyd o 41.5% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11, i 17.8% yn 2013-14.
- Pasiwyd deddfwriaeth newydd yn 2012 i droseddoli priodas dan orfod, cynhaliwyd gweminar hyfforddi yn 2013; a bwriedir gweithredu'r cyfreithiau newydd a chynnal hyfforddiant yn 2014.

### Trais yn seiliedig ar anrhydedd

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu o droseddau yn ymwneud â thrais yn seiliedig ar urddas (HBV) i 240 yn 2013-14 – o 230 yn 2012-13.
- Cyhuddwyd 158 (65.8% o'r atgyfeiriadau hyn), y niferoedd a chyfrannau uchaf erioed i'w cofnodi.

<sup>15</sup> Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys unrhyw arwydd o benderfyniadau cyn cyhuddo ynghylch troseddau rhywiol (ac eithrio treisio), gan mai dim ond ar ôl gorffen yr achos erlyn mae'r prif gategori o 'droseddau rhywiol' sy'n cynnwys treisio a phob trosedd rhywiol yn cael ei ddyrannu i achosion.

<sup>16</sup> Lwyth achosion troseddau rhywiol fel % o holl erlyniadau'r CPS

<sup>17</sup> Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.

- Erlynwyd 206 o ddiffynyddion, cynnydd o 200 y llynedd, gyda 59.7% yn cael eu collfarnu, lleihad o 3.3ppt o 2012-13.
- Gostyngodd achosion a derfynwyd o 40.6% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11 i 27.2% yn 2013-14.

## Anffurfio organau cenhedlu benywod

- Dechreuwyd yr erlyniad cyntaf am drosedd FGM ym Mawrth 2014.
- Cyflawnodd Ardaloedd ddetholiad o fentrau i wella erlyniadau, yn cynnwys cynadleddau a seminarau ar FGM.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd bord gron ar FGM yn 2012 a 2013, gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr, a arweiniodd at roi cynlluniau gweithredu ar waith, yn cynnwys protocolau gyda'r heddlu.

## Cam-drin plant

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau cam-drin plant gan yr heddlu i 11,187 yn 2013-14 – cynnydd o 1,808 (19.3%) o 2012-13.
- Cyhuddwyd 7,731 (69.1% o'r atgyfeiriadau hyn), cynnydd o 1,949 (33.7% mewn nifer) o 2012-13.
- Cyrhaeddodd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2013-14 7,998 – cynnydd o 440 (5.8%) ers 2012-13.
- Roedd cynnydd yn y nifer o ddeilliannau llwyddiannus mewn achosion cam-drin plant yn gyffredinol o 5,755 yn 2012-13 i 6,096 yn 2013-14 (o 76.1% a gafwyd yn euog yn 2012-13 i 76.2% yn 2013-14).
- Yn 2013-14 cafwyd cynnydd yn y nifer o erlyniadau troseddau dynladdiad cam-drin plant<sup>18</sup>, o 30 yn 2012-13 i 35, gyda dros 91.4% o ddeilliannau llwyddiannus.
- Roedd cynnydd yn y nifer o droseddau yn erbyn y person (o 2,220 i 2,383); gyda deilliannau llwyddiannus yn gostwng o 74.0% i 72.4%, o gymharu â 2012-13.
- Cododd erlyniadau troseddau cam-drin plant yn rhywiol a gwblhawyd yn 2013-14 (o 4,051 i 4,371); gyda deilliannau llwyddiannus yn codi o 75.8% i 76.5%.
- Sefydlwyd rhwydwaith o arbenigwyr cam-drin plant yn rhywiol (CSA) yn 2013-14.
- Cyhoeddwyd canllaw cyfreithiol ar CSA yn 2013, gan ddarparu hyfforddiant i'r holl erlynyddion a hyfforddiant bellach i erlynyddion arbenigol.
- Datblygwyd protocol ar gyfer datgelu gwybodaeth trydydd parti gydag a gan wasanaethau cymdeithasol, ysgolion a llysoedd teulu mewn achosion o gam-drin plant honedig.
- Sefydlwyd panel i adolygu achosion nad ydynt yn ddiweddar o CSA.
- Mae astudiaethau achos o Ardaloedd yn arddangos erlyniad o achosion paratoi a CSA.

## Masnachu mewn pobl a phuteindra

- Ers Ebrill 2010, mae'r CPS wedi llysoedd pobl a phuteindra<sup>19</sup>.

<sup>18</sup> Gweler y rhestr termau am ddiffiniadau.

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau masnachu mewn pobl gan yr heddlu i 171 yn 2013-14 – cynnydd o 30.5% o 131 o atgyfeiriadau yn 2012-13.
- Cyhuddwyd 103 (60.2% o'r atgyfeiriadau hyn), nifer debyg i 2012-13 (102).
- Cyrhaeddodd y nifer o erlyniadau masnachu mewn pobl a gwblhawyd yn 2013-14 226 – cynnydd o 139 yn 2012-13.
- Roedd cynnydd yn y nifer o ddeilliannau llwyddiannus masnachu mewn pobl o 99 yn 2012-13 i 155 yn 2013-14 (gostyngodd 71.2% o ddeilliannau llwyddiannus yn 2012-13 i 68.6% yn 2013-14; yn bennaf yn gysylltiedig i gynnydd mewn rhyddfarnau gan reithgorau).
- Gostyngodd y nifer o droseddau yn ymwneud â phuteindra<sup>20</sup> i'w herlyn yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Daeth deddfwriaeth masnachu mewn pobl i rym yn Ebrill 2013, gyda chanllaw cyfreithiol wedi ei ddiweddarau yn 2013-14 ar beidio erlyn dioddefwyr a fasnachwyd i weithgaredd troseddol.
- Lansiodd modwl e-ddysgu ar gyfer masnachu mewn pobl ym Mawrth 2013.
- Yn Ionawr 2014, lansiodd cynllun gweithredu ar fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth y CPS.
- Mae astudiaethau achos yn cynnwys enghreifftiau o fasnachu a chaethwasiaeth.

## Pornograffi

- Yn 2013-14 cafwyd cynnydd mewn erlyniadau am ddelweddau cam-drin plant o 18,937 i 20,373, yn cynnwys cychwyn erlyniadau ar gyfer 15,574 o droseddau o gamfanteisio ar blant trwy luniau; yn cynnwys cynnydd mewn erlyniadau am y drosedd fwyaf diweddar o feddiant o ddelwedd waharddedig o blentyn o 394 i 534.
- Roedd lleihad mewn troseddau anlladrwydd a erlynwyd o 5,508 i 4,764.
- Ar y cyfan roedd cynnydd o ychydig dan 8% ddelweddau cam-drin plant a lleihad o 13.5% o droseddau anlladrwydd yn cyrraedd gwrandawriad cyntaf.
- Gwnaethpwyd hyfforddiant a gyhoeddwyd ar seiber stelcio yn 2012 yn orfodol yn 2013.
- Datblygwyd nifer o fodylau e-ddysgu newydd, Erlyn Paratoi Ar-lein a Defnydd o gyfryngau Cymdeithasol a bydd yn cael ei lansio ar gyfer erlynyddion yn ystod 2014-15.
- Mae astudiaethau achos yn arddangos erlyniadau o gam-drin plant yn rhywiol a delweddau anwedus; pornograffi rhyngwyd a threisio.

<sup>19</sup> Gweler y rhestr termau am y troseddau llumanu. Fel gydag unrhyw system fonitro cymharol newydd, mae angen amser iddi sefydlu er mwyn sicrhau ei defnydd cywir. Felly mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data yn ofalus. O Ionawr 2013, roedd cywirdeb llumanu yn cael ei wirio'n chwarterol.

<sup>20</sup> Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd, deilliant na data cydraddoldeb. Troseddau a gofnodwyd yn y Bydysawd Troseddau System Gwybodaeth Reoli yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawriad. Nid oes arwydd o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad sylweddol yn y diwedd.

# Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Troseddau yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) hwn gan y CPS y seithfed rhifyn i'w gyhoeddi gan y CPS.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n trafod amrediad o feysydd VAWG:

- TD
- stelcio ac aflonyddu
- treisio a throseddau rhywiol
- priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu benywod
- cam-drin plant
- masnachu mewn pobl, gyda ffocws ar fasnachu mewn pobl i ddiben camfanteisio rhywiol
- puteindra
- pornograffi.

Mae'r adroddiad yn darparu data a sylwebaeth mewn adrannau ar wahân ar bob un o'r meysydd VAWG, gan gynnwys nifer o astudiaethau achos ac arfer dda. Mae'r prif faterion a gafodd eu dynodi yn 2013-14 wedi'u hamlygu ym mhob adran ac yn gallu newid yn ôl meysydd. Mae'r CPS yn casglu data<sup>21</sup> i gynorthwyo mewn rheolaeth effeithiol o'i swyddogaethau erlyn. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cyfateb i ystadegau swyddogol fel y diffiniwyd yn y Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007<sup>22</sup>.

Mae proffiliau cydraddoldeb ddiffynyddion, yn ôl rhyw ac ethnigrwydd, yn derbyn sylw ac adroddir yn ôl arnynt yn yr adroddiad hwn. Adroddir data ar ddiodefwyr ble mae ar gael ac mae'n parhau i fod dan ddatblygiad pellach.

## Cynlluniau trawslywodraeth

Ym Mawrth 2013 bu i'r llywodraeth flaenoriaethu gwaith ar VAWG drwy gyhoeddi cynllun gweithredu VAWG trawslywodraeth 2013-14, gan gynnwys cynlluniau'r CPS. Goruchwyllir gweithrediad y gweithredoedd hyn gan y Grŵp Rhyngweinidogol VAWG. Roedd cynlluniau'r CPS ar gyfer 2013-14 yn cynnwys datblygu gwaith ar gam-drin plant yn rhywiol, FGM, natur fregus diodefwyr, estyniad cenedlaethol unedau treisio a cham-drin rhywiol difrifol, gwella'r ddealltwriaeth o gyhuddiadau 'ffug' honedig o TD yn ogystal â diweddariadau ar bolisiau a hyfforddiant. Mae'r holl fanylion wedi eu cynnwys yn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn.

<sup>21</sup> Casglwyd data ar droseddau VAWG o System Rheoli Achosion (CMS) y CPS a System Gwybodaeth Rheoli (MIS) cysylltiedig sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn amodol i wallau posibl gyda chofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigurau hyn yn rhai dros dro ac yn amodol i newid wrth ragor o wybodaeth gan ei gofnodi gan y CPS

<sup>22</sup> Cynhelir yr ystadegau swyddogol yn ymwneud â throseddau a phlisma gan y Swyddfa Gartref ac mae'r ystadegau swyddogol yn ymwneud â dedfrydu, achosion llysoedd troseddol, dod â throseddwyd i gyfiawnder, y llysoedd a'r farnwriaeth wedi eu cynnal gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Trais yn erbyn Menywod a Merched

Parhaodd gwaith VAWG i fod yn flaenoriaeth yng nghynlluniau busnes Cenedlaethol ac Ardal y CPS yn 2013-14; ymagwedd prif ffrwd i faterion VAWG, gyda pherchnogaeth Ardal ac atebolrwydd. Blaenoriaethodd gwaith yn 2013-14 ddelio â'r lleihad mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu o achosion VAWG, yn arwain at gynnydd nodedig trwy gydol y flwyddyn. Arweiniodd hyn at gyhuddo, erlyn a cholffarnu nifer uwch ar draws troseddau VAWG. Mae gwaith penodol ar gam-drin plant yn rhywiol ac FGM wedi bod yn flaenoriaeth uchel yn y flwyddyn ddiwethaf.

O fewn ychydig wythnosau i ddechrau yn y swydd yn Nhachwedd 2013, cynhaliodd y DPP ddiwrnod o gyfarfodydd gyda sefydliadau rheng flaen allweddol VAWG yn cynnwys y Llinell Gymorth Genedlaethol VAWG; Coordinated Action Against Domestic Abuse (CAADA) a sefydliadau yn gweithio gyda dioddefwyr treisio, priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar urddas, masnachu mewn pobl a phuteindra.

## **Cydlynwyr VAWG:**

Arweiniodd Cydlynwyr VAWG ar faterion ar lefel Ardal, gan gwrdd ddwywaith y flwyddyn fel rhwydwaith i ddelio â materion allweddol gyda'i gilydd, yn ogystal â gweithio gyda'u Prif Erlynyddion y Goron i ddarparu'r sicrwydd ar berfformiad VAWG i'r DPP.

## **Cefnogaeth rhanddeiliaid:**

Ar lefel genedlaethol, parhaodd Grŵp Ymgynghori Allanol (ECG) VAWG, yn cynnwys grwpiau arbenigwyr VAWG allweddol, i gynghori tîm VAWG y CPS fel is-grŵp o'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol ehangach. Parhaodd y Gyfarwyddiaeth Atebolrwydd a Chynhwysiant Cyhoeddus (PAID)<sup>23</sup> i ddal cyfrifoldeb cyffredinol am yr agenda VAWG yn y CPS ac mae Cyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi'r CPS yn cefnogi'r agenda VAWG trwy ddarparu arweiniad polisi amlwg yn cynnwys TD, treisio, priodas dan orfod, FGM, stelcio, aflonyddu, cam-drin plant yn rhywiol, trais seiliedig ar urddas, masnachu mewn pobl, puteindra, esgeuluso plant a phornograffi.

## **Cysylltiadau ar draws materion VAWG:**

Mae ein ffocws yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi ei hogi i ddeall gwendid ac aflonyddu ar ddiodefwyr VAWG, ac yn 2013-14 rydym wedi adeiladu ar adolygu'r achosion hyn ar hygredd y cyhuddiad, yn hytrach na'r diodefwyr.

Mae'r ddealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y gwahanol fathau o droseddau VAWG yn parhau i wella. Yn 2013-14, nododd y ffocws ar gam-drin mewn perthnasau rhai yn eu harddegau, troseddau rhywiol nad ydynt yn ddiweddar, delweddau diweddar o blant, FGM, stelcio, cam-drin plant yn rhywiol a masnachu newidiadau angenrheidiol ar draws yr heddlu a'r CPS. Ymysg troseddau VAWG a erlynwyd roedd cam-drin menywod a merched trwy safleoedd rhwydweithiau cymdeithasol a'r rhyngwyd.

## **Ailffocysu ar arferion gweithredu VAWG:**

Yn 2013, lluniodd y Gwasanaeth gynigion i safoni a rhesymoli arferion gweithredu cenedlaethol. Ar gyfer VAWG roedd hyn yn golygu delio â gweithdrefnau cyhuddo ar draws VAWG; gan sicrhau bod TD yn rhan ganolog o'r ymarfer gweithredu safonol ar gyfer

---

<sup>23</sup> Yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDU) gynt

llysoedd ynadon, wedi ei hysbysu gan yr ECG VAWG, a chyflwyno Unedau Troseddau Rhywiol Difrifol ar draws yr holl Ardaloedd yn 2013-14 – darperir manylion yn yr adrannau TD a threisio o'r adroddiad.

### **Cyflogeion:**

Yn Nhachwedd 2013, llofnododd y CPS ymroddiad i gefnogi staff sy'n dioddef stelcio a thrais yn y cartref a'r gwaith, yn rhan o'r Fargen Cyfrifoldeb Iechyd Cyhoeddus a arweinir gan yr Adran Iechyd. Mae gan y CPS bolisi ers 2003 i gefnogi staff sy'n wynebu TD, wedi ei ymestyn ar draws VAWG yn 2010.

## **Perfformiad VAWG**

Yn 2013-14, parhaodd Ardaloedd CPS i fonitro'u perfformiad yn defnyddio mesur dilysu VAWG oedd yn asesu deilliannau llwyddiannus ar gyfer TD, troseddau rhywiol a threisio, yn ogystal â'r nifer o erlyniadau.

Roedd Ardaloedd yn dal i ddarparu sicrwydd o'u perfformiad VAWG cyffredinol pob chwe mis, yn cynnwys asesiad manwl o erlyniadau TD, treisio a throseddau rhywiol i'r DPP. Mae Ardaloedd yn cael eu hasesu yn ôl eu tuedd mewn perfformiad, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ac wedi eu graddio yn ôl eu perfformiad VAWG. Mae Ardaloedd yn derbyn adborth ar eu hadroddiadau sicrwydd gan y tîm VAWG a'r DPP ac mae'n ofynnol iddynt lunio a chyflawni tri phwynt gweithredu yn dilyn pob asesiad chwemisol.

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, mae'r mwyafrif (86.3%) o droseddau sydd wedi eu grwpio dan VAWG<sup>24</sup>, i ddibenion rheoli perfformiad yn TD, gyda threisio ar 4.3% a throseddau rhywiol ac eithrio treisio, ar 9.5%.

Ers cyflwyno cofnodi troseddau VAWG rydym wedi cyrraedd y lefel uchaf o atgyfeiriadau gan yr heddlu o ddiffynyddion VAWG ar gyfer penderfyniadau cyhuddo. Yn 2013-14, cyfeiriwyd 109,419 o ddiffynyddion i'r CPS – cynnydd o 15,905 (17%) o 2012-13 ac yn uwch na'r lefel uchaf flaenorol yn 2010-11. Roedd y cynnydd hwn hefyd wedi ei adlewyrchu yn y nifer a'r gyfran a gyhuddwyd – gan gyrraedd 76,526 (69.9%) – cynnydd o 13,448 (21.3%) o 2012-13 a'r uchaf erioed<sup>25</sup>. Mae gwarediadau allan o'r llys yn y cam cyn cyhuddo hefyd wedi cyrraedd y lefel isaf hyd yn hyn (1,296, ychydig dros 1% o'r holl atgyfeiriadau).

Mae'r gwelliant hwn wedi dangos pwysigrwydd cael y CPS i nodi'r lleihad yn niferoedd fel mater yn yr adroddiad troseddau VAWG diwethaf a delio â hyn yn ystod 2013-14. Cynhaliwyd cyfarfod ford gron gan y DPP ym Medi 2013 gyda'r Swyddfa Gartref ac arweinyddion treisio a TD Cenedlaethol yr Heddlu i archwilio'r lleihad yn niferoedd TD a threisio. Nodwyd amrywiad ar draws ardaloedd heddlu y deliwyd ag ef trwy gynllun chwe phwynt, yn cynnwys gwaith gyda HMIC ar TD; datblygu Panel Craffu Cenedlaethol i archwilio niferoedd treisio; gwaith gyda'r MoJ parthed gwarediadau allan o'r llys; darparu

<sup>24</sup> Mae data ar gyfer 'troseddau VAWG' yn cynnwys trais domestig, treisio a throseddau rhywiol


<sup>25</sup> Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n darparu ffigur mwy cywir ar gyfer y canran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen at erlyniad. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.



gwybodaeth ar Gyngorwyr TD Annibynnol (ITDAau); codi ymwybyddiaeth o'r materion gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yn ogystal â'r CPS ar yr asesiad presennol o ddata cyhuddo yn ystod 2013-14. Bydd y camau hyn yn cael eu disgrifio mewn manylder yn adrannau priodol yr adroddiad hwn.


Mae Graff 1 yn arddangos y newidiadau mewn niferoedd ac atgyfeiriadau a chyhuddo ers 2007-08.

**Graff 1: VAWG nifer o atgyfeiriadau heddlu a diffynyddion a gyhuddir**



Cododd y llwyth achosion VAWG yn 2013-14 gan gyrraedd y lefel uchaf erioed ar 12.5%, fel yng Ngraff 2.

**Graff 2: Llwyth achosion VAWG fel % o'r cyfanswm llwyth achosion yn 2007-08 i 2013-14.**



Linear – Llinol




**LLWYTH ACHOSION VAWG CHWARTEROL FEL % O'R  
CYFANSWM**

	2007-08	2009-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
CPS CENEDLAETHOL	7.1%	7.6%	8.7%	9.9%	10.2%	10.3%	12.5%

Cododd y nifer o droseddau VAWG a erlynwyd<sup>26</sup> o 82,165 yn 2012-13 i 90,516 yn 2013-14, cynnydd o 8,351 o ddiffynnyddion, ond heb gyrraedd lefel uchaf 2010-11 eto<sup>27</sup>. Felly hefyd, cynyddodd y nifer a gafwyd yn euog o 6,527, o 60,853 yn 2012-13 i 67,380 yn 2013-14<sup>28</sup>. Er bod y nifer a gyhuddir wedi codi, bydd rhywfaint o oedi o ran gweld effaith yr erlyniadau a chanlyniadau a gwblhawyd wrth i'r achosion pasio trwy system y llysoedd yn y flwyddyn i ddod.

Mae Graff 3 yn dynodi'r niferoedd cynyddol, gan wyrdroi'r dirywiad cynharach o 2010-11.

**Graff 3: Nifer o gollfarnau ac erlyniadau ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched o 2007-08 i 2012-13.**




Mae'r gyfradd o gollfarnau VAWG wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed, gan gyrraedd 74.4% o ganlyniadau llwyddiannus yn 2013-14. Mae Graff 4 yn arddangos y patrwm cynyddol o gyfraddau collfarnau dros y daith mlynedd diwethaf.

**Graff 4: Cyfraddau collfarnau ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched o 2007-08 i 2013-14.**

<sup>26</sup> Sylwer fod y niferoedd cyhuddo yn cwmpasu'r achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* i'r CPS yn ystod 2013-14 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo na ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd gyda'r rhai a erlynwyd sy'n cwmpasu achosion yn ôl diffynnydd, a *gwblhawyd* yn ystod 2013-14.

<sup>27</sup> Roedd y nifer uchaf o erlyniadau a sicrhawyd yn 2010-11 ar 95,257.

<sup>28</sup> Roedd y nifer uchaf o gollfarnau a sicrhawyd yn 2010-11 ar 68,154.



Roedd 90% o'r deilliannau llwyddiannus o ganlyniad i bledion euog. Mae mwy o bledion euog yn golygu y gellir dod ag achosion i'r llys yn gyflymach ac ar gost sylweddol is, gan eu bod yn galw am lai o waith paratoi. Mae hyn yn fanteisiol i'r dioddefydd gan nad oes rhaid iddynt fynychu'r llys i roi tystiolaeth.

Yn 2013-14, newidiwyd cofnodi'r rhesymau am ddeilliannau aflwyddiannus. Mae hyn wedi arwain yn benodol ar wella cofnodi o faterion dioddefwyr. Yn flaenorol, gallai rhesymau fod wedi eu cofnodi fel 'elfen gyfreithiol allweddol ar goll' neu 'tyst annibynadwy'. Yn 2013-14, rydym wedi gweld lleihad yn y rhesymau hyn a chynnydd mewn cofnodi materion penodol yn ymwneud â dioddefwyr; a ddisgrifir yn adrannau'r adroddiad hwn.

## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tabl ar dudalen 80 yn darparu data erlyniadau VAWG yn ôl Ardal ac ardaloedd heddlu. Mae'r atodiad cysylltiedig, a roddwyd ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol, yn darparu data cyn cyhuddo Ardaloedd ac ardaloedd yr heddlu. O fewn y broses sicrwydd VAWG, asesir Ardaloedd yn ôl eu meintiau yn ogystal â chyfraddau collfarnau ynghyd â'u tuedd unigol mewn perfformiad. Mae asesiadau manwl yn cynnwys delio â chyfrannau cyhuddo, llwythi achosion, niferoedd a erlynir, niferoedd a derfynir ac a gollfarnir yn ogystal â'r rhesymau dros ddeilliannau aflwyddiannus. Yn 2014-15, mae asesiad yn cynnwys data cyn cyhuddo yn ogystal ag wedi cyhuddo.

## Materion cydraddoldeb

### Rhyw

Roedd y data rhywedd ar gyfer 2013-14 yr un peth ag yn 2012-13. Roedd 94% o ddiffynyddion VAWG yn ddyonion. O'r rhai ble cofnodwyd eu rhywedd<sup>29</sup>, roedd y gyfran fenywaidd o ddiodeffwyr yn 84%.

### Ethnigrwydd

Yn 2012-13, dosbarthwyd 78% o ddiffynyddion<sup>30</sup> troseddau VAWG fel Gwyn, gan nodi fod 73% yn Wyn Prydeinig (tebyg i'r flwyddyn flaenorol). Dynodwyd 6% o ddiffynyddion yn

<sup>29</sup> Cofnodwyd 83% o rywedd diodeffwyr yn 2013-14 – cynnydd o 82% yn 2012-13.

Asiaidd, ac ychydig dan 6% yn Ddu, ffigyrau tebyg i'r flwyddyn flaenorol<sup>31</sup>. Ni chofnodwyd ethnigrwydd ychydig dros hanner dioddefwyr, felly ni adroddwyd ar y data hwn yn yr adroddiad hwn.

## Oed

Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (71%) a 18-24 (23%). Roedd yn bryder i nodi bod 26% o ddiffynyddion (23,557) dan 24 oed, gyda 2,746 (3%) o ddiffynyddion yn 14-17 oed a 197 (0.2%) yn 10-13 oed. O'r dioddefwyr hynny gydag oed cofnodedig<sup>32</sup>, roedd y mwyafrif rhwng 25-59 oed (65%) a 18-24 (25%). Yn debyg i oed diffynyddion, roedd yn bryder i nodi bod 30.5% o ddiodefwyr (20,624) dan 24 oed, gyda 3,157 (5%) o ddiodefwyr yn 14-17 oed ac 830 (1%) yn 10-13 oed a 163 dan 10 (0.3%).

## Gwaith rhyngwladol VAWG

Yn Ebrill 2013, bu ymgynghorydd polisi treisio'r CPS yn cymryd rhan yn Swyddfa Cyffuriau a throseddau'r Cenhedloedd Unedig (UNDOC) gan gydweithio gyda Sefydliad Cyfiawnder Gwlad Thai oedd newydd ei sefydlu, yn cynnal cyfarfod tridiau i ddatblygu Llawlyfr i erlynyddion yn delio ag achosion VAWG. Ym Mehefin 2013, mynychodd y CCP o Lannau'r Mersi a Swydd Gaer gyfarfod dilynol o UNDOC i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y CJS cyfan ac arwain y sesiwn ar ddeddfwriaeth.

Amlinellodd y cylchlythyr VAWG yn 2013 dair rhwydwaith arbenigol o'r Gymdeithas Genedlaethol o Erlynyddion yn cwmpasu masnachu mewn pobl; troseddau electronig a throseddau rhyfel. Adroddir ar waith rhyngwladol arall ym mhob adran. Cyfarfu'r CPS a'r Swyddfa Gartref â dirprwyaeth o Zambia i drafod materion VAWG.

## Materion dioddefwyr

Deliwyd â materion dioddefwyr ym mhob adran o'r adroddiad. Yn ogystal, mae nifer o faterion dioddefwyr cyffredinol o bwysigrwydd cyffredinol yn erlyniad achosion VAWG.

**Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau** – daeth Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau (Cod Dioddefwyr) diwygiedig i rym yn Rhagfyr 2013. Mae'n sefydlu isafswm y lefel o wasanaeth y gall dioddefwyr troseddau ddisgwyl ei dderbyn gan yr amrywiol asiantaethau cyfiawnder troseddol a restrir ac yn rhoi mwy o eglurder ar eu cyfer yn eu dealltwriaeth o'u hawliau. Mae'r Cod Dioddefwyr hefyd yn nodi dioddefwyr sydd â hawl i lefel uwch o wasanaeth – dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, dioddefwyr a dargedir yn mynychu a dioddefwyr bregus neu wedi eu brawychu. Mae'r tri chategori yma wedi eu cynllunio i sicrhau y bydd dioddefwyr gyda'r angen mwyaf yn gallu cael mynediad at gefnogaeth uwch. Mae gan ddiodefwyr TD a diodefwyr troseddau rhywiol hawl awtomatig i wasanaeth uwch fel 'dioddefwyr y trosedd mwyaf difrifol'.

<sup>30</sup> Mae data ethnigrwydd ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau CJS cytunedig ar gyfer y categorïau ethnig 16+1.

<sup>31</sup> Ni ddatganodd 3% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ychydig dros 5% o ethnigrwydd diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu.

<sup>32</sup> Cofnodwyd 81% o oedrannau dioddefwyr yn 2013-14 – cynnydd o 79% yn 2012-13.

**Strategaeth Dioddefwyr a Thystion y CPS** – blaenoriaeth allweddol i'r DPP yw gwella'r gwasanaeth a chefnogaeth mae'r CPS yn ei ddarparu i ddioddefwyr a thystion trwy gydol eu hamser yn y system gyfiawnder droseddol. Mae'n bwysig fod dioddefwyr a thystion yn cael yr wybodaeth a chefnogaeth gywir trwy gydol yr amser hwnnw er mwyn bodloni eu hanghenion a bod yr achos yn mynd ymlaen i ganlyniad cyfiawn. Mae dogfen y strategaeth yn sefydlu sut ydym yn bwriadu delio â hyn.

**Unedau Cyswllt Dioddefwyr** – mae Unedau Cyswllt Dioddefwyr ymroddedig yn cael eu cyflwyno ar draws yr holl Ardaloedd CPS i sicrhau fod dioddefwyr yn cael cyfathrebiadau amserol, empathig pan benderfynwn atal achos neu addasu'r cyhuddiadau'n arwyddocaol. Mae'r unedau hyn yn siop un stop i ddioddefwyr parthed ein cyfathrebiadau yn dilyn cwblhau. Bydd yr unedau hefyd yn rheoli cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygu, cwynion a gwaith gweinyddu cynlluniau eraill yn ymwneud â dioddefwyr megis cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth.

**Hawl Dioddefwyr i Adolygu – Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygu** – yn dilyn y dyfarniad yn R v Killik, lansiodd y CPS Hawl Dioddefwyr i Adolygu ym Mehefin 2013. Mae'r cynllun newydd yn ei gwneud yn haws i ddioddefwyr geisio adolygiad o benderfyniad y CPS i beidio erlyn. Mae adolygiadau yn cael eu cwblhau'n gychwynol ar lefel leol a gellir adolygu'r achos ymhellach gan yr Uned Apeliadau ac Adolygiad, ar gais y dioddefwr, yn dilyn penderfyniad yr Ardal.

Roedd canllaw yn amodol i ymgynghoriad allanol ffurfiol yn ystod 2013. Bwriedir dechrau'r canllaw terfynol yn gynnar yn haf 2014. Mae perfformiad yn cael ei fonitro i adlewyrchu'r nifer o achosion ble ategwyd y VRR yn llwyddiannus fel canran o achosion ble nodwyd roedd dioddefwr wedi ei nodi. Gall dioddefwyr hefyd fynd â'u cwyn i'r Aseswr Cwynion Annibynnol. Bwriedir dadansoddi hyn yn 2014-15.

**Cynllun Cyfathrebu a Chyswllt Dioddefwyr** – yn dilyn gwerthusiad llwyddiannus o'r astudiaeth beilot i brofi sut allwn ni wella cyfathrebu gyda dioddefwyr, rydym wedi gweithredu'r cynllun Cyfathrebu a Chyswllt Dioddefwyr, sy'n cymryd lle'r cynllun Cyfathrebu Uniongyrchol gyda Dioddefwyr. Dan y cynllun diwygiedig, byddwn yn dal i hysbysu dioddefwyr o'n penderfyniadau i atal neu addasu cyhuddiadau'n arwyddocaol, gan ddarparu gwasanaethau uwch penodol i ddioddefwyr sydd fwyaf angen cefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys dioddefwyr VAWG.

**Mesurau arbennig** – mae'r canllaw i erlynyddion parthed mesurau arbennig wedi ei ddiweddarau, a bydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn haf 2014. Mae'r canllaw diwygiedig yn ystyried yr argymhellion a wnaethpwyd gan ymchwil 2012 y CPS i ddefnyddio mesurau arbennig, ac yn cynnwys gwybodaeth a chanllaw ymarferol uwch i erlynyddion, yn arbennig parthed cyfryngwyr. Yn ogystal, mae'r canllaw yn darparu gwybodaeth bellach i erlynyddion parthed trafodaethau mesurau arbennig gyda'r heddlu a ffactorau i erlynyddion eu hystyried wrth bennu a ddylid cynnal cyfarfodydd mesurau arbennig gyda thystion.

Mae'r CPS yn dal i gyfrannu i'r Porth Eiriolwyr, a lansiwyd yn Ebrill 2013, sy'n darparu canllaw ymarferol i ymarferwyr cyfiawnder troseddol ar dystion bregus a diffynyddion.

### Arfer da:

- Lansiodd Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Cleveland, Durham a Northumbria strategaeth ranbarthol i daclo trais yn erbyn menywod a merched yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, gan weithio'n agos gyda'r CPS yn lleol.

### Canllawiau ar erlyn achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol

Cyhoeddwyd canllawiau ar erlyn achosion yn ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol ym Mehefin 2013. Mae'r canllawiau yn gwahaniaethu'n glir rhwng y cyfathrebiadau hynny y dylid eu herlyn yn gadarn, megis y rhai sy'n cyfateb i fygythiad credadwy o drais, ac ymgyrch dargedig o aflonyddu yn erbyn unigolyn neu sy'n groes i orchmynion llys, a'r cyfathrebiadau hynny y gellid eu hystyried i fod yn sarhaus iawn, ble dylid defnyddio'r trothwy uchel. Mae erlyniad yn llai tebygol o fod er lles y cyhoedd os, er enghraifft, yw'r cyfathrebiad yn cael ei ddileu, blocio, nad yw wedi ei fwriadu ar gyfer cynulleidfa ehangach neu nad yw'n amlwg tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddehongli i fod yn oddefol neu dderbyniol mewn cymdeithas amrywiol sy'n cynnal a pharchu rhyddid mynegiant. Mae angen darllen y canllawiau cyfyngau cymdeithasol yn ar y cyd â'r Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron sy'n nodi ffactorau lles y cyhoedd yn cynnwys a oedd y drosedd wedi ei hysgogi gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn y dioddefwr yn cynnwys gwahaniaethu ar sail rhyw. Fe ystyrir ffactorau lles y cyhoedd parthed cyfathrebu a ystyrir i fod yn hynod sarhaus, anwedus, aflodnais neu ffug.

### Cyfryngau cymdeithasol:

- Roedd diffynnydd yn amau i'w bartner fod yn anffyddlon iddo tra roedd ar wyliau'n ddiweddar. Fe'i gwahoddod yn ôl i'w gartref a mynd â hi i'r ystafell wely ble dadwisgodd hi, gan fod yn serchog tuag ati. Yna fe wnaeth esgus a gwisgo amdano, yna ei llusgo allan o'r gwely, ei gorfodi i lawr y grisiau a'i gwithio'n noeth ar y lawnt o flaen y tŷ. Ceisiodd ei dad ymyrryd a mynd i nôl blanced i orchuddio'r dioddefwr. Fe dynnodd luniau ohoni ar ei ffôn symudol a rhoi'r neges ar ei gyfrif Facebook gan wahodd ei ffrindiau i 'hoffi' y llun a dweud wrthynt iddi dwyllo arno. Roedd y llun ar y safle am sawl niwrnod a bu nifer o bobl yn 'rhannu' y llun ac ychwanegu negeseuon ymosodol am y dioddefwr. Diolch i safiad cadarn gan yr arbenigwr TD oedd yn erlyn yr achos, cafwyd ple euog gan y diffynnydd. Derbyniodd orchymyn cymunedol a gorchymyn ataliol o ddwy flynedd.

## Troseddwy'r benywaidd

Daeth cod ymarfer diwygiedig ar Rybuddion Amodol i Oedolion i rym yn Ebrill 2013 gan ddarparu y gall swyddogion yr heddlu nawr wneud y penderfyniad i awdurdodi Amodau Penodol i Fenywod (WSC)<sup>33</sup> heb gyfeirio at y CPS.

Mae'r gyfran o garcharorion benywaidd sy'n adrodd cam-drin yn eu hoes yn ddwbl beth yw i ddynion. Mae gan nifer broblemau gyda chyffuriau a cham-drin alcohol, mae bron i ddau draean yn gadael plant dibynnol wrth fynd i'r carchar ac mae nifer yn hunan-niweidio.

Cyhoeddodd yr MoJ flaenoriaethau strategol ar gyfer troseddwy'r benywaidd: darpariaeth well yn y gymuned i droseddwy'r benywaidd; trawsnewid adsefydlu ar gyfer troseddwy'r benywaidd (gan gydnabod anghenion menywod penodol); adolygiad o ystâd carchardai menywod yn haf 2013; datblygu ymagwedd system gyfan, gan weithio gyda phartneriaid.

Sefydlwyd Bwrdd Cynghorol o randdeiliaid allweddol, partneriaid cyfiawnder troseddol ac uwch swyddogion o amrywiol adrannau'r llywodraeth.

### Arfer da:

- Mae'r CPS yn cymryd rhan ym Mhrosiect Integredig Braenaru Menywod Rheoli Troseddwy'r Cymru, i helpu cynllunio a darparu ymagwedd system gyfan benodol i fenywod i ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.
- Mynychodd y CCP o Wessex lansiad canolfan menywod yn cefnogi troseddwy'r benywaidd.
- Mae Canolfan Beth yn darparu set holistaidd o wasanaethau cefnogaeth i fenywod o Lambeth sydd naill ai dan risg o, neu wedi eu heffeithio gan, y system gyfiawnder droseddol, o ganolfan ddiogel, i fenywod yn unig, wedi ei lleoli'n ganolog yn y fwrdeistref. Mae'r ganolfan yn cynnig asesiad trylwyr i fenywod sy'n gadael carchar o'u hanghenion adsefydlu; gwaith i gefnogi menywod ifanc sydd dan risg o fod yn gysylltiedig â, neu sy'n gadael, gangiau; cynllun allgymorth puteindra i gefnogi menywod sy'n gadael puteindra a pherthnasau treisgar, delio ag anghenion cefnogaeth cam-drin sylweddau, a mynediad at gyflogaeth amgen.

<sup>33</sup> Mae'r Amod Penodol i Fenywod yn amod adferol i fynychu canolfan /prosiect menywod ar gyfer "asesiad anghenion" llawn, ac yna gall troseddwy'r benywaidd fynychu'r ganolfan/prosiect ar sail wirfoddol i ymgysylltu mewn rhaglen i ddelio â'r anghenion sylfaenol a arweiniodd ar eu troseddu.

## Gwaith Ardal VAWG

Yn 2013-14, arweiniodd Cydlynwyr VAWG Ardal gyflawniad erlyniadau VAWG yn lleol a gweithio gyda Rheolwyr Ymgysylltu Cymunedol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth VAWG (EDCEMau) i redeg Paneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol (LSIPau). Mae gan yr holl Ardaloedd baneli yn delio â materion VAWG – yn bennaf yn delio â TD ac erlyniadau treisio – ond roedd rhai hefyd yn canolbwyntio ar drais seiliedig ar urddas.

Cynhaliwyd cyfarfodydd bord gron yng Ngorffennaf 2013 ac Ionawr 2014 ar gyfer Cydlynwyr VAWG i drafod gweithrediad camau ar lefel leol.

## Arfer da

Darparodd gwaith gyda grwpiau cymunedol trwy LSIPau ac ymgysylltiad cymunedol ystod o arfer da wedi ei rannu ar draws Ardaloedd. Mae Safon Ansawdd Craidd 12<sup>34</sup> yn ymwneud ag ymgysylltiad cymunedol ac mae wedi ei fonitro ar draws Ardaloedd yn flynyddol. Ymysg enghreifftiau o arfer da mae:

- Gweithio gyda'r heddlu i beilotio hyfywedd proses gyfeirio awtomatig ar gyfer pob dioddefwr VAWG i wasanaethau cefnogaeth oni bai eu bod yn eithrio eu hunain (Gorllewin Canolbarth Lloegr).
- Penodi asesydd annibynnol i'r Panel Craffu a Chynhwysiant VAWG Lleol (Dwyrain Lloegr).
- Bwletinau TD/RASSO/VAWG (Dwyrain Canolbarth Lloegr).
- Gweithio gyda'r heddlu i leihau athreuliad o ganlyniad i faterion dioddefwyr (Gogledd-ddwyrain Lloegr)
- Adeiladu ar lwyddiant y rhestr wirio TD a dilyn sampl hap i achosion a arweiniodd a arweiniodd at beidio cymryd camau pellach, cynhyrchu rhestr wirio RASSO ar y cyd (Gogledd-orllewin Lloegr).
- Cynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer Swyddogion Cyswllt Troseddau Rhywiol a sefydliadau cefnogaeth (De-ddwyrain Lloegr).
- Peilotio dolen fyw o bell i alluogi dioddefwyr TD i roi tystiolaeth o leoliad gwahanol i'r llys (Dwyrain Canolbarth Lloegr).
- Peilot llys TD De Swydd Buckingham – mae'r holl achosion TD yn cael eu paratoi fel pe bai ar gyfer treial cyn y gwrandawriad cyntaf a'i unioni'n fuan. Mae'r asesiad cychwynnol yn bositif o ran gwella deilliannau llwyddiannus (Tafwys a Chiltern).
- Adolygiad ffeil achos o orchmynion ataliol i amlygu arferion gorau (Swydd Efrog a Glannau Humber).
- Peilotio adran 28 ar groesholi wedi ei recordio o flaen llaw yn Llys y Goron (Glannau'r Mersi a Swydd Gaer; De-ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber).

---

<sup>34</sup> yn 2013-14 roedd gan y CPS 12 Safon Ansawdd Craidd (CQS) oedd wedi eu monitro ar draws Ardaloedd. Roedd CQS12 yn ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned.




# Trais Domestig

Yn 2013-14, roedd y patrwm cyffredinol o erlyniadau TD yn dynodi gwelliannau blwyddyn ar flwyddyn, unwaith eto, mewn erlyniadau. Yn dilyn pryderon a nodwyd trwy'r adroddiad troseddau VAWG 2012-13, parthed y gostyngiad yn niferoedd yr achosion TD, canolbwyntiodd Ardaloedd ar ddelio â'r niferoedd o atgyfeiriadau gan yr heddlu, erlyniadau a cholffarnau yn ystod 2013-14, trwy'r system sicrwydd VAWG, gan arwain at gynydd mewn niferoedd ar draws y broses gyfan.

Cododd y nifer o atgyfeiriadau TD gan yr heddlu i 103,569 yn 2013-14 – cynnydd o 15,459 o atgyfeiriadau (17.5%) o 2012-13. Cyhuddwyd 72,905 (70.4% o'r atgyfeiriadau hyn)<sup>35</sup>. Mae hyn yn adlewyrchu'r niferoedd a chyfrannau uchaf o achosion a gofnodwyd gan y CPS a chynnydd o 12,716 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (21.1%) ers 2012-13<sup>36</sup>. Roedd pob Ardal yn dynodi cynnydd mewn atgyfeiriadau a chyhuddo, gyda chynnydd chwarter ar chwarter yn ystod 2013-14. Y nifer cyfartalog o ddyddiau i gyhuddo yn 2013-14 oedd 4.57 o ddyddiau. Bydd amseroldeb cyhuddo yn derbyn sylw yn y broses sicrwydd VAWG yn 2014-15.

Mae Graff 5 yn arddangos y newidiadau mewn niferoedd ac atgyfeiriadau'r heddlu a chyhuddo ers 2007-08.

**Graff 5: Nifer o atgyfeiriadau TD yr heddlu a diffynyddion a gyhuddir**



Mae'r gyfran o achosion TD<sup>37</sup> wedi codi blwyddyn ar flwyddyn; yn y flwyddyn ddiwethaf o 8.9% yn 2012-13 i 10.7% yn 2013-14, fel y dynodwyd yn y tabl isod ac yng ngraif 6.

<sup>35</sup> Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n darparu ffigur mwy cywir ar gyfer y canran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen at erlyniad. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.


<sup>36</sup> Sylwer fod y niferoedd cyhuddo yn cwmpasu'r achosion hynny, yn ôl diffynydd, a *anfonwyd ymlaen* i'r CPS yn ystod 2013-14 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo na ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd gyda'r rhai a erlynwyd sy'n cwmpasu achosion yn ôl diffynydd, a *gwblhawyd* yn ystod 2013-14.

<sup>37</sup> Llwyth achosion trais domestig fel % o'r holl erlyniadau.

**LLWYTH ACHOSION VAWG BLYNYDDOL  
FEL % O'R CYFANSWM**

	2007-08	2009-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
CPS CENEDLAETHOL	6.0%	6.5%	7.5%	8.6%	8.9%	8.9%	10.7%

**Graff 6: Llwyth achosion TD fel % o'r cyfanswm llwyth achosion yn 2007-08 i 2013-14**



Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2013-14 i 78,071 – cynnydd o 7,639 o ddiffynyddion (10.4%) o 2012-13<sup>38</sup>, fel y dynodwyd yn nhabl 2 a graff 7. Gallai'r cynnydd hwn mewn diffynyddion a gyhuddir yn ystod 2013-14 effeithio ymhellach ar ganlyniadau erlyniadau yn 2014-15.


Mae Tabl 2 yn darparu data o 2008-09 i 2013-14.

**Tabl 2: Erlyniadau TD a gwblhawyd yn ôl deilliant**

	2008 – 09		2009 – 10		2010 – 11		2011 – 12		2012 – 13		2013-14	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Collfarnau	48,465	72.2%	53,347	72.0%	59,101	71.9%	58,138	73.3%	52,549	74.3%	58,276	74.6%
Aflwyddiannus	18,629	27.8%	20,766	28.0%	23,086	28.1%	21,130	26.7%	18,153	25.7%	19,795	25.4%
<b>Cyfanswm</b>	<b>67,094</b>		<b>74,113</b>		<b>82,187</b>		<b>79,268</b>		<b>70,702</b>		<b>78,071</b>	

<sup>38</sup>Nid yw wedi cyrraedd yr uchafswm o 82,187 a erlynwyd yn 2010-11 eto. Gallai'r cynnydd hwn mewn cyhuddiadau yn 2013-14 effeithio ar y niferoedd a erlynir yn 2014-15.


**Graff 7: Niferoedd TD 2005-6 i 2013-14**



Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 58,276 – cynnydd o 5,727 o gollfarnau (10.9%) ers 2012-13. Rhwng 2005-6 a 2013-14, mae cyfraddau collfarnau wedi codi o 59.7% i 74.6% – cynnydd o 15 pwynt canrannol (ppt)<sup>39</sup> yn ystod y cyfnod naw mlynedd hwn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 0.3ppt dros y flwyddyn ers 2012-13, gan gyrraedd y gyfradd collfarn uchaf erioed i’w gofnodi am y drydedd flwyddyn olynol.

Mae Graff 8 yn arddangos y tuedd cynyddol dros y naw mlynedd diwethaf, gyda chynnydd pellach yn 2013-14.

**Graff 8: Cyfraddau collfarn TD 2005-06 i 2013-14**



Cododd y nifer a’r gyfran o bledion euog eto – roedd y nifer yn 53,620, cynnydd i 68.7% – mae 92% o bob canlyniad llwyddiannus o ganlyniad i bledion euog. Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i ostwng gan gyrraedd y cyfrannau isaf erioed, yn 19.2% o’r holl

<sup>39</sup> Cyfeirir at newidiadau mewn canrannau fel newidiadau i bwyntiau canrannol (ppt).

achosion trais domestig a erlynwyd. Mae rhwymiaidau wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf (6.6% yn 2007-08) i 0.8% yn 2013-14.

Yn y cyfnod hwn, fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd troseddau yn erbyn y person y troseddau a gyflawnwyd amlaf, yn cynrychioli 69% o droseddau TD. Roedd troseddau difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn gyfrifol am 12% a 5% pellach yn ôl eu trefn<sup>40</sup>.

Yn 2013-14, newidiwyd cofnodi'r rhesymau am ddeilliannau aflwyddiannus i sicrhau gwell cywirdeb. Mae hyn wedi arwain yn benodol ar wella cofnodi o faterion dioddefwyr fel 'rheswm' dros ddeilliannau aflwyddiannus. Yn flaenorol, gallai rhesymau fod wedi eu cofnodi fel 'elfen gyfreithiol allweddol ar goll' neu 'tyst annibynadwy'. Yn 2013-14, rydym wedi gweld lleihad yn y rhesymau hyn yn cael eu cofnodi ers 2012-13 (o 5.6% i 1.6% ar gyfer 'elfen gyfreithiol allweddol ar goll' a 3.8% i 2.0% ar gyfer 'tyst annibynadwy'). O ganlyniad i'r newidiadau o ran cofnodi, cafwyd cynnydd mewn cofnodi deilliannau aflwyddiannus o ganlyniad i faterion dioddefwyr<sup>41</sup> – yn codi o 51.6% i 54.8%. Gyda'r cofnodi uwch, mae'r rheswm 'nid yw tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos' hefyd wedi gostwng – o 14.5% i 2.4%; yn erbyn cynnydd mewn cofnodi gwrthdynamiad gan ddioddefwyr (o 19.5% i 28.1%) a diffyg presenoldeb y dioddefwr (o 17.6% i 24.3%). Gobeithir y bydd y cofnodi uwch o'r rhesymau dros y deilliannau aflwyddiannus hyn yn rhoi adlewyrchiad mwy cywir o'r materion sydd angen sylw gan y cydnabyddir fod un o'r prif broblemau mewn achosion TD yn ymwneud â gwrthdynamiad gan ddioddefwr oherwydd y berthynas agos rhwng y diffynnydd a'r dioddefwr.

O'r *holl* achosion a erlynwyd, mae'r gyfradd oedd yn aflwyddiannus oherwydd problemau gyda'r dioddefydd<sup>42</sup> wedi codi ychydig yn unig o 13.2% y llynedd i 13.9%, cyn hynny o 2008-2011 roedd y gyfradd yn sefydlog ar tua 14%. Mae cefnogaeth i ddioddefwyr drwy broses y llys yn allweddol i leihau tynnu'n ôl ac mae gwaith gyda ITDAu yn lleol yn allweddol i wella erlyniadau. Nodwyd ffyrdd o ddelio ag erlyniadau yn dilyn tynnu'n ôl yn ystod 2013-14 ac maent wedi eu cynnwys yn yr adolygiad o'r canllaw cyfreithiol TD – (a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym Mai 2014). Roedd hyn yn cynnwys gwella defnydd o dystiolaeth nad yw'n perthynas i'r dioddefwr, hybu ymwybyddiaeth erlynyddion o faterion tynnu'n ôl dioddefwyr a sut i'w atal, sut i ddelio ymhellach â diogelwch dioddefwyr, darparu cyngor ar ddefnydd priodol o wysion a systemau cyfathrebu amlasiantaethol gyda dioddefwyr a'u gwasanaethau.

<sup>40</sup> Gweler yr Eirfa am ddiffiniadau'r CPS o'r 'brif drosedd' a'r gwahanol gategoriâu.

<sup>41</sup> Mae materion dioddefwr yn cynnwys gwrthdynamiad gan y dioddefwr, diffyg presenoldeb y dioddefwr a 'thystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos'

<sup>42</sup> Achosion aflwyddiannus oherwydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl; dim mynychu neu ble nad yw tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos.

## Cyflymu treialon

- Yn llys ynadon De Swydd Buckingham, o Ragfyr 2013, mae'r holl achosion trais domestig newydd yn cael eu paratoi fel pe bai ar gyfer treial cyn dyddiad y gwrandawriad cyntaf a'i drefnu ar gyfer treial yn fuan, yn ddelfrydol yn ddim hwyrach na phythefnos wedi cyflwyno'r ple dieuog. Rydym yn aros am werthusiad llawn, ond hyd yn hyn mae'r canlyniad yn bositif. O'r 130 o achosion a gwblhawyd hyd yn hyn, mae yna gyfradd collfarn o 85%. Mae 22 o achosion heb eu cwblhau am eu bod wedi cael gwrandawriad rhannol, yn aneffeithiol neu wedi gadael rhestriad treial cyntaf ac mae eraill yn cael eu gwrandawrio ym Mehefin. Rydym yn parhau i weithio gyda'r heddlu a'r llysoedd i gyflwyno'r peilot hwn i weddill Dyffryn Tafwys ac i Swydd Bedford.

## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tabl ar dudalen 81 yn darparu data erlyniadau TD yn ôl Ardal ac ardaloedd heddlu. Mae'r atodiad cysylltiedig, a roddwyd ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol, yn darparu data cyn cyhuddo Ardaloedd ac ardaloedd yr heddlu.

### Arfer da:

- Cafwyd cydnabyddiaeth o gyfraniad arwyddocaol y CCP i waith atal cam-drin domestig gyda Gwobr Menyw Glannau Mersi'r Flwyddyn, ble enillodd y categori o 'Gyflawniad Menywod Proffesiynol'.
- Mae nifer o Ardaloedd wedi gweithio'n agos gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, gan gynnal cynadleddau, seminarau a darparu cefnogaeth i ITDA, SARCAu a gwasanaethau TD.

## Materion cydraddoldeb

### Rhyw

Yn 2013-14, fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, sef 93%.

Cododd cofnodi rhyw dioddefwyr ychydig i 84% yn 2013-14, o 82% yn y flwyddyn flaenorol. O'r rhai ble cofnodwyd eu rhywedd, roedd y gyfran fenywaidd o ddioddefwyr yn dan yn 84%, ers 2010-11.

### Ethnigrwydd

Yn 2013-14, dynodwyd 79.5% o ddiffynyddion TD fel Gwyn (tebyg i'r flwyddyn flaenorol), gyda 75% yn cael eu nodi i fod yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig. Dynodwyd 5.7% o

ddiffynyddion yn Ddu, a 5.5% yn Asiaidd, cynnydd bychan ar y ddwy flynedd flaenorol<sup>43</sup>. Mae ychydig dan hanner ethnigrwydd dioddefwyr yn dal heb ei gofnodi ac felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Oed

Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (72%) a 18-24 (24%). Roedd yn bryder nodi bod ychydig dros 26% o ddiffynyddion (20,572) dan 24, gyda 2,114 (3%) o ddiffynyddion rhwng 14-17 oed a 111 (0.1%) rhwng 10-13 oed.

O'r dioddefwyr hynny gydag oed cofnodedig<sup>44</sup>, roedd y mwyafrif rhwng 25-59 oed (66%) a 18-24 (25%). Yn debyg i oed diffynyddion, roedd yn bryder i nodi bod 30% o ddiodefwyr (18,609) dan 24 oed, gyda 2,412 (4%) o ddiodefwyr yn 14-17 oed ac 546 (0.9%) yn 10-13 oed a 107 dan 10 (0.2%).

## Cam-drin perthynas ardddegau

- Yng Nghymru, ymosododd gwryw 17 oed ar ei gariad benywaidd 16 oed – gan ei chrogi, brathu a chicio. Gwadwyd y tramgwyddau. Aeth yr achos i Lys y Goron, ac arweiniodd at ganlyniad llwyddiannus gan i'r diffynnydd bledio'n euog i'r cyhuddiadau o ymosod.
- Ymosododd diffynnydd 16 oed gwrywaidd ar ei gariad benywaidd 17 oed. Cafodd ei ryddhau ar fechniaeth ond torrodd amodau'r fechniaeth a cheisio cysylltu â'r diodefwyr. Tynnodd y diodefwyr y cyhuddiad yn ôl ac fe benderfynodd yr Ardal ei gwysio gan y dehonglwyd bod rig uchel iawn iddi a gan fod y drosedd mor dreisgar. Mynychodd y diodefwyr y treial gyda chefnogaeth gan yr heddlu ac fe'i disgrifiwyd fel bregus iawn. Fe wrthododd roi tystiolaeth yn y llys. Roedd yn bendant nad oedd eisiau gofyn am orchymyn ataliol. Yna aethom ymlaen gydag erlyniad heb ddiodefwyr gan fod tystiolaeth CCTV ar gael i ddangos rhan o'r ymosodiad ac fe blediodd y diffynnydd yn euog i ymosodiad ar sail yr hyn a welwyd yn y CCTV. Fe'i dedfrydwyd i Orchymyn Adsefydlu leuenticid 18 mis gyda goruchwyliaeth 18 mis, Goruchwyliaeth Ddwys a Rhaglen Oruchwyllo wedi ei redeg gan y tîm Troseddau leuenticid yn cynnwys cyrffw gyda'r nos a bore am 6mis, eithrio o ardaloedd penodol am 91 niwrnod, gofyniad iawndal 10 niwrnod, gordal diodefwyr o £15, £50o gostau a £150 o iawndal.

## Cam-drin ymysg rhai yn eu harddegau

Asesodd Panel Craffu Cenedlaethol (NSP) a gynhaliwyd yng Ngorffennaf 2012 achosion o gam-drin mewn perthynas yn yr ardddegau. Yn dilyn hyn, sefydlwyd gweithgor ar draws y CPS i ddelio â'r materion canlynol:

<sup>43</sup> Ni ddatganodd 2.5% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ychydig dros 4% o ethnigrwydd diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu.

<sup>44</sup> Cofnodwyd 81.8% o oedrannau diodefwyr yn 2013-14 – cynnydd o 79.7% yn 2012-13.

- **Cefnogi erlynyddion i wella eu dealltwriaeth o gam-drin mewn perthynas yn yr arddegau:** Datblygwyd canllaw cyfreithiol a deunyddiau hyfforddi i herio mythau ac i herio ystrydebau; hyrwyddo'r mathau o orchmynion ataliol neu amodau mechnïaeth allai fod fwyaf perthnasol i bobl ifanc, er enghraifft, diffyg cyfathrebu trwy gyfryngau cymdeithasol; cydnabyddiaeth o'r llefydd y gallai person ifanc a'r sawl sy'n ei gam-drin fynychu (megis ysgolion neu golegau) a gwella cyfathrebu priodol i oed. Bydd yr adnoddau hyfforddi yn cael eu lansio ar gyfer staff yn dilyn adolygiad o'r canllaw cyfreithiol TD yn 2014. Yn ogystal, fe gynhwyswyd enghreifftiau i drechu mythau yn y cylchlythyr VAWG.
- **Datblygu gwell gweithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau i wella perfformiad gweithredol:** Mae hyn wedi cynnwys gweithio gydag adrannau llywodraeth eraill i archwilio'r lefel o gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr mewn llysoedd ieuenctid – mae gennym gynlluniau yn 2014 (gweler yr adran Llysoedd TD Arbenigol yn hwyrach); annog Paneli Cynhwysiant Craffu Lleol i ystyried achosion yn ymwneud â cham-drin ym mherthnasau rhai yn eu harddegau ac ymgysylltu gydag asiantaethau priodol ar lefel leol; hyrwyddo adeiladu achosion gwell gyda'r heddlu.
- **Gwella trosolwg ac ymgysylltu strategol:** Roedd hyn yn ymwneud â chodi materion yn y grŵp cyflawni VAWG trawslywodraethol a gydlynir gan y Swyddfa Gartref, gan fwydo i mewn i'r Grŵp Rhyngweinidogol VAWG.

### Taclo trais domestig ymysg pobl ifanc

- Cynhaliwyd gweithdy yn Chwefror 2014 gan Lannau Mersi – Swydd Gaer, mewn partneriaeth â swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Glannau Mersi a gwasanaethau ITDA lleol. Diben y gweithdy oedd cysoni'r themâu allweddol a'r camau gweithredu a amlygwyd gan y Panel Craffu Cenedlaethol ar Gam-drin mewn Perthynas Arddegau, trwy godi ymwybyddiaeth leol a threchu mythau. Roedd y gynulleidfa yn cynnwys rhai 16-24 oed o amrywiaeth eang o gefndiroedd cymdeithasol a diwylliannol, yn cynnwys myfyrwyr prifysgol, cynrychiolwyr o grwpiau cymunedol a phobl ifanc dan oruchwyliaeth Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid.

## Perthnasau

Nid yw cofnodi'r berthynas rhwng y troseddwr a'r dioddefwr yn ddigon cadarn eto i allu asesu, fodd bynnag mae cofnodi yn sylfaen data'r CPS wedi gwella o 17% yn 2010-11 i 54% yn 2013-14. Bydd Ardaloedd yn cael eu hannog i wella casglu data ymhellach i helpu nodi achosion yn ymwneud â pherthnasau un rhyw a'r gwahaniaethu rhwng aelodau'r teulu a phartneriaid agos.



## Materion trawslywodraethol:

### Diffiniad diwygiedig

Gweithredwyd y diffiniad trawslywodraethol diwygiedig o TD o fis Mawrth 2013. Mae'n cynnwys dioddefwyr TD rhwng 16 a 17 oed, i gynyddu ymwybyddiaeth y gall pobl ifanc yn y grŵp oedran hwn hefyd brofi cam-drin o'r math yma.

Yn ogystal, mae'n cynnwys a diffinio ymddygiad rheolaethol ac ymddygiad gorfodol.<sup>45</sup>

Mae polisi a chanllaw cyfreithiol y CPS wedi cynnwys achosion dan 18 erioed, gan fod troseddwr a dioddefwyr wedi eu cydnabod yn ein patrwm o gymhelliant, grym a rheolaeth yn ein hyfforddiant trais domestig. Mae'r canllaw cyfreithiol diwygiedig<sup>46</sup> yn rhoi mwy o ymwybyddiaeth i erlynyddion ar sut y gallai'r ymddygiad hwn amlygu ei hun i helpu pennu'r cyhuddiadau mwyaf priodol.

Gobeithir y bydd y diffiniad newydd yn dod â gwell ymwybyddiaeth i Adrannau Llywodraeth a gwasanaethau eraill i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi cymaint â phosibl wrth brofi'r gwahanol ffurfiau o TD neu gam-drin.

### Adolygiad TD Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi

Yn 2013-14, cyflawnodd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) adolygiad o blismona TD – *Everyone's business: Improving the police response to domestic abuse* – oedd yn cynnwys materion i sylw'r CPS – yn benodol cymryd rhan mewn grŵp trosolwg a monitro cenedlaethol, defnyddio dysgu gan baneli craffu'r CPS yn lleol gyda'r heddlu, mewnbynnu i gasglu data'r heddlu a chynigion ar gyfer archwiliadau amlasiantaethol yn y dyfodol. Bydd y CPS yn gweithio gyda'r arweinydd Plismona Cenedlaethol ar gyfer TD a'r Coleg Plismona i ddatblygu'r argymhellion.

Mae'r Coleg Plismona hefyd wedi cynllunio diweddariad i'w hymarfer proffesiynol ag awdurdodiad yr heddlu i ymateb i TD; cydweithredu gyda'r CPS i alinio i'r canllaw cyfreithiol TD. Bydd cynlluniau hyfforddi ar gyfer yr heddlu ac erlynyddion hefyd yn cael ei alinio. Yn lleol, gofynnwyd i bob heddlu gynhyrchu cynlluniau gweithredu blaenoriaethol a gobeithir y bydd yr Ardaloedd CPS yn cydweithio'n agos gyda phartneriaid yr heddlu.

Mae Adroddiad yr HMIC hefyd yn delio â'r lleihad mewn atgyfeiriadau heddlu TD a nodwyd yn adroddiad VAWG diwethaf y CPS a drafodwyd yn y cyfarfod bord gron a gynhaliwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau cyhoeddus ym Medi 2013, gyda'r Swyddfa Gartref a'r arweinydd Plismona Cenedlaethol ar gyfer TD. Amlygodd HMIC bryderon am ymagweddau hynod anghyson parthed cyhuddo a rhybuddio ar draws y wlad ac wedi pwysleisio pwysigrwydd atgyfeirio priodol achosion TD. Gofynnwyd yn benodol i heddluoedd ystyried a oedd

<sup>45</sup> Mae ymddygiad rheolaethol yn: ddetholiad o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud rhywun yn israddol ac/neu yn ddibynnol trwy eu hynysu o ffynonellau cefnogaeth, ymelwa ar eu hadnoddau a chynwyseddau er elw personol, eu hamddifadu o'r moddion angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthwynebiad a dianc ac yn rheoleiddio eu hymddygiad dydd i ddydd. Ymddygiad gorfodol yw: gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, cywilydd ac aflonyddu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu ddychryn y dioddefwr.

<sup>46</sup> Dan ymgynghoriad cyhoeddus ym Mai – Gorffennaf 2014.

cyfraddau uchel o rybuddio, peidio cymryd camau pellach a gwarediadau allan o'r llys (megis cyfiawnder adfero) yn cyfrannu i'r lleihad mewn cyfraddau atgyfeirio a amlygwyd gan y CPS.

#### **Arferion da o adroddiad yr HMIC:**

- Mae cwnstabiliaeth Swydd Gaerhirfryn yn gweithio gyda nifer o ITDAu sy'n cefnogi detholiad o achosion, nid dim ond y rhai sy'n cyflwyno risg uchel.
- Cyflawnodd yr arweinydd TD yn Swydd Gaer sampl hap o ffeiliau ble mae'r heddlu heb gymryd unrhyw gamau pellach a bwydo achosion yn ôl i'r heddlu a fyddai wedi bod yn addas ar gyfer cyhuddiad ac erlyniad.

### **Llysoedd Arbenigol TD**

Yn ystod 2013-14, parhaodd y CPS i fod yn rhan o Grŵp Llywio Cenedlaethol Trawslywodraeth gyda'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn goruchwyllo'r Llysoedd TD Arbenigol (STDCau). Mewn ymateb i gau arfaethedig o rai llysoedd ynadon ers Ebrill 2011, datblygodd y Grŵp Llywio STDC Cenedlaethol ganllaw i STDCau i sicrhau trosglwyddiad gwasanaethau arbenigol i drefniadau llys newydd a goruchwyliodd y cam nesaf o drosglwyddo yn ystod 2013-14 – gan ymweld â STDCau i gymeradwyo eu system newydd.

Yn ogystal, datblygwyd gwaith i archwilio'r gefnogaeth ofynnol ar gyfer STDCau i fodloni cyflawniad yr holl elfennau STDC i sicrhau cyflawniad effeithiol o ddiogelwch a chyfiawnder. Datblygwyd holiadur adolygu a'i anfon at STDCau ar ddiwedd 2013-14 ar gyfer asesu'r gefnogaeth sy'n ofynnol yn ystod 2014-15.

Mae'r cynllun gweithredu trawslywodraethol diweddaraf ar VAWG yn cynnwys gweithred i archwilio peilotio'r model STDC yn y llysoedd ieuenctid. Yn dilyn holiadur i'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ac ymarfer rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid lleol yn 2013-14, mae'r CPS wedi paratoi cynigion yn amlinellu'r elfennau allweddol o fodel TD Arbenigol Llys Ieuenctid. Mae hyn yn cael ei ystyried gan Grŵp Llywio STDC Cenedlaethol i bennu posibiliadau yn 2014-15.

### **Gwaith gyda'r Heddlu**

Mae'r CPS wedi datblygu perthynas weithredol dda gyda'r arweinydd plismona cenedlaethol ar gyfer TD, gan weithio ar y cyd ar nifer o faterion. Mae dwy enghraifft yn cynnwys effaith cyflwyno Gorchmynion Amddiffyn TD, a hyrwyddo gwell defnydd o Restr Wirio Tystiolaeth TD ar y cyd ACPO-CPS i ddefnyddio erlyniadau a arweinir gan dystiolaeth (ble mae'r dioddefwr wedi atal ei gefnogaeth neu dynnu ei gyhuddiad yn ôl).

Cafodd y Rhestr Wirio ACPO-CPS ei gyhoeddi eto ar y cyd gan y DPP a'r arweinydd plismona cenedlaethol ar gyfer TD yn Nhachwedd 2013, gan annog swyddogion yr heddlu ac erlynyddion i greu achosion gan dybio ar bob adeg y gallai'r dioddefwr, ar ryw adeg

benderfynu peidio cefnogi'r erlyniad. Gofynnwyd am ddefnyddio'r Rhestr Wirio ym mhob achos TD i sicrhau uchafu cyfleoedd casglu tystiolaeth ac i goladu tystiolaeth nad yw wedi ei ffocysu'n gyfan gwbl ar y dioddefwr.

### **Camerâu ar y corff**

- Mewn un achos, ymosodwyd yn dreisgar ar y dioddefwr beichiog gan ei phartner o flaen eu plentyn 10 mis oed a dywedodd wrth gyfaill y byddai'n 'holli ei gwddf'. Nid oedd y dioddefwr yn fodlon gwneud datganiad, fodd bynnag cipiwyd yr anafiadau ar fideo wedi ei wisgo ar y corff. Cynghorodd y CPS y byddent yn mynd ymlaen â'ch achos gan fod y dioddefwr yn feichiog. Defnyddiwyd yr alwad 999, fideo ar y corff a thystiolaeth achlust gan y dioddefwr a gymerwyd gan y swyddog a ymatebodd. Plediodd y diffynnydd yn ddieuog ac aeth yr achos ymlaen i dreial, ble'i cafwyd yn euog.

## **Hysbysiadau a Gorchmynion Amddiffyn TD**

Wedi cyfnod peilot 15 mis mewn tair ardal heddlu, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref y byddai Gorchmynion Amddiffyn TD (TDPOau) yn cael eu cyflwyno ar gyfer yr holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr i'w defnyddio o Fawrth 2014. Ar y cyd â Hysbysiadau Amddiffyn TD (TDPNau), maent yn darparu'r heddlu ag offer atodol i helpu lleihau erledigaeth fynychu ac i ddarparu amddiffyniad ar unwaith i ddioddefwyr wrth iddynt ystyried eu dewisiadau yn y dyfodol<sup>47</sup>. Gellir gweithredu gyda neu heb ganiatâd y dioddefwr. Mae torri TDPN neu TDPO yn ddirmyg llys sifil a gellir ei gosbi gyda dirwy, neu hyd at 2 fis o garchar.

## **Adolygu canllaw cyfreithiol TD y CPS**

Mae canllaw cyfreithiol y CPS wedi ei adolygu i ddarparu cyngor i erlynyddion ar yr enghreifftiau mwyaf cyffredin o ymddygiadau rheolaethol a chymhellol mewn achosion TD. Er bod polisi'r CPS wedi cydnabod erioed y gall TD effeithio ar ddioddefwyr o unrhyw oed, am y tro cyntaf mae'r canllaw'n sefydlu cyngor uwch i erlynyddion ar sut y gallent ddelio ag achosion yn ymwneud â phlant yn gorfodi trais ar eu rhieni, rhai yn eu harddegau (yn cynnwys rhai a allai fod yn gysylltiedig â gangiau) ac ar ddioddefwyr hŷn hefyd. Mae'r canllaw yn darparu cyngor i erlynyddion i ddelio ag achosion yn ymwneud â'r grwpiau hyn o bobl, na fyddant o reidrwydd yn ymwybodol eu bod mewn perthynas ymosodol, neu nad ydynt yn teimlo'n hyderus am adrodd am droseddau i'r heddlu.

<sup>47</sup> Mae TDPN yn orchymyn cychwynnol a wneir gan yr heddlu yn erbyn diffynnyddion honedig trais yn y cartref mewn amgylchiadau lle mae'r heddlu yn ystyried nad oes unrhyw gyfyngiadau gorfodol y gellir eu rhoi ar y diffynnydd (e.e. – lle bo'r heddlu'n nodi 'dim gweithredu pellach' neu lle bo'r sawl sydd dan amheuaeth wedi derbyn rhybudd syml, neu wedi cael ei ryddhau ar fechniaeth heb amodau). Bydd TDPN yn effeithiol am 48 awr pan fydd yr heddlu yn cael cyfle i wneud cais i'r llys ynadon am TDPO y gellir ei gyhoeddi am gyfnod llawer hirach. Mae TDPNau ar gael ar gyfer rhai dros 18 oed, perthnasau agos neu deuluol. Mae TDPOau yn rhoi amddiffyniad ar unwaith i'r dioddefwr ac yn rhoi grymoedd i'r heddlu ac ynadon i orfodi gorchmynion peidio aflonyddu ac amddiffyniad llety dioddefwyr.

Mae'r CPS wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Gartref, gwasanaeth yr heddlu a gyda phartneriaid y trydydd sector am bron i 18mis i gael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar blant a rhai yn eu harddegau, a dioddefwyr hŷn, i ddarparu'r cyngor mwy penodol hwn i erlynyddion.

Mae'r canllaw yn darparu cyngor manylach i erlynyddion ar sut, a phryd, fydd hi'n briodol gwneud cais am wysion i dystion, wedi sicrhau nad oes unrhyw risg i ddiogelwch y dioddefwr os dilynir y llwybr hwn. Mae'r camau'n cynnwys: defnyddio tystiolaeth ar wahân i dystiolaeth y dioddefwr; res gestae<sup>48</sup>; gwneud cais i gael cyflwyno datganiad y dioddefwr fel achlust; a gwneud cais i gael cyflwyno tystiolaeth arall fel achlust. Cynghorir erlynyddion yn gryf fod gwneud cais am wysion dystion yn fesur pan fetho popeth arall – gan y gallai fod yn ffafriol mewn rhai achosion i derfynu'r erlyniad yn hytrach na gorfodi'r dioddefwr i fynychu'r llys.

Yn Chwefror 2014, cadeiriodd y DPP gyfarfod mawr o randdeiliaid, gyda phartneriaid o'r trydydd sector a'r Llywodraeth yn bresennol i drafod y diwygiadau allweddol i'r canllaw. Roedd y cyfraniadau a gafwyd yn y cyfarfod yn werthfawr iawn ac wedi helpu hysbysu'r canllawiau arfaethedig sydd bellach wedi eu cyhoeddi ar gyfer adborth ehangach.

Cyhoeddwyd y canllaw ar 14Mai ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, ond ni fydd yn weithredol nes bydd yr holl ymatebion wedi eu hystyried i hysbysu unrhyw newidiadau angenrheidiol.

### **Astudiaethau achos**

- Yn Ne-orllewin Lloegr, daeth staff meddygol pryderus â cham-drin difrifol o fenyw gan ei gŵr oedd yn cwmpasu 22 o flynyddoedd i sylw'r heddlu. Roedd yr ymchwiliad yn un cymhleth o ganlyniad i raddfa a hyd y cam-drin. Gweithiodd yr heddlu a'r CPS yn agos gyda'i gilydd i gasglu tystiolaeth gan nifer fawr o dystion a gweithwyr meddygol yn y Deyrnas Unedig a Ffrainc. Cafodd y diffynnydd ddedfryd o 2 flynedd o garchar a gorchymyn ataliol am 5 mlynedd.
- Yn Llundain fe dynnodd dioddefwr yn ôl a pheidio â mynychu'r llys. Asesodd yr erlynydd rinweddau mynd ymlaen heb y dioddefwr a chyfarwyddo'r cwmsel i fwrw ymlaen beth bynnag trwy gais achlust. Dadleuwyd yn chwyrn yn erbyn y cais achlust, ond fe'i caniatwyd ac aeth yr achos yn ei flaen i gael gwrandawriad llawn gan reithgor a gafodd y diffynnydd yn euog o aflonyddu ar dystion.

<sup>48</sup> Res gestae – Gall datganiadau a wnaed gan y dioddefwr neu dyst i drydydd parti, neu o gwmpas yr adeg y cyflawnwyd y drosedd honedig, sydd mor uniongyrchol gysylltiedig â'r digwyddiadau a oedd yn digwydd ar yr un pryd, fel eu bod yn ei gwneud yn annhebygol eu bod wedi'u hanffurfio neu eu dyfeisio, fod yn dderbyniadwy ac eithrio fel achlust.

## Canllaw cyfreithiol llofruddiaeth TD

Mae'r canllaw cyfreithiol llofruddiaeth wedi ei addasu i ystyried llofruddiaethau yn ymwneud â TD, yn arbennig y rhai ble codir amddiffyniad rhannol i lofruddiaeth (megis amodau corfforol, seiciatrig a seicolegol cydnabyddedig). Mae'n cynghori erlynyddion ar roi ystyriaeth i faterion penodol i adeiladu achosion cadarn, gan ystyried cefndir TD blaenorol; delio â mythau ac ystrydebau; yr angen i gynnwys arbenigwyr; a, sicrhau dealltwriaeth briodol o gyd-destun y berthynas rhwng y dioddefwr a'r diffynnydd. Mae erlynyddion hefyd wedi eu cynghori yn erbyn cael eu gweld i fod yn "beio'r dioddefwr" gan yr amddiffyn os yw'n ystyried a yw ple yn dderbyniol.

Mae adran newydd o'r enw "llofruddiaethau yn ymwneud â TD" hefyd wedi ei gynnwys yn y canllaw cyfreithiol TD diwygiedig i hysbysu erlynyddion o'r materion yn ymwneud ag amddiffyn rhannol o'r fath.

## Hyfforddiant

Diweddarwyd yr hyfforddiant e-ddysgu ar gyfer yr holl erlynyddion erbyn Mawrth 2013 i gynnwys y diffiniad diwygiedig, stelcio, a'r Rhestr Wirio Tystiolaeth ACPO/CPS. Bydd y modylau hyfforddiant craidd yn cael eu diwygio ymhellach o ganlyniad i ymgynghoriad cyhoeddus ar y canllaw cyfreithiol TD a bydd yn cynnwys dau fodwl hyfforddiant newydd ar gyfer rhai yn eu harddegau mewn perthnasau ymosodol a cham-drin domestig a brofir gan ddiodefwyr hŷn, sydd hefyd yn cynnwys cam-drin teuluol.

Mae rhai Ardaloedd CPS wedi cynnal digwyddiadau hyfforddiant annibynnol i ategu adnoddau hyfforddiant cenedlaethol. Cynhaliodd CPS Direct sesiynau hyfforddi gydag ITDAau ar gyfer eu herlynyddion. Cynhaliodd CPS Llundain 'wythnos hyfforddiant' TD gan weithio trwy astudiaeth achos cymhleth mewn amser real gyda'r holl erlynyddion.

Mae nifer o erlynyddion CPS hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddi ITDAau dwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn helpu'r ITDAau i sicrhau fod ganddynt ddealltwriaeth gywir o'r broses erlyn a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r system gyfiawnder droseddol ehangach yn eu galluogi i hysbysu diodefwyr yn gywir ynglŷn â'r gyfraith a gweithdrefnau ynghylch rôl y CPS mewn erlyn achosion TD. Yn Nhachwedd 2013, darparodd y CPS hyfforddiant i ITDAau ym Mryste, Newcastle a Llundain. Darparwyd yr hyfforddiant gan y Gyfarwyddfa Strategaeth a Pholisi gyda mewnbwn gan ddau gydlynnydd VAWG. Gwelir bod cefnogaeth ymroddedig gan ITDAau yn cael effaith positif ar ddiogelwch diodefwyr. Dangosodd ymchwil flaenorol a gyflawnwyd ar gyfer y CPS gan Coordinated Action Against Domestic Abuse fod cyhuddo achosion TD yn cynyddu'r terfyniad o gam-drin mewn achosion a gefnogwyd gan ITDAau – profodd 67% o ddiodefwyr gyda chefnogaeth ITDA derbyn i'r cam-drin, gan godi i 72% o ddiodefwyr a gafodd gefnogaeth ITDA mewn achosion a gyhuddwyd a 74% pan gafwyd collfarn.

## Materion dioddefwyr

### Defnyddio tystiolaeth arall

- Mewn achos yn Llundain roedd y dioddefwr yn gwrthod gwneud datganiad; fodd bynnag, cafodd y drosedd ei dal ar CCTV a gallodd swyddog roi tystiolaeth parthed sgwrs a ddigwyddodd rhwng y dioddefwr a'r diffynnydd. Cafwyd y diffynnydd yn euog ar ôl treial.
- Mewn achos TD risg uchel, ble roedd y diffynnydd eisoes ar ddedfryd ohiriedig am ymosod yn flaenorol ar yr un dioddefwr, fe'i herlynwyd am ymosod yn defnyddio tystiolaeth ar wahân i dystiolaeth y dioddefwr. Roedd y dioddefwr wedi gwrthod darparu datganiad i'r heddlu, ond fe wnaeth alwad 999 a barhaodd am 15munud ac roedd yr heddlu wedi defnyddio corff camera pan fynychont yr alwad. Dangosodd yr erlynydd y dystiolaeth hon i gyfreithiwr yr amddiffyn ac fe blediodd y diffynnydd yn euog. Cafodd ei ddedfryd ohiriedig o wyth wythnos ei hysgogi, a chafodd 16 wythnos atodol o garchar i'w cyflawni'n olynol.
- Ymosodwyd ar ddioddefwr risg uchel gan ei phartner o ddwy flynedd. Trwy gydol ei pherthynas roedd wedi profi cam-drin a thrais, ond wedi tynnu ei thystiolaeth yn ôl yn flaenorol. Ymosododd y diffynnydd arni yn y stryd a llosgi ei hamrant gyda sigarét. Galwodd aelod o'r cyhoedd am yr heddlu. Cafodd ei gadw ar remand tan ddyddiad yr achos oherwydd y risg yr oedd yn cyflwyno. Ar ddiwrnod yr achos, nid oedd y dioddefwr yn bresennol (er nad oedd wedi tynnu'n ôl). Fodd bynnag, roedd y CPS wedi cynllunio ar gyfer y posibilïad hwn a rhoddodd y swyddog dystiolaeth a gyflwynwyd fel 'res gestae', ynghyd â lluniau o'i hanaf a chyfweliad 'dim sylw' y diffynnydd. Fe'i cafwyd yn euog a'i draddodi i Lys y Goron am ddedfryd gan ei fod ar ddedfryd ohiriedig gan Lys y Goron. Cyflwynodd apêl yn erbyn y gollfarn ond yna fe adawodd yr apêl yn Llys y Goron. Cafodd ddedfryd o bum mis o garchar ar gyfer yr ymosodiad hwn ac fe ysgogwyd ei ddedfryd ohiriedig yn llawn, felly fe dderbyniodd ddedfryd o naw mis i gyd.

Nodwyd nifer o fentrau lleol fel arfer da trwy gydol 2013-14.

- Cyflwynwyd wythnos thema TD i erlynyddion i godi ymwybyddiaeth yn Llundain a sesiwn gyda swyddfa'r Maer (MOPAC Challenge) yn canolbwyntio ar wasanaethau dioddefwyr, gan arwain at adolygiad o wasanaethau dioddefwyr.
- Cynhaliwyd peilot yn Nhafwys a Chiltern i ddelio â dioddefwyr yn tynnu'n ôl ac i leihau amser i restru treialon.
- Cynhaliodd Gorllewin Canolbarth Lloegr gynhadledd ar TD gydag amrywiaeth o arbenigwyr yn cynnwys ITDAau ac ISVAau.
- Yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, rhannwyd ymchwil gyda dioddefwyr TD lleol gyda chydlynwyr VAWG gan grwpiau menywod blaenllaw.



- Yn Ne-ddwyrain Lloegr, gweithiodd ITDAu gydag erlynyddion i leihau gwrthdysiadau TD cynnar.
- Cafwyd cyngor gan grwpiau ffocws lleol ar gyfathrebu gyda dioddefwyr yn Ne-ddwyrain a De-orllewin Lloegr.
- Cyfarfu erlynyddion gyda grwpiau goroeswyr TD i gymryd sesiwn holi ac ateb yn Ne-orllewin Lloegr.

### Gwersi o wythnos TD Llundain a ddefnyddiwyd yn y llys

- Mewn achos yn ymwneud â chwpl oedd yn rhedeg busnes gyda'i gilydd, arllwysodd y diffynnydd betrol dros eu fan danfon a thorri un o'r ffenestri. Wedi ei gyhuddo fel difrod troseddol, ar ddiwrnod yr achos, oedd yn cyd-fynd â chanol wythnos TD Llundain, ceisiodd cwmsel yr amddiffyn ddadlau gan fod y fan dan berchnogaeth ar y cyd, na ellid profi difrod troseddol. Roedd y dioddefwr wedi tynnu'n ôl erbyn hyn yn dilyn marwolaeth ei thad. O ganlyniad uniongyrchol i drafodaethau yn ystod yr wythnos TD am ddifrod troseddol i eiddo dan berchnogaeth ar y cyd, cynghorodd erlynydd eiriolwr yr achos i fwrw ymlaen ar sail adran 10 y Ddeddf Difrod Troseddol 1971 – eiddo a ddiffiniwyd fel un sy'n perthyn i unrhyw un sydd ag unrhyw hawl berchnogol neu fudd ynddo. O ganlyniad i hyn, newidiodd y diffynnydd ei ble i 'euog'.

## Aflonyddu a stelcio TD

Mae'r adran nesaf o'r adroddiad hwn ar 'Stelcio ac Aflonyddu' yn darparu data cyffredinol ar droseddau stelcio ac aflonyddu<sup>49</sup> a gorchmynion ataliol. Yn 2012, cyhoeddwyd deddfwriaeth newydd ar stelcio. Amlinellir y troseddau stelcio ac aflonyddu, pryd y cychwynwyd erlyniad fel achos TD, isod.

Mae Tabl 4 yn yr adran Stelcio ac Aflonyddu yn dangos y canlynol ar gyfer 2012-13:

- Llumanwyd 5,247 o droseddau fel cyhuddiad TD dan Adran 2 y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu (PHA) 1997 – ymddygiad yn cyfateb i aflonyddu – (o gymharu â 4,217 yn 2012-13);
- Llumanwyd 952 o droseddau fel cyhuddiad TD dan Adran 4 y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu (PHA) 1997 – achosi i bobl ofni trais – (o gymharu â 775 yn 2012-13);
- Roedd hyn yn gynydd o 24.7% mewn erlyniadau A2 PHA 1997 a 22.8% mewn erlyniadau A4 PHA 1997;

<sup>49</sup> Y cafeat yng nghyswllt data trosedd yw:

Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau MIS yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawriad. Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd na deilliant. Troseddau a gofnodwyd yn Rhanbarth troseddau'r MIS yw'r rhai a gyhuddir ar unrhyw adeg ac sy'n cyrraedd o leiaf un gwrandawriad – bydd y drosedd hon yn parhau i gael ei chofnodi p'un a aethpwyd ymlaen â'r drosedd honno ac nad oes dynodiad o ddeilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn drosedd sylweddol wrth derfynu. Mae'r cafeat hwn yn berthnasol i unrhyw ddata trosedd arall a ddefnyddir drwy'r adroddiad hwn.



- Erlynwyd 384 o droseddau stelcio gydag ofn/dychryn neu aflonyddu a 132 o droseddau o stelcio yn ymwneud ag ofn o drais neu ddychryn difrifol neu drallod;
- Roedd 9,006 o'r toriadau gorchmynion ataliol yn ymwneud â TD; cynnydd o 22.1% o 2012-13;
- O'r rhain, roedd 245 yn doriadau o orchmynion ataliol a wnaed ar ryddfarn; cynnydd o 220 o 2012-13;
- Dechreuodd 5,584 o doriadau gorchmynion peidio aflonyddu erlyniad, o gymharu â 4,414 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 26.5%.

Cafwyd cynnydd arwyddocaol mewn erlyniadau o aflonyddu a thoriadau – bron i chwarter yn fwy ar draws 2013-14 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r troseddau newydd yn erbyn stelcio wedi eu gweithredu.

## Gorchmynion ataliol

Gellir gwneud cais am orchmynion ataliol ar gollfarn neu ryddfarn<sup>50</sup>. Gall gorchmynion ataliol ar ryddfarn fod yn amddiffyniad ychwanegol i ddiodefwrwr mewn sefyllfaoedd ble gallai'r cam-drin fod 'tu hwnt i gydbwysedd y tebygolrwydd', ond safon is o brawf i'r hyn sydd fel arfer yn ofynnol ar gyfer collfarnau troseddol, 'tu hwnt i amheuaeth resymol'. Darperir data'r MoJ ar gyfer 2013 ar orchmynion ataliol ar gollfarn a rhyddfarn yn yr adran stelcio ac aflonyddu isod.

Yn Ionawr 2013, dechreuodd yr holl Ardaloedd CPS gofnodi gorchmynion ataliol ar ryddfarn i ddarparu rhyw fesur o sut y gall y CPS helpu o ran diogelwch diodefwrwr ac i osgoi fod yn rhaid i ddiodefwrwr wneud cais am a thalu am orchymyn trwy'r llysoedd sifil. Mae'r canllaw cyfreithiol TD diwygiedig hefyd yn darparu cyngor i erlynyddion ar dermau priodol i'w defnyddio wrth ddelio ag achosion yn ymwneud â diodefwrwr a diffynyddion yn eu harddegau.

---

<sup>50</sup> Addasodd adran 12 y Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwrwr 2004 adran 5 y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, gan alluogi'r llysoedd i gyhoeddi gorchymyn ataliol ar ryddfarn.

## Aflonyddu a gorchmynion ataliol

- Ymosodwyd ar ddiodeffwr risg uchel iawn yn ei chartref o fewn oriau i doriad cynharach o orchymyn ataliol. Roedd eisoes wedi derbyn cefnogaeth trwy'r Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol yn lleol. Roedd yn gyndyn iawn i fynd ar drywydd yr erlyniad felly penderfynodd yr erlynydd ei gwysio, gan fod profiad o ddigwyddiadau difrifol blaenorol o'r fath. Arweiniodd hyn at erlyniad llwyddiannus am Fyrgleriaeth Waethygedig, Ymosodiad a Thorri Gorchymyn Ataliol. Cafodd ei ddedfrydu i bum mlynedd a 18 wythnos o garchar
- Dihangodd diodeffwr TD o Lundain i Brighton. Tynnodd ei chyhuddiad yn ôl a gwrthod dychwelyd i Lundain. Sicrhaodd ymagwedd ragweithiol i fesurau arbennig gefnogaeth y diodeffwr a'i galluogi i dystio o Lys y Goron Hove. Cafwyd y diffynnydd yn euog o dorri'r gorchymyn ataliol a derbyniodd ddedfryd o 10 mis o garchar.
- Defnyddiodd dyn a aflonyddodd ar ei gyn bartner ers 2001 Facebook i barhau gyda'i ymgyrch o aflonyddu wedi ei ryddhau o'r carchar yn dilyn dedfryd o 16 wythnos am aflonyddu arni yn flaenorol. Cymrodd arno ei fod yn fenyw a defnyddio enwau eraill i gysylltu â hi ar Facebook. Defnyddiwyd y safleoedd i gyhoeddi lluniau gyda'r bwriad o sarhau ei chariad newydd. Cafodd ei garcharu am 20 mis wedi pledio'n euog i dorri'r gorchymyn ataliol. Wedi ei ryddhau i'r carchar, bydd y gorchymyn ataliol yn dal mewn grym.

# Stelcio ac aflonyddu

O ddata perfformiad y CPS, cafwyd cynnydd mewn erlyniadau a gychwynnwyd parthed stelcio, aflonyddu a thoriadau yn 2013-14. Darperir data'r CPS isod, ac yna'r ystadegau swyddogol cenedlaethol gan yr MoJ ar gyfer blwyddyn galendr 2013.

Yn 2013-14<sup>51</sup>:

- Cychwynnodd erlyniad yng nghyswllt 8,303 o droseddau a gyhuddwyd dan S2 PHA 1997 am aflonyddu heb drais – cynnydd o 16.0% o 7,159 yn 2012-13;
- Cychwynnwyd 1,489 o erlyniadau dan A4 PHA 1997 – aflonyddu gan godi ofn trais ar bobl – cynnydd o 6.5% o 1,398 yn 2012-13;
- Dechreuwyd 743 o erlyniadau dan y troseddau stelcio newydd – 529 gydag ofn/dychryn/aflonyddu ac 214 yn ymwneud â thrais/dychryn difrifol neu drallod;
- Dechreuodd 11,651 o droseddau torri gorchymyn ataliol erlyniad, cynnydd o 13.4% o 10,275 yn 2012-13;
- O'r rhain, roedd 322 yn doriadau o orchymynion ataliol a wnaed ar ryddfarn; cynnydd o 2.9% o 2012-13; a
- Dechreuodd 6,498 o doriadau gorchymynion peidio aflonyddu erlyniad, o gymharu â 5,563 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 16.8%.

Mae Tabl 4 yn darparu dadansoddiad o'r holl droseddau yn cynnwys y rhai a lumanwyd fel TD.

---

<sup>51</sup> Troseddau a gofnodwyd yn Rhanbarth Troseddau System Rheoli Gwybodaeth y CPS yw'r rhai sy'n cyrraedd gwrandawriad. Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynnwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon yn y gronfa ddata CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd na deilliant. Y troseddau a gofnodir yn Rhanbarth troseddau'r MIS yw'r rhai a gyhuddir ar unrhyw adeg ac sy'n cyrraedd o leiaf un gwrandawriad. Bydd y drosedd hon yn parhau i gael ei chofnodi p'un a aethpwyd ymlaen â'r drosedd honno neu beidio, ac nad oes dynodiad o'r deilliant terfynol neu os yw'r drosedd a gyhuddwyd y drosedd wirioneddol ar derfynu.

**Tabl 4: Troseddau aflonyddu a stelcio a gyhuddwyd yn cyrraedd gwrandawriad cyntaf mewn llysoedd ynadon**

		2013-2014				Cyfanswm
		Llumanwyd fel TD		Heb lumanu fel TD		
Deddf Cyfraith Teulu 1996 { 42A(1) a (5) }	Torri gorchymyn peidio aflonyddu – Deddf Cyfraith Teulu 1996	5,584	85.9%	914	14.1%	<b>6,498</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 2(1) a (2) }	Aflonyddu heb drais	5,257	63.3%	3,046	36.7%	<b>8,303</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 4(1) a (4) }	Aflonyddu – achosi ofn o drais	952	63.9%	537	36.1%	<b>1,489</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 2A(1) a (4) }	Stelcio gydag ofn / dychryn / trallod	384	72.6%	145	27.4%	<b>529</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 4A(1)(a)(b)(i) a (5) }	Stelcio yn ymwneud ag ofn o drais	49	75.4%	16	24.6%	<b>65</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 4A(1)(a)(b)(ii) a (5) }	Stelcio gyda dychryn / trallod difrifol	83	55.7%	66	44.3%	<b>149</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) }	Aflonyddu – torri gorchymyn ataliol ar gollfarn	8,761	77.3%	2,568	22.7%	<b>11,329</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) }	Aflonyddu – torri gorchymyn ataliol ar ryddfarn	245	76.1%	77	23.9%	<b>322</b>
		2012-2013				CYFANSWM
		Llumanwyd fel TD		Heb lumanu fel TD		
Deddf Cyfraith Teulu 1996 { 42A(1) a (5) }	Torri gorchymyn peidio aflonyddu – Deddf Cyfraith Teulu 1996	4,414	79.3%	1,149	20.7%	<b>5,563</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 2(1) a (2) }	Aflonyddu heb drais	4,217	58.9%	2,942	41.1%	<b>7,159</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 4(1) a (4) }	Aflonyddu – achosi ofn o drais	775	55.4%	623	44.6%	<b>1,398</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 2A(1) a (4) }	Stelcio gydag ofn / dychryn / trallod	52	72.2%	20	27.8%	<b>72</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 4A(1)(a)(b)(i) a (5) }	Stelcio yn ymwneud ag ofn o drais	8	88.9%	1	11.1%	<b>9</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 4A(1)(a)(b)(ii) a (5) }	Stelcio gyda dychryn / trallod difrifol	7	70.0%	3	30.0%	<b>10</b>
Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) }	Aflonyddu – torri gorchymyn ataliol ar gollfarn	7,154	71.8%	2,808	28.2%	<b>9,962</b>

Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) }	Aflonyddu – torri gorchymyn ataliol ar ryddfarn	220	70.3%	93	29.7%	<b>313</b>
---	---	-----	-------	----	-------	------------

## Ystadegau'r MoJ<sup>52</sup>:

Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder<sup>53</sup> yn cwmpasu blwyddyn galendr; mae data erlyniadau'r MoJ ar gyfer ble cafodd y diffynnydd ei erlyn yn 2013; mae data collfarnau'r MoJ ar gyfer achosion a gollfarnwyd yn 2013 (gall fod rhai collfarnau yn 2013 ar gyfer achosion a erlynwyd yn 2012).

Mae data'r CPS yn nhabl 4 yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol (2013-14) sy'n cynnwys yr *holl* droseddau yn *cychwyn* erlyniad yn hytrach nag wedi ei gwblhau.

## Stelcio ac Aflonyddu:

Yn 2013, dengys ystadegau'r MoJ ar gyfer Cymru a Lloegr i 5,895 o ddiffynnyddion gael eu herlyn am droseddau A2 PHA (aflonyddu heb drais) (o gymharu â 5,417 yn 2012). Cafwyd 4,451 yn euog (o gymharu â 4,094 yn 2012). Parhaodd y gyfradd collfarn ar 76%.

Erlynwyd 1,040 o ddiffynnyddion am droseddau A4 PHA (aflonyddu – creu ofn o drais) yn 2013 (o gymharu â 907 yn 2012); gyda 639 wedi eu cael yn euog (o gymharu â 543 yn 2012). Cododd y gyfradd collfarnu o 60% i 61%.

Erlynwyd 293 o ddiffynnyddion am droseddau A2A PHA (Stelcio gydag ofn/dychryn/trallod) yn 2013<sup>54</sup> a chafwyd 196 yn euog (67%). Erlynwyd 55 o ddiffynnyddion yn 2013 dan A4A (stelcio gydag ofn o drais) gydag 16 o gollfarnau – 29% Erlynwyd 99 o ddiffynnyddion yn 2013 dan A4A (stelcio yn ymwneud â dychryn neu drallod difrifol) gyda 37 o gollfarnau – 37%

<sup>52</sup> Gwneir pob ymgais i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynir yn gywir a chyflawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y data hwn wedi ei echdynnu o systemau data gweinyddol mawr a grëwyd gan y llysoedd a heddluoedd. O ganlyniad, dylid cymryd gofal i sicrhau yr ystyrir prosesau casglu data a'u cyfyngiadau anochel wrth ddefnyddio'r data.

Gall y nifer o ddiffynnyddion a geir yn euog mewn blwyddyn benodol fod yn fwy na'r nifer y cychwynnir yn eu herbyn gan i'r achos yn y llys ynadon ddigwydd mewn blwyddyn gynharach a chafwyd y diffynnyddion yn euog yn Llys y Goron yn y flwyddyn ganlynol; neu y cafwyd y diffynnyddion yn euog o wahanol drosedd i'r achos gwreiddiol yn eu herbyn.

<sup>53</sup> Mae'r ffigurau a ddarparwyd yn ymwneud ag unigolion ble roedd y troseddau hyn y prif droseddau yr oeddynt yn delio â nhw. Pan fydd diffynnydd wedi ei erlyn neu ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Ble gweithredir yr un gwarediad am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddetholir yw'r un gyda'r uchafswm cosb statudol uchaf.

Gall y nifer o ddiffynnyddion a geir yn euog mewn blwyddyn benodol fod yn fwy na'r nifer y cychwynnir yn eu herbyn gan i'r achos yn y llys ynadon ddigwydd mewn blwyddyn gynharach a chafwyd y diffynnyddion yn euog yn Llys y Goron yn y flwyddyn ganlynol; neu y cafwyd y diffynnyddion yn euog o wahanol drosedd i'r achos gwreiddiol yn eu herbyn.

<sup>54</sup> Dechreuodd y troseddau newydd yn Nhachwedd 2012 ac fe erlynwyd wyth o ddiffynnyddion dan A2A yn 2012.

## Gorchmynion ataliol a thoriadau:

Dengys ystadegau'r MoJ ar gyfer Cymru a Lloegr y cyhoeddwyd 18,656 o orchmynion ataliol yn 2013 ar gollfarn (o gymharu â 18,611 yn 2012) a 1,667 ar ryddfarn (o gymharu â 1,448 yn 2012).

Parthed toriadau, mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn delio â'r flwyddyn galendr ac yn ymwneud ag achosion a erlynwyd ble roedd gorchmynion ataliol y prif droseddau a erlynwyd. Mae data'r CPS yn Nhabl 4 yn seiliedig ar flwyddyn ariannol sy'n cynnwys yr *holl* doriadau yn *cychwyn* erlyniad, nid ble mae gorchmynion ataliol yn brif drosedd yn unig.

Yn ystod 2013, roedd 7,219 o erlyniadau ar gyfer toriadau o orchmynion ataliol a gyflwynwyd ar gollfarn, gyda 6,337 o gollfarnau. Roedd hyn yn gynydd o 6,470 erlyniadau yn 2012 gyda 5,699 o gollfarnau.

Yn ystod 2013, cafwyd 235 o erlyniadau am doriadau gorchmynion ataliol yn ymwneud â'r rhai a gyhoeddwyd yn dilyn rhyddfarn y diffynnydd, gyda 183 yn cael collfarn. Roedd hyn yn gynydd o 130 erlyniadau yn 2012 gyda 98 o gollfarnau.

Ar y cyfan, arweiniodd 87% o'r holl erlyniadau ar gyfer toriadau at gollfarn yn 2013.

## Deddfwriaeth

Cyflwynwyd dwy drosedd stelcio newydd yn Nhachwedd 2012, gan ddarparu canllaw ar gyfer erlynyddion. Diweddarwyd canllaw yn 2013 yn canolbwyntio ar y gwahaniaethau rhwng stelcio ac aflonyddu, yr amgylchiadau pan fyddai cyhuddiad o stelcio yn ddewis gwell nag un o aflonyddu, a phwysigrwyd ymgysylltu â'r dioddefwr trwy gydol y broses gyfiawnder troseddol<sup>55</sup>.

Mae erlynyddion yn dal i wneud cais am orchmynion ataliol (yn cynnwys mewn achosion TD) ar gollfarn a rhyddfarn.

Cyflawnodd tîm ymchwil y Gyfarwyddfa Strategaeth a Pholisi sampl hap o 39o droseddau stelcio o Hydref – Ragfyr 2013 (27 A2A; 2 A4A (i) a 10 A4A(ii))<sup>56</sup>. Roedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr yn fenywod a'r rhan fwyaf o'r troseddwyr yn ddynion. O'r 39 o achosion, aseswyd 33 yn ansoddol o'r nodiadau ffeiliau achos fel achosion TD; gyda 32 ohonynt yn ymwneud â therfynu perthynas. Cafodd y rhan fwyaf eu herlyn fel stelcio yn achosi dychryn neu drallod; deg fel yn achosi niwed neu drallod difrifol (gydag wyth ohonynt yn TD) a dau fel stelcio gydag ofn o drais (gydag un yn TD). Bwriedir cynnal astudiaeth fanylach ar ddechrau'r haf 2014 i archwilio derbynriad o'r troseddau stelcio newydd, archwilio'r tueddiadau mewn achosion aflonyddu a stelcio ers y troseddau newydd, priodoldeb y

<sup>55</sup> Cyflwynodd Adran 2A y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 drosedd newydd o stelcio (trosedd ddiannod) ac fe gyflwynodd Adran 4A y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 drosedd newydd o stelcio yn ymwneud ag ofn o dychryn neu drallod difrifol sydd wedi cael effaith andwyol sylweddol ar eu gweithgareddau dydd i ddydd arferol (trosedd naill ffordd). Mae'r elfen atodol yn yr adran 4A newydd yn galluogi erlyn achosion yn bennaf pan fydd ymddygiad y diffynnydd islaw ofn o drais ond ei fod er hynny yn achosi dychryn neu drallod difrifol i'r dioddefwr.

<sup>56</sup> Sylwer, roedd yr ymarfer hwn yn gyfyngedig iawn o ran graddfa a chwmpas ac felly nid yw o reidrwydd yn gynrychiadol ac ni ellir ei gyffredinoli.

troseddau a ddefnyddir, profiad yr erlynydd ac unrhyw anawsterau.

## Gwaith gyda'r heddlu

I nodi blwyddyn ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth, yn Nhachwedd 2013 cyhoeddodd y DPP a'r arweinydd Plismona Cenedlaethol ar Stelcio lythyr ar y cyd i'r holl Brif Erlynyddion y goron a'r holl Brif Gwnstabiliaid. Roedd y llythyr yn amlinellu cynlluniau ar gyfer protocol ACPO/CPS ar y cyd a fydd yn gwella gwasanaethau i dioddefwyr stelcio, ac yn helpu swyddogion yr heddlu ac erlynyddion i adeiladu achosion cryfach gan arwain at erlyniadau mwy llwyddiannus ar gyfer stelcio ac aflonyddu. Disgwylir y bydd y protocol yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn yr haf 2014. Mae'r protocol yn ffocysu ar hysbysu'r dioddefwr o wrandawiadau cyhuddo a mechnïaeth a sicrhau yr ymgeisir am orchmynion ataliol. Wedi cyhoeddi'r protocol ar y cyd, fe drefnir hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth bellach ar gyfer swyddogion yr heddlu ac erlynyddion CPS i gefnogi ei weithrediad.

### Aflonyddu

- Yn Nwyrain Canolbarth Lloegr, roedd diffynnydd wedi stelcio ei gyn bartner a'i theulu yn cynnwys negeseuon testun, e-bost, ei dilyn a hacio i mewn i'w chyfrif e-bost. Defnyddiodd wefan oedd yn ei alluogi i anfon negeseuon testun ato'i hun, fel pe bai ar ran y dioddefwr, a arweiniodd at ei harestio hi, ei chyfweld a rhoi rhybudd aflonyddu iddi. Roedd llawer o ymchwiliad yr heddlu yn torri tir newydd yn lleol ac arweiniodd cryfder y dystiolaeth yn ei erbyn iddo bledio'n euog. Derbyniodd ddeddfryd o chwe blynedd a hanner o garchar yn dilyn erlyniad am stelcio yn ymwneud ag ofn o drais ac atal cwr cyfiawnder parthed y negeseuon testun ffug.
- Yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, derbyniodd diffynnydd wyth mis o garchar a gorchymyn ataliol amhenodol wedi stelcio a dychrynu dioddefwr bregus. Gwrthododd yr erlynydd ddau gais gan yr amddiffyn i bledio'n euog i droseddau llai.

## Hyfforddiant

Gwnaethpwyd modwl e-ddysgu Coleg Erlyniad y CPS i gefnogi erlynyddion wrth erlyn seiber stelcio, stelcio nad yw'n seiber ac aflonyddu, yn orfodol ar gyfer pob erlynydd o Fehefin 2013. Roedd yr hyfforddiant seiber stelcio yn delio ag adran 127 y Ddeddf Cyfathrebu 2003; adran 1 y Ddeddf Cyfathrebu Faleisus 1998 a'r drosedd o baratoi. Roedd hefyd yn cynnwys y troseddau stelcio newydd yn rhan o senario'r achos.

Yn ogystal, cynhwyswyd y troseddau newydd o stelcio mewn diwygiad o'r hyfforddiant e-ddysgu TD ym Mawrth 2013. Yn Ebrill 2014, lanswyd modwl e-ddysgu penodol ar stelcio i gyd-fynd â'r cwrs seiber stelcio gorfodol. Mae'r modwl stelcio newydd yn delio'n benodol



gyda throseddau stelcio ac aflonyddu, ac yn rhoi pwyslais ar adeiladu achos cryf, gweithio'n agos gyda'r heddlu ac ymgysylltu â dioddefwyr trwy gydol y broses gyfreithiol.

## Ymwybyddiaeth

Cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol i nodi'r Diwrnod Ymwybyddiaeth Stelcio Cenedlaethol yn Ebrill 2014 i godi ymwybyddiaeth am y drosedd o stelcio. Cyflwynodd y CPS y gyfraith newydd mewn diwrnod ar thema 'Stelcio – Gweithio heb Ofn'. Roedd nifer o asiantaethau cefnogaeth, dioddefwyr, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid yn y sector cymunedol a chyfiawnder troseddol yn bresennol.

# Trais


Yn 2013-14, yn dilyn pryderon a nodwyd trwy'r adroddiad troseddau VAWG 2012-13, parthed y gostyngiad yn niferoedd yr achosion o dreisio, canolbwyntiodd Ardaloedd ar ddelio â'r niferoedd o atgyfeiriadau gan yr heddlu, erlyniadau a cholffarnau, trwy'r system sicrwydd VAWG. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn niferoedd, ar draws y broses gyfan, erbyn diwedd y flwyddyn.

Cododd y nifer o atgyfeiriadau treisio gan yr heddlu i 5,850 yn 2013-14 – cynnydd o 446 o atgyfeiriadau (8.3%) o'r nifer o 5,404 yn 2012-13. Nododd 11 o Ardaloedd gynnydd mewn atgyfeiriadau<sup>57</sup>, gyda saith yn nodi cynnydd pob chwarter yn 2013-14.

Cyhuddwyd 3,621 o ddiffynyddion<sup>58</sup>, y niferoedd a chyfrannau uchaf erioed a chynnydd o 732 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (25.3%) o 2012-13. Cynyddodd y gyfran o achosion a gyfeiriwyd o 41.7% yn 2010-11, 53.5% yn 2012-13 i 61.9% yn 2013-14. Cynyddodd pob Ardal y niferoedd a'r gyfran a gyhuddwyd; gyda 12 yn cynyddu pob chwarter yn ystod 2013-14.

Mae Graff 9 yn amlinellu'r newidiadau mewn niferoedd atgyfeiriadau ac erlyniadau o 2007-08 i 2013-14.

**Graff 9: Nifer o atgyfeiriadau treisio'r heddlu a diffynyddion a gyhuddir**



Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion yn arwain at gollfarn am dreisio, ond hefyd achosion a gafodd eu llumanu fel treisio o'r cychwyn, ble cafwyd collfarn am drosedd arall neu lai. Defnyddir y data i ddibenion rheoli achosion y CPS, ochr yn ochr â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gollfarnau achosion a


<sup>57</sup> Cafodd pob Ardal gynnydd mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu heblaw Glannau Merswy/Swydd Gaer a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Yr ail yw'r unig uned wedi eu lleoli ar y cyd gyda'r heddlu ac felly maent yn nodi achosion i symud ymlaen yn gynnar iawn. Aeth y ddau ymlaen gyda chynnydd yn y nifer a gyhuddwyd.

<sup>58</sup> Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n darparu ffigur mwy cywir ar gyfer y canran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen at erlyniad. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

gyhuddwyd ac a gafwyd yn euog o dreisio yn unig. Gosodir y lluman i ffeiliau'r CPS o gychwyn yr achos; bydd y faner yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r penderfyniad i gyhuddo am drosedd nad yw'n treisio neu os yw'r drosedd o dreisio'n cael ei ddiwygio wedi hynny. Mae cywirdeb llumanu achosion wedi gwella yn ystod y flwyddyn, yn codi o 96.4% yn Ch4 2012-13 i 97.4% erbyn Ch4 2013-14. Rhoddir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn yr adran nesaf fel yr ystadegau cenedlaethol swyddogol am dreisio er mwyn rhoi cyd-destun i ddata perfformiad y CPS. Mae hyn ar gyfer blwyddyn galendr, yn hytrach nag ariannol, a dim ond ar gyfer yr achosion hynny ble'r oedd y gollfarn derfynol am dreisio.

Mae'r gyfran o achosion treisio<sup>59</sup> wedi codi blwyddyn ar flwyddyn i 11.1% yn 2013-14.

**Graff 10: Llwyth achosion treisio fel % o'r cyfanswm o ddeilliannau ditiadwy yn unig llys y goron 2007-08 i 2013-14**



**Tabl 5: Erlyniadau treisio a gwblhawyd yn ôl deilliant**


	2008 – 09		2009 – 10		2010 – 11		2011 – 12		2012 – 13		2013-14	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Collfarnau	2,018	57.7%	2,270	59.4%	2,465	58.6%	2,414	62.5%	2,333	63.2%	2,348	60.3%
Aflwyddiannus	1,477	42.3%	1,549	40.6%	1,743	41.4%	1,450	37.5%	1,359	36.8%	1,543	39.7%
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,495</b>		<b>3,819</b>		<b>4,208</b>		<b>3,864</b>		<b>3,692</b>		<b>3,891</b>	

Cododd y nifer o erlyniadau treisio a gwblhawyd yn 2013-14<sup>60</sup> i 3,891 – cynnydd o 199 o ddiffynyddion (5.4%) o 2012-13, ond heb gyrraedd y nifer uchaf o 4,208 a erlynwyd yn 2010-11 eto (Graff 11 a Thabl 5). Gallai'r cynnydd hwn mewn diffynyddion a gyhuddir yn ystod 2013-14 effeithio ar ganlyniadau erlyniadau yn 2014-15.

**Graff 11: Niferoedd treisio 2007-8 i 2013-14**

<sup>59</sup> Llwyth achosion treisio fel % o'r holl erlyniadau ditiadwy yn unig.


<sup>60</sup> Sylwer fod y niferoedd cyhuddo yn cwmpasu'r achosion hynny, yn ôl diffynydd, a *anfonwyd ymlaen* i'r CPS yn ystod 2013-14 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo na ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd gyda'r rhai a erlynwyd sy'n cwmpasu achosion yn ôl diffynydd, a *gwblhawyd* yn ystod 2013-14.



O ddata'r CPS, cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 2,348 – cynnydd o 2,333 o gollfarnau (0.6%) yn 2012-13. Rhwng 2007-8<sup>61</sup> a 2013-14, mae cyfraddau collfarnau'r CPS<sup>62</sup> wedi codi o 57.7% i 60.3%, ond roedd lleihad o 63.2% y llynedd – y gyfradd collfarn CPS uchaf erioed i'w chofnodi ers dechrau cadw cofnodion ar gyfer treisio.

Mae Graff 12 yn dangos y tuedd yng nghollfarnau treisio'r CPS yn ystod y saith mlynedd diwethaf.

**Graff 12: Cyfraddau collfarn treisio 2007-08 i 2013-14**



O ddata'r CPS, erlynwyd 3,699 (97.8%) o achosion a lumanwyd yn gyntaf fel treisio ar gyfer y categorïau prif drosedd<sup>63</sup> 'troseddau rhywiol, yn cynnwys treisio' neu brif droseddau mwy difrifol o 'ddynladdiad' neu 'droseddau yn erbyn y person' yn y pen draw. O'r rhain roedd

<sup>61</sup> Cychwynnodd cofnodi achosion treisio yn hwyrach nag ar gyfer trais domestig

<sup>62</sup> Deilliannau o gyhuddo i gollfarn; gweler y manylion uchod.

<sup>63</sup> Gweler yr Eirfa am ddiffiniadau'r CPS o'r 'brif drosedd' a'r gwahanol categorïau. Mae'r data categori prif drosedd a gofnodir gan y CPS yn y System Rheoli Achosion yn orgynnill wrth gymharu â'r niferoedd erlyniad cyffredinol yn yr un cyfnod. Mae deilliannau a arweiniodd at derfyniad gweinyddol neu achosion anghyflawn, ble na ddyrannir categori prif drosedd, wedi eu heithrio.

3,484 am droseddau rhywiol gan gynnwys treisio; pump am laddiad a 210 am droseddau yn erbyn yr unigolyn.

Gostyngodd pledion euog ychydig o 39.7% yn 2012-13 i 35.9% yn 2013-14. O'r holl ddeilliannau llwyddiannus, roedd 59.5% o ganlyniad i bledion euog. Mae achosion a ataliwyd wedi parhau i ostwng gan gyrraedd y lefel isaf erioed, yn 13.1% o'r holl achosion treisio a erlynwyd.

O'r holl resymau dros ganlyniad aflwyddiannus, mae'r gyfran o ganlyniad i ryddfarn gan reithgor<sup>64</sup> wedi codi blwyddyn ar flwyddyn – o 56.1% yn 2012-13 i 60.3% yn 2013-14. Mae rhagor o waith ar y gweill yn 2014/15 (fel yr amlinellwyd i'r Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio isod), gyda phartneriaid i ddelio ag ymwybyddiaeth y cyhoedd ac i herio mythau ac ystrydebau, a allai fod wedi arwain at gyfraddau athreuliad uchel gan reithgor mewn achosion troseddau rhywiol.

Yn 2013-14, newidiwyd cofnodi'r rhesymau am ddeilliannau aflwyddiannus i sicrhau gwell cywirdeb. Mae hyn wedi arwain yn benodol ar wella cofnodi o faterion dioddefwyr. Yn flaenorol, gallai rhesymau fod wedi eu cofnodi fel 'elfen gyfreithiol allweddol ar goll' neu 'tyst annibynadwy'. Yn 2013-14, rydym wedi gweld lleihad yn y rhesymau hyn (o 4% i 1.5% ac 8.1% i 1.3% yn y drefn honno). Yn gyfochrog â hyn cafwyd cynnydd mewn cofnodi deilliannau aflwyddiannus, o ganlyniad i faterion dioddefwyr yn codi o 12.5% i 18%; gyda 10.8% o ganlyniad i dynnu'n ôl gan y dioddefwr.

O'r holl achosion a erlynwyd, mae'r gyfradd oedd yn aflwyddiannus oherwydd problemau gyda'r dioddefydd<sup>65</sup> wedi codi o 4.6% y llynedd i 7.1%, wedi bod yn gyson ar tua 7% (o 2007-2010). Mae cefnogaeth i ddiodefwyr drwy broses y llys yn allweddol i leihau tynnu'n ôl ac fe ddisgrifir gwaith i wella hyn, a nodwyd trwy'r Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio, isod.

## Amseroldeb

Am y tro cyntaf, yn 2013-14, cafodd amseroldeb penderfyniadau cyn cyhuddo ei monitro o fewn system sicrwydd VAWG. Y nifer cyfartalog o ddyddiau i gyhuddo yn 2013-14 oedd 39.6 o ddyddiau. Mae hyn yn ffigwr cyfartalog, ble mae'r ffigurau yn sylweddol uwch, gofynnwyd i'r Ardaloedd lunio cynlluniau i wella perfformiad ac mae cynnydd wedi ei fapio trwy'r broses sicrwydd VAWG. Mae'r penderfyniadau hyn yn galw am sylw manwl a gall gynnwys ystyriaeth o dystiolaeth gymhleth, yn arbennig yn ymwneud â'r cynnydd mewn achosion nad ydynt yn ddiweddar a adroddwyd. Rydym nawr yn cynghori ar achosion o dreisio ar ddechrau, yn hytrach na diwedd, ymchwiliad er mwyn helpu'r heddlu i adeiladu achosion cryfach, a fydd yn sicr o ymestyn cynhwysiant y CPS. Yn ogystal, mae angen amser i wyllo cyfweiliadau a recordiwyd gyda dioddefwyr, a all fod yn hirfaith iawn, cyflawni dadansoddiad ffrensig o gyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol a ffonau yn ogystal ag asesu deunydd perthnasol megis adroddiadau gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o ddyletswydd datgeliad yr erlyniad.

<sup>64</sup> Roedd yr holl 'ddeilliannau aflwyddiannus oherwydd rhyddfarnau' a amlinellwyd mewn adroddiadau blaenorol yn cynnwys 'rhyddfarn gan reithgor' a 'gwrthodwyd wedi achos diannod llawn' – cododd hyn o 56.3% yn 2012-13 i 61% yn 2013-14

<sup>65</sup> Achosion aflwyddiannus oherwydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl; dim mynychu neu ble nad yw dystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos.

Delir ag amseroldeb yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol 2014-15 yn dilyn y Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio, yn ogystal ag o fewn y broses sicrwydd VAWG gydag Ardaloedd, yn arbennig ble nodir oedi hir. Mae'r CPS yn cynghori'r heddlu ar ddechrau ymchwiliadau i dreisio ac mae nifer o Ardaloedd wedi cyflwyno rhestrau gwirio er mwyn archwilio'r holl bosibiliadau yn gynnar i geisio osgoi oedi. Yn dilyn y broses sicrwydd yn hydref 2013, ysgrifennodd y Cyfarwyddwr at yr holl Ardaloedd yn gofyn am gynlluniau i ddelio ag unrhyw ôl-groniad o achosion a dulliau i wella amseroldeb; ystyriwyd hyn yn y dilyniant ar ddiwedd y flwyddyn.

## Ystadegau cenedlaethol swyddogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder<sup>66</sup>

Mae'r [ystadegau treisio cenedlaethol swyddogol gan yr MoJ](#) yn nodi ym mlwyddyn galendr 2013 i 3,081 o ddiffynyddion, ar sail prif drosedd<sup>67</sup>, gael eu herlyn am dreisio mewn llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 2,822 yn 2012. Anfonwyd 3,020 o ddiffynyddion i Lys y Goron ar gyfer treial, o gymharu â 2,765 yn 2012. Yn 2013 cafwyd 1,121 yn euog o dreisio yng Nghymru a Lloegr, lleihad o 1,145 yn 2012, gan arwain at gyfradd erlyniad i gollfarn yn 2013 o 36% – lleihad o 41% yn 2012. Nid yw'r gymhareb hon yn cymryd i ystyriaeth ddiffynyddion a erlynir am dreisio ond sy'n eu cael yn euog yn Llys y Goron am drosedd arall.

Cyhoeddir gwybodaeth ar erlyniadau a cholffarnau yn chwarterol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fodd bynnag, dim ond yn flynyddol y cyhoeddir data lefel trosedd manwl, e.e. trais, ar gyfer y flwyddyn galendr gyflawn.

## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tabl ar dudalen 82 yn darparu data erlyniadau treisio yn ôl Ardal ac ardaloedd heddlu. Mae'r atodiad cysylltiedig, a roddwyd ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol, yn darparu data cyn cyhuddo Ardaloedd ac ardaloedd yr heddlu.

---

<sup>66</sup> Gwneir pob ymgais i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynir yn gywir a chyflawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y data hwn wedi ei echdynnu o systemau data gweinyddol mawr a grëwyd gan y llysoedd a heddluoedd. O ganlyniad, dylid cymryd gofal i sicrhau yr ystyrir prosesau casglu data a'u cyfyngiadau anochel wrth ddefnyddio'r data.

Gall y nifer o ddiffynyddion a geir yn euog mewn blwyddyn benodol fod yn fwy na'r nifer y cychwynnir yn eu herbyn gan i'r achos yn y llys ynadon ddigwydd mewn blwyddyn gynharach a chafwyd y diffynyddion yn euog yn Llys y Goron yn y flwyddyn ganlynol; neu y cafwyd y diffynyddion yn euog o wahanol drosedd i'r achos gwreiddiol yn eu herbyn.

<sup>67</sup> Gwybodaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Mae'r ffigurau ar achosion llys yn ymwneud ag unigolion ble roedd y troseddau hyn y prif droseddau yr oeddynt yn delio â nhw. Pan fydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Ble gweithredir yr un gwarediad am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddetholir yw'r un gyda'r uchafswm cosb statudol uchaf.

## Arfer da

- Yn Ne-orllewin Lloegr, darparodd y Cydlynnydd VAWG becyn gwybodaeth gwasanaeth treisio ar gyfer yr holl farnwyr, wedi cais gan y Barnwr Preswyl Lleol yn dilyn eu cyfarfod gyda ISVA Lleol.
- Yn Swydd Efrog a Glannau Humber, casglwyd data am dri mis i asesu oedi mewn treialon ac i lunio gweithredoedd.
- Yn y Gogledd-orllewin, mae'r Ardal yn bwriadu archwilio faint o amsera gymer i ar gyfer ymchwiliadau a gwneud penderfyniadau cyfreithiol mewn achosion o dreisio.

## Materion cydraddoldeb

### Rhyw

Yn 2013-14, roedd y mwyafrif o ddiffynnyddion yn ddynion, yn 99%, fel yn 2012-13. Nid yw cofnodi rhywedd dioddefwr, ar 73%, yn ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

### Ethnigrwydd

Yn 2012-13, dosbarthwyd 62% o ddiffynnyddion troseddau treisio fel Gwyn, gyda 55% wedi eu nodi fel perthyn i'r dosbarth Gwyn Prydeinig (dros ddau bwynt canrannol yn llai na'r flwyddyn flaenorol). Nodwyd bod 8.8% o'r diffynnyddion yn Asiaidd – cynnydd o 0.3ppt o 2012-13, a nodwyd 10.5% fel Du – lleihad o 0.1ppt<sup>68</sup>. Roedd lleihad o dros 1.5ppt mewn cofnodi ethnigrwydd diffynnydd. Mae 68% o ethnigrwydd dioddefwyr yn dal heb ei gofnodi; felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

### Oed

Roedd y mwyafrif o ddiffynnyddion rhwng 25-59 oed (61%) a 18-24 (21%). Roedd yn bryder nodi fod bron i 30% o ddiffynnyddion (1,131) dan 24, gyda 264 (ychydig dan 7%) o ddiffynnyddion rhwng 14-17 oed a 35 (1%) rhwng 10-13 oed. Mae 32% o oedran dioddefwyr heb ei gofnodi; felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Asesiad ansoddol o achosion treisio

Yn 2013-14 fe symudom i ffocysu ar weithredu gwelliannau a nodwyd yn flaenorol mewn erlyniadau treisio, yn hytrach na nodi beth oedd y materion. I'r diben hwn, gofynnwyd i'r Ardaloedd ffocysu ar welliannau ansoddol a gwirio yn erbyn 15% o'u hachosion treisio<sup>69</sup>. Dynododd eu hasesiadau welliannau parhaus yn ystod y flwyddyn yn nosbarthiad achosion i arbenigwyr treisio; llai o achosion o ddim gweithredu pellach a gwelliannau mewn cyfarwyddiadau i gwnsleriaid. Mae trefniadau llywodraethu da yn parhau a chymerwyd

<sup>68</sup> Ni ddatganodd 6% o ddiffynnyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd 9.6% o ethnigrwydd diffynnyddion i'r CPS gan yr heddlu.

<sup>69</sup> O Ionawr 2011 – Mawrth 2013, aseswyd 25% o achosion treisio i nodi materion i'w datrys; o Ebrill 2013 symudodd hyn i ffocws ar weithredu'r casgliadau, gan barhau i asesu yn erbyn 15% o'u hachosion.



camau i wella ymgynghoriad cynnar gyda'r heddlu a materion dioddefwyr. Roedd awgrym fod ystyriaeth o gyfweiliadau tystion cyn treial wedi gwella. Adroddodd nifer o Ardaloedd ar ddefnydd priodol o rybuddion treisio syml – dim ond dan amgylchiadau eithriadol.

## Materion trawslywodraeth

Mae'r CPS yn rhan o waith trawslywodraethol trwy strategaeth a chynllun gweithredu'r MoJ ar dreisio a'r Grŵp Cenedlaethol ar Drais Rhywiol yn Erbyn Plant a Phobl Fregus a oruchwylir gan y Swyddfa Gartref, yn ogystal ag wedi ei gysylltu i'r Grŵp Rhyngweinidogol VAWG.

## Panel Craffu Cenedlaethol ar Dreisio

Trafodwyd y lleihad yn y nifer o achosion a gyfeirir gan yr heddlu i'r CPS, a nodwyd yn adroddiad VAWG diwethaf y CPS, yn y cyfarfod bord gron a gynhaliwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau cyhoeddus ar y pryd ym Medi 2013 gyda'r Swyddfa Gartref a'r arweinydd Plismona Cenedlaethol ar gyfer treisio.

Cytunwyd y dylid cynnal Panel Craffu Cenedlaethol i ddelio â'r mater hwn a'r materion ehangach yn ymwneud ag ymchwilio ac erlyn yr achosion hyn. Cynhaliwyd y panel yn Ebrill 2014, gyda'r heddlu, erlynyddion, academyddion a grwpiau defnyddwyr yn bresennol, a chafwyd cynllun gweithredu manwl o'r digwyddiad.

Er yn cydnabod fod y dirywiad mewn niferoedd wedi ei wrydroi yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda chynnydd mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu ac mewn niferoedd a gyhuddir, cydnabuwyd fod hyn yn galw am fonitro am fisoedd a blynyddoedd i ddod, fel y mae nifer y collfarnau a chyfraddau collfarnau, gyda'r ail yn lleihau yn y flwyddyn ddiwethaf. Nododd y Panel rhai mythau treiddiol yn yr astudiaethau achos sy'n adlewyrchu barnau cymdeithas yn gyffredinol, ac a allai fod yn rhwystr i gyfiawnder ar gyfer rhai dioddefwyr bregus. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i ddeall y mater sylfaenol o gysyniad.

Ar y cyd â'r arweinydd Heddlu Cenedlaethol ar dreisio, ymrwymodd y DPP ei ymroddiad i ddelio â'r materion sy'n atal achosion treisio rhag symud yn llwyddiannus trwy'r system gyfiawnder droseddol. Mae'r Cynllun ar gyfer 2014-15 yn amlinellu tair thema:

- Sicrhau cydbwysedd: Ymchwiliadau sy'n canolbwyntio ar y troseddwr wrth sicrhau ymateb effeithiol i'r dioddefwr
- Offer ar gyfer y gwaith: Ymchwilyr ac Erlynyddion ar Ddelio ag Achosion Treisio
- Gwelliant parhaus: Trosolwg ac Atebolrwydd

Mae'r cynllun yn cynnwys adolygiad o Unedau RASSO y CPS a chyfarwyddyd i adfocadau priodol mewn treialon treisio, gyda'r nod o weithredu camau i gynhyrchu gwell deilliannau ar gyfer achosion trais. Darperir eglurhad pellach i'r heddlu ac erlynyddion ar gyhuddo'r holl achosion VAWG a'r meini prawf a phroses i gaffael cyngor ymchwilio cynnar mewn achosion treisio, yng Nghantlaw'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo. Yn hwyrach yn 2014, fe gynhelir Cynhadledd Genedlaethol gyda'r holl erlynyddion treisio arbenigol ac arweinwyr treisio'r heddlu i godi ymwybyddiaeth ymhellach o faterion allweddol megis y ddeddfwriaeth ar gydsyniad, diweddarau protocol yr heddlu/CPS a sut i ddelio â natur fregus dioddefwyr trais. Yn ogystal, fe gesglir gwybodaeth gan asiantaethau cyfiawnder troseddol a sefydliadau trydydd sector i gael gwell dealltwriaeth a delio â materion parthed rhestradau

llysoedd ac amseroldeb achosion treisio. Mae Adolygiad Treisio o'r Ardal Fetropolitan hefyd yn cael ei gyflawni gan y Fonesig Elish Angiolini QC n ystod 2014-15.

## Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol

Ym Mawrth 2013, roedd 873 o erlynyddion arbenigol wedi eu hyfforddi yn y dull seiliedig ar rinweddau i ddelio ag erlyniadau treisio, gyda chyfanswm o 2,543 o erlynyddion (34%); cynnydd o 29% ym Mawrth 2011. Gweithiodd yr arbenigwyr ar draws Ardaloedd yn cyflawni erlyniadau treisio, ond hefyd yn delio ag achosion eraill. Dim ond chwech o Ardaloedd oedd ag Uned Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO), gydag arbenigwyr.

Erbyn Hydref 2013, roedd Unedau RASSO wedi eu cyflwyno ar draws pob Ardal. Wrth symud at Unedau RASSO, lleolwyd erlynyddion arbenigwyr yn yr Unedau i arbenigo mewn erlyn troseddau treisio a rhyw (amlinellir isod). Erbyn Mawrth 2014, neilltuwyd cyfanswm o 318 o erlynyddion arbenigol i Unedau RASSO. Yn ogystal, roedd gan bob Ardal nifer o arbenigwyr hyfforddedig tu allan i'r Unedau. Yn ganolog, roedd 122 o erlynyddion arbenigol treisio wedi eu neilltuo i CPS Direct (ar gyfer gwasanaethau tu allan i oriau swyddfa); troseddau arbennig, troseddau cyfundrefnol a'r Uned Apeliadau ac Adolygiad. Cafwyd hyfforddiant RASSO pellach yn 2013-14 (a gynhaliwyd yn lleol ac yn genedlaethol) a chwrs diwygio RASSO i'r rhai a gyflawnodd eu hyfforddiant RASSO yn ei ddyddiau cynnar ac oedd angen diweddariad.

Estynnwyd yr isafswm safonau Uned RASSO tu hwn i gwmpasu treisio, troseddau rhywiol difrifol (SSO) nad ydynt yn ddiannod a throseddau treiddiol (yn cynnwys y rhai mewn sefyllfaoedd TD) i gynnwys:

- Pob achos yn Llys y Goron o gam-drin plant yn rhywiol;
- Troseddau rhywiol difrifol gyda dioddefwyr lluosog (i gwmpasu materion math Savile);
- Troseddau rhywiol gydag oedolion bregus, o ganlyniad i'r cymhlethdodau ac arbenigedd angenrheidiol;
- Troseddau treisio a throseddau rhywiol y llys ieuenctid (pob penderfyniad mawr ar achosion ieuenctid i'w wneud gan arbenigwyr treisio sydd hefyd yn arbenigwyr ieuenctid); a
- Y rhai sy'n ymwneud â chyhuddiadau treisio ac/neu TD a honnir i fod yn ffug.

Mae'r Unedau RASSO oll yn cyhuddo'r troseddau uchod ar wahân i du allan i oriau gwaith, pan fydd arbenigwyr treisio yn CPSD yn gwneud penderfyniadau cyhuddo. Datblygwyd rhwydwaith o Arweinyddion Unedau RASSO, gyda chylchlythyrau RASSO.

## Dioddefwyr bregus

- Roedd menyw gydag anawsterau dysgu difrifol yn ddiodefwr cyfres o weithredoedd bychanus o gam-drin rhywiol a threisio gan ei gŵr trwy gydol eu priodas dreisgar o 20 mlynedd. O ganlyniad i'w hanawsterau wrth ddarparu manylion amersu ac amlder, credwyd yn wreiddiol na fyddai'n bosibl mynd ymlaen â'r achos. Fodd bynnag, canfu ail gyfreithiwr adolygu ei bod yn cyflwyno fel rhywun credadwy iawn a sicrhaodd gefnogaeth canolwr a gadarnhaodd fesurau i ganiatáu i'r achwynydd roi ei thystiolaeth mewn modd effeithiol. Cafwyd y diffynnydd yn euog a'i ddedfrydu i 11 mlynedd o garchar.
- Roedd diodefwr byddar iawn gydag anawsterau dysgu angen cyngor arwyddwr a chanolwr yn ystod ei hachos. Cododd yr amddiffyn faterion yn ymwneud â'i chymhwyster ac yn dilyn gwrandawriad cymhwyster ffurfiol fe gytunodd y barnwr. Aeth yr erlynydd a hyn i'r Llys Apêl a chafodd y casgliad ei wyrddroi gan ailgychwyn yr achos. Ddedfrydwyd y diffynnydd i naw mis o garchar.

## Cyhuddiadau ffug

Ym Mawrth 2013, cyhoeddwyd adroddiad [Charging perverting the course of justice and wasting police time in cases involving allegedly false rape and domestic violence allegations](#)

Dangosodd yr adroddiad fod cyhuddiadau ffug o dreisio a TD o bosibl yn fwy prin nag y tybiwyd yn wreiddiol, ond pan fyddant yn digwydd eu bod yn ddifrifol. Dim ond mewn nifer fechan iawn o achosion yr ystyriwyd bod yna ddigon o dystiolaeth, a'i bod er lles y cyhoedd, i erlyn rhywun a amheuyd o wneud cyhuddiad ar gam o dreisio ac/neu TD<sup>70</sup>.

Mae'r adroddiad wedi taflu goleuni ar ym mha gyd-destun fydd pobl yn gwneud cyhuddiad ffug, gan ddangos bod nifer sylweddol o'r achosion hyn yn ymwneud â phobl ifanc, fregus yn aml, ac weithiau hyd yn oed blant. Roedd tua hanner yr achosion yn ymwneud â phobl 21 oed neu iau, a rhai yn ymwneud â phobl gydag anawsterau iechyd meddwl. Dangosodd yr adroddiad fod y canllaw yn glir, ac yn 2013-14 bydd cyngor pellach i helpu gyda rhai o'r achosion mwyaf cymhleth yn cael ei ychwanegu.

Diweddarwyd isafswm safonau RASSO i gynnwys yr achosion hyn<sup>71</sup> yn Hydref 2013, i sicrhau fod arbenigwyr yn delio â nhw. Cynhaliwyd Adolygiadau Wedi Achosion gydag ardaloedd dethol. Cyflawnwyd monitro o gyhuddiadau ffug yn 2013-14, trwy'r system sicrwydd VAWG gyda dau adolygiad sampl hap.

<sup>70</sup> Cafwyd 5,651 o erlyniadau am dreisio yng nghyfnod yr asesiad o gyhuddiadau ffug honedig, a 35 o erlyniadau am wneud cyhuddiadau ffug o dreisio.

<sup>71</sup> Unrhyw achosion yn ymwneud â chyhuddiad a honnir i fod yn ffug o dreisio ac/neu drais domestig.

Cyflawnwyd y sampl hap o adolygiadau o 25% o achosion yn rhan o'r broses sicrwydd VAWG yng ngwanwyn a hydref 2013, sy'n adrodd i'r DPP. Roedd yradolygiadau yn dal i wella o ran ansawdd yn gyda'r mwyafrif helaeth yn dangos gweithrediad cywir o ganllaw a nifer yn dangos dwyster gwybodaeth a dealltwriaeth arbennig o ddwfn o ran achosion o'r fath. Ble nodwyd problemau, fe'u trafodwyd gyda'r Ardal leol.

Darparwyd Dosbarthiadau Meistri yn Rhagfyr 2013 i Benaethiaid Unedau RASSO a Dirprwy Brif Erlynyddion y Goron. Cynhyrchwyd TDD a'i ddosbarthu i'w wyllo gan yr holl arbenigwyr treisio yn delio â'r achosion hyn, a chynnal dau weminar dilynol yn y gwanwyn 2014.

Yn 2014, bydd materion cenedlaethol yn cael eu trafod gyda'r arweinydd plismona cenedlaethol ar faterion treisio a lleol yn cael eu cynnwys mewn llythyrau i'r CCPau yn dilyn y broses sicrwydd hon.

Mae canllaw cyfreithiol yn cael ei ddiweddarau a byddwn yn dal i gasglu data mewn dychweliadau sicrwydd yn y dyfodol

#### **Materion alcohol:**

- Cafodd gŵr 25 oed ei garcharu am 5 mlynedd am dreisio merch yn ei harddegau yn sedd flaen car wedi ei chymell i yfed fodca. Datganodd y barnwr bryderon y 'byddai unrhyw unigolyn rhesymol wedi sylweddoli ei bod mewn sefyllfa fregus'. Bydd ar y Gofrestr Troseddwyd Rhywiol am gyfnod penagored.
- Yn Nwyrain Canolbarth Lloegr, roedd dau achos o dreisio yn ymwneud â'r un dioddefwr oedd yn weithiwr rhyw. Er bod anawsterau gyda'r tyst o ganlyniad i gaethiwed i gyffuriau ac alcoholiaeth, cafwyd y diffynyddion yn euog a derbyniont garchariad o saith mlynedd a phedair blynedd a

## **Dioddefwyr**

Mae nifer o LSIPau Ardal yn cynnwys craffu ar achosion treisio i hysbysu dysgu lleol, ynghyd â monitro ansawdd ac asesiad ansoddol VAWG o ymgysylltiad cymunedol lleol.

### Arfer da:

- Yn Ne-orllewin a De-ddwyrain Lloegr, gwahodddwyd aelodau LSIP i fod yn 13<sup>eg</sup> 'rheithiwr' mewn treialon treisio a bydd cysylltiadau yn cael eu sefydlu gyda chymau'r Panel Craffu Cenedlaethol.
- Mae proses ffurfiol wedi ei datblygu er mwyn i ddiodefwyr allu gweld eu tystiolaeth fideo ymhell o flaenllaw i dreialon yng Nghymru.
- Yn Ne-orllewin Lloegr, ffurfiwyd Grŵp Tasg Amlasiantaethol RASSO ac roedd hyfforddiant traws asiantaeth ar drais domestig yn cynnwys mewnbwn gan oroeswyr.
- Yn Nhafwys a Chiltern, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda diodefwyr trais, wedi ei hwyluso gan Rape Crisis, i helpu asiantaethau i gael gwell dealltwriaeth o brofiadau diodefwyr treisio o'r CJS a beth ellid ei wella.

## Canllawiau dedfrydu

Yn Rhagfyr 2013, cyhoeddodd y Cyngor Dedfrydu ganllaw dedfrydu newydd ar gyfer troseddau rhywiol a fydd yn helpu sicrhau dedfrydau priodol a chyson. Daeth y canllaw i rym yn Ebrill 2014 ac mae'n cwmpasu mwy na 50 o droseddau yn cynnwys treisio, troseddau rhywiol yn erbyn plant, delweddau anweddus o blant, masnachu mewn pobl a sbecian, ac yn cyflwyno newidiadau arwyddocaol i sut mae troseddau yn cael eu hystyried gan y llysoedd.

Yn ogystal â niwed corfforol, mae'r ymagwedd newydd yn adlewyrchu'n fwy cyflawn yr effeithiau seicolegol a thymor hirach ar y diodefwr, yn ogystal ag edrych ar gyd-destun llawn ymddygiad troseddol ac ysgogiad o ran cyflawni unrhyw drosedd. Mae'n rhoi pwyslais mwy arwyddocaol ar ffactorau megis gweithgaredd paratoi gan unigolion a gangiau, targedu diodefwyr bregus fel bod y rhain wedi eu hadlewyrchu'n glir yn lefelau'r ddedfryd.

Mae'r canllaw hefyd yn symleiddio'r system i asesu delweddau anweddus o blant gan symud i ffwrdd o ganolbwyntio ar ddim ond y nifer o ddelweddau a rhoi mwy o bwyslais ar beth mae'r troseddwr yn ei wneud gyda'r delweddau – meddiant, dosbarthu neu greu – i helpu asesu'r ymddygiad troseddol a'r lefel ddedfrydu briodol. Yn ogystal, bydd y canllawiau yn ystyried defnydd cynyddol o dechnoleg mewn troseddu ers cyhoeddi'r canllaw blaenorol yn 2004.

Bydd hyn yn berthnasol i bob troseddwr gwrywaidd, waeth pryd y digwyddodd y troseddau, felly er y bydd troseddwr yn amodol i'r gyfraith ar adeg y drosedd, bydd y canllaw yn cyflwyno dull modern sy'n canolbwyntio ar y diodefwr i sut y delir â throseddwr nad ydynt yn ddiweddar yn y llysoedd.

### **Treisio nad yw'n ddiweddar**


- Dedfrydwyd diffynnydd i 13mlynedd o garchar am ei ymosodiad treisgar a brawychus ar fenyw 68 oed yn ei chartref ei hun a ddigwyddodd dros 12 mlynedd yn ôl. Fe'i hadnabuwyd trwy ei DNA wedi lladrad yn 2013.
- Carcharwyd diffynnydd a dreisiodd merch 9 oed pan oedd yn ei ardegau i garchar am 4 mlynedd. Bu'n cam-drin y ferch ar bedwar achlysur yn 1999 pan oedd yn 14 neu 15 oed. Fe'i gwnaeth i gyflawni gweithred ryw arno ar dri achlysur a'i threisio unwaith. Clywodd y llys ei fod wedi cyfaddef y drosedd i'w bartner ar y pryd yn 2008, ond na hysbyswyd yr heddlu tan y llynedd pan gysylltodd menyw arall â nhw. Bydd hefyd ar y gofrestr Troseddwyr Rhywiol am oes.

# Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys unrhyw arwydd o benderfyniadau cyn cyhuddo ynghylch troseddau rhywiol (ac eithrio treisio), gan mai dim ond ar ôl gorffen yr achos erlyn mae'r prif categori o 'droseddau rhywiol' sy'n cynnwys treisio a phob trosedd rhywiol yn cael ei ddyrannu i achosion<sup>72</sup>.

Erlynwyd 8,554 o ddiffynyddion yn 2013-14 am droseddau rhywiol, ac eithrio treisio; cynnydd o 783 o ddiffynyddion (10.1%) o 7,771 yn 2012-13; ond heb gyrraedd y nifer uchaf o 8,862 a erlynwyd yn 2010-11. Cododd erlyniadau troseddau rhywiol o 1.0% o lwyth achosion y CPS<sup>73</sup> yn 2012-13 i 1.2% yn 2013-14.

**Graff 13: Lwyth achosion troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) fel % o'r llwyth achosion**



**Tabl 7: Erlyniadau troseddau rhywiol a gwblhawyd yn ôl deiliant**

	2008 – 09		2009 – 10		2010 – 11		2011 – 12		2012 – 13		2013-14	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Collfarnau	5,955	75.1%	6,060	76.0%	6,588	74.3%	6,308	75.7%	5,971	76.8%	6,756	79.0%
Aflwyddiannus	1,979	24.9%	1,912	24.0%	2,274	25.7%	2,026	24.3%	1,800	23.2%	1,798	21.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>7,934</b>		<b>7,972</b>		<b>8,862</b>		<b>8,334</b>		<b>7,771</b>		<b>8,554</b>	


Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 6,756 – y swm uchaf erioed a chynnydd o 785 o gollfarnau (13%) ers 2012-13felyng Ngraff 14.

<sup>72</sup> Daw data troseddau rhywiol y CPS (ac eithrio treisio) o'r categori prif drosedd 'troseddau rhywiol' trwy eithrio'r treisio sydd wedi ei lumanu gan ddiffynyddion. Nid oes lluman monitro ar wahân ar gyfer 'troseddau rhywiol' a weithredir, naill ai wrth i'r CPS dderbyn cais i wneud penderfyniad cyn cyhuddo neu wrth dderbyn y ffeil achos wedi cyhuddo. Dim ond wrth gwblhau achos yr erlyniad fydd prif drosedd yn cael ei neilltuo, yn seiliedig ar y drosedd fwyaf difrifol a gyhuddir y diffynnydd o'i chyflawni wrth gwblhau.

<sup>73</sup> Lwyth achosion troseddau rhywiol fel % o holl erlyniadau'r CPS




**Graff 14: Niferoedd collfarnau troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 2007-08 i 2013-14**



Cododd y gyfran o ddeilliannau llwyddiannus i 79.0%, cynnydd o 5.5pnt ers 2007-08 a'r gyfradd collfarnau uchaf erioed i'w chofnodi hefyd, fel y gwelir yng Ngraff 15 isod. Cododd pledion euog o 3pnt i 66% (84% o'r holl ddeilliannau llwyddiannus).

**Graff 15: Cyfraddau collfarnau troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 2007-08 i 2013-14**



**Achos amlwg**

- Dedfrydwyd Stuart Hall i 15 mis yn y carchar wedi iddo bledio'n euog i 14 cyhuddiad o ymosodiad anweddu yn erbyn 13 o ddioddefwyr yr oedd eu hoed pan gyflawnwyd y troseddau yn amrywio o 9 i 17 oed.

## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tabl ar dudalen 83 yn darparu data erlyniadau VAWG yn ôl Ardal ac ardaloedd heddlu. Mae'r atodiad cysylltiedig, a roddwyd ar ddechrau'r Crynodeb Gweithredol, yn darparu data cyn cyhuddo Ardaloedd ac ardaloedd yr heddlu.

## Materion cydraddoldeb<sup>74</sup>

### Rhyw

Yn 2013-14, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, 97.4%.

### Ethnigrwydd

Yn 2013-14, nodwyd bod 62% o ddiffynyddion a erlynwyd am droseddau rhywiol yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig ac roedd 67.5% wedi eu categorio fel Gwyn (lleihad o 69.4% yn 2012-13) o'r rhai ble cofnodwyd ethnigrwydd<sup>75</sup>. Nodwyd fod 8% o ddiffynyddion yn Asiaidd (1ppt yn fwy na'r flwyddyn flaenorol), ac roedd 6% wedi eu nodi fel Du, tebyg i'r flwyddyn flaenorol.

### Oed

Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (66%) a 18-24 (17%).

Roedd yn bryder nodi fod bron i bumed o ddiffynyddion (1,854) dan 24, gydag ychydig dros 4% o ddiffynyddion (368) rhwng 14-17 oed ac ychydig dan 1% (51) rhwng 10-13 oed.

## Troseddau rhywiol nad ydynt yn ddiweddar

Cyflawnwyd nifer o erlyniadau ar gyfer troseddau nad ydynt yn ddiweddar yn 2013-14, yn dilyn achos Savile a sefydlu Ymgyrch Yewtree. Mae'r CPS yn ymroddedig i erlyn achosion o droseddau rhywiol nad ydynt yn ddiweddar gyda'r un llymder â chyhuddiadau diweddar, ac nid yw effaith y troseddau hyn ar ddioddefwyr yn ddim llai trawmatig o ganlyniad i dreigl amser. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio er mwyn pasio cam tystiolaethau Prawf Cod y CPS<sup>76</sup> bod yn rhaid bodloni'r erlynydd adolygu bod gobaith realistig o sicrhau collfarn. Mae'r safon prawf gofynnol ar gyfer collfarn yn llawer uwch. Ni all rheithgor ddedfrydu diffynnydd oni bai eu bod yn sicr (yn fodlon tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol) fod y diffynnydd yn euog.

Cyhoeddwyd arweiniad dros dro newydd ar erlyn achosion nad ydynt yn ddiweddar ble mae cosb enwol y canlyniad tebygol ar gyfer ymgynghoriad gan y Cyfarwyddwr yn Chwefror 2014<sup>77</sup>.

Sefydlodd y canllaw dros dro'r amgylchiadau ble gallai trosedd nad yw'n ddiweddar ddenu cosb enwol yn unig, ac esboniodd y rhesymau pam y gellid cyfiawnhau erlyniad, serch

<sup>74</sup> Mae'r data ar ddioddefwyr yn dod gan y Gwasanaeth Rheolaeth Tystion ond nid yw'n cynnwys unrhyw gofnod o ddioddefwyr troseddau rhywiol heblaw am dreisio, gan fod y wybodaeth yn cael ei chasglu ar lefel diffynnydd yn unig.

<sup>75</sup> Ni ddatganodd ychydig dros 6% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ychydig dan 10% o ethnigrwydd diffynnyddion i'r CPS gan yr heddlu.

<sup>76</sup> Mae'r Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron sy'n amlinellu'r prawf hwn ar gael ar wefan y CPS: [link](#)

<sup>77</sup> Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 24 Ebrill 2014 a bwriedir cyhoeddi canllaw terfynol yn yr haf 2014.

hynny. Mae'n amlygu'r angen i ystyried effaith y troseddu honedig ar y dioddefwr dan sylw yn ofalus, yn ogystal â barnau'r dioddefwr ar a fyddai cyflwyno erlyniad yn eu helpu i ddod i delerau â'r hyn y dywedont a ddigwyddodd iddynt.

Mae'r adran ar gam-drin plant hefyd yn delio â'r panel a sefydlwyd i adolygu achosion nad ydynt yn ddiweddar o gam-drin plant yn rhywiol.

### **Camddefnydd o ymddiriedaeth**

- Anfonwyd prifathro i'r carchar am wyth mlynedd am droseddau rhywiol yn erbyn plant yn Nhafwys a Chiltern.
- Yn yr un Ardal, carcharwyd athro cerdd, ficer ac ynad am ddwy flynedd a hanner am gam-drin merch ifanc yn rhywiol (10-12 oed) ddeg mlynedd yn ôl. Roedd wedi dioddef straen ac wedi hunan-niweidio.
- Dedfrydwyd meddyg teulu o Dde-ddwyrain Lloegr i 11 mlynedd o garchar wedi ei gael yn euog o ymosod yn anweddus ar gleifion benywaidd.

## **Gorchmynion Atal Troseddau Rhywiol**

Diweddarwyd y Canllaw Cyfreithiol ar Dreisio a Throseddau Rhywiol Difrifol i gynnwys canllaw cynhwysfawr ar Gorchmynion Atal Troseddau Rhywiol (SOPOau). Yn ogystal ag esbonio'r ddau lwybr i sicrhau SOPO, mae'r canllaw yn nodi rôl allweddol yr erlynydd. Mae Llys Apêl wedi nodi'r angen i erlynyddion baratoi'r SOPO drafft ac i'w gyflwyno i'r Llys a'r amddiffyn o flaen llaw i'r gwrandawriad.

## **Peilot Croesholi wedi ei Recordio o flaen llaw**

Mae'r CPS yn cymryd rhan mewn prosiect peilot mewn tri lleoliad Llys y Goron yn Leeds, Lerpwl a Kingston-upon-Tafwys sy'n caniatáu irai dioddefwyr a thystion gael recordio eu croesholiad o flaen llaw. Mae'r peilot yn cael ei redeg am chwe mis gan yr MoJ ac fe ddechreuodd ar 30 Rhagfyr 2013.

Nod y peilot yw gwella profiad pobl ifanc, dioddefwyr cam-drin rhywiol a thystion bregus o'r llys. Y dioddefwyr a thystion sy'n gymwys dan y cynllun peilot i gael recordio eu croesholiad o flaen llaw yw'r rhai sydd:

- dan 16 oed ar adeg y gwrandawriad
- yn dioddef o gyflwr meddyliol o fewn ystyr y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- gydag amhariad arwyddocaol ar ddeallusrwydd a gallu cymdeithasol
- gydag anabledd corfforol neu anhwylder corfforol sy'n debygol o leihau ansawdd eu tystiolaeth.

Credir y bydd y mesurau yn arbennig o ddefnyddiol i ddioddefwyr troseddau rhywiol sy'n aml yn cael croesholi i fod yn broses drallodus. Mae'r posibilïad o wneud hyn mewn

amgylchedd tawelach, mwy cyfyngedig yn rhywbeth allai helpu. Byddai'r recordiad hefyd yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl wedi'r drosedd honedig a byddai'n cael ei ddangos fel tystiolaeth mewn achosion. Yn dilyn gwerthusiad o'r peilot, rhoddir ystyriaeth i gyflwyno hyn yn genedlaethol.

### **Cysylltiadau rhwng cam-drin plant, troseddau rhywiol a delweddau anweddus.**

- Dedfrydwyd diffynnydd i dair blynedd a hanner o garchar am droseddau ar-lein yn erbyn plant – gan wneud a thynnu delweddau anweddus o blant, achosi/gorfodi benyw dan 16 oed i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol treiddiol neu anhreiddiol. Cyflwynodd ei hun fel bachgen 15 oed i gysylltu â merched 13-15 oed a'u hannog i berfformio gweithredoedd rhywiol trwy we gamerâu. Canfuwyd cyfanswm o 3,551 o ddelweddau a fideos anweddus o blant ar ei gyfrifiadur, gyda 51

# Priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd ac FGM

## Priodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd

Ystyrir perfformiad dan y gyfundrefn sicrwydd ansawdd VAWG yn ôl Ardaloedd a'u hadrodd i'r DPP gan weithredu i unioni ble fo angen. Mae yna tua 50 o erlynyddion arbenigol priodas dan orfod (FM) a thrais seiliedig ar urddas (HBV), wedi eu dosbarthu yn unol â'r nifer o achosion ar draws Ardaloedd CPS.

### Priodas dan Orfod<sup>78</sup>

Cododd y nifer o atgyfeiriadau FM o'r heddlu i 67 yn 2013-14 – o 59 yn 2012-13. Cafodd 42 (62.7% o'r atgyfeiriadau hyn) eu cyhuddo, y nifer uchaf erioed a'r un gyfran ag yn 2012-13.

Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2013-14 i 45 – cynnydd o 41 yn 2012-13. Roedd 71% yn llwyddiannus, fel yn 2012-13. Gostyngodd erlyniadau a derfynwyd o 41.5% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11, i 17.8% yn 2013-14.

### Trais yn seiliedig ar anrhydedd

Cododd y nifer o atgyfeiriadau troseddau yn ymwneud â HBV gan yr heddlu i 240 yn 2013-14 – o 230 yn 2012-13. Cyhuddwyd 158 (65.8% o'r atgyfeiriadau hyn).

Erlynwyd 206 o ddiffynyddion, cynnydd o 200 y llynedd, gyda 59.7% yn cael eu collfarnu, lleihad o 3.3pnt o 2012-13. Gostyngodd erlyniadau a derfynwyd o 40.6% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11, i 27.2% yn 2013-14.

Er gwaethaf newid mewn cofnodi'r rhesymau dros ddeilliannau aflwyddiannus yn arwain at gofnodi mwy o achosion yn gysylltiedig i faterion dioddefwyr ar draws troseddau VAWG, mewn achosion HBV cafwyd lleihad mewn canlyniadau aflwyddiannus o ganlyniad i faterion dioddefwyr (o 54% yn 2012-13 i 35% yn 2013-14).

Yr Ardaloedd yn erlyn y nifer mwyaf o erlyniadau FM a HBV oedd Llundain, Gogledd-orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber.

### Arferion da Ardaloedd

Mae nifer o Ardaloedd wedi arddangos arferion da ar briodas dan orfod a thrais seiliedig ar urddas ac mae rhai Ardaloedd wedi cynnal mentrau lleol.

---

<sup>78</sup> Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.

## Gweithio mewn partneriaeth

- Cynhaliwyd cyfarfod bord gron gan y CPS yn Swydd Efrog a Glannau Humber ar briodas dan orfod, HBV ac FGM gyda'r heddlu, asiantaethau cyfiawnder troseddol, gwasanaethau diogelu plant, iechyd, addysg ac elusennau dioddefwyr. Ers y ford grom, darparodd yr arweinydd HBV ar gyfer Gogledd a Gorllewin Swydd Efrog hyfforddiant arbenigol i'r holl erlynyddion lleol ar HBV; gyda chynlluniau ar y gweill i gyflwyno ar draws yr Ardal. Nododd cyfarfod dilynol gyda'r heddlu gamau rhanbarthol parthed atal, amddiffyn ac erlyn.
- Mae Glannau Mersi – Swydd Gaer wedi gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau lleol i ddatblygu rhaglen hyfforddi 'Arferion Niweidiol' yn canolbwyntio'n benodol ar FM, HBV ac FGM. Mae hyn wedi ei ddarparu i gynulleidfaoedd amlasiantaethol.
- Mae Tafwys a Chiltern nawr yn cynllunio ymgyrch 2014 ar HBV, FM ac FGM.

## Deddfwriaeth priodas dan orfod

Cyflwynwyd trosedd droseddol newydd o FM a throseddoli torri Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod (FMPO) yn y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2013. Bydd y drosedd newydd o FM yn berthnasol i unigolyn sy'n gorfodi unigolyn i fynd i briodas, gan gredu nad yw'r unigolyn yn cydsynio, neu unigolyn sy'n twyllo rhywun i fynd dramor i ddibenion penodol eu gorfodi i briodi. Mae'r drosedd yn drosedd naill ffordd neu'r llall gydag uchafswm cosb ar gollfarn o saith mlynedd o garchar, neu ddirwy, neu'r ddau. Yn y llys ynadon, mae'r uchafswm statudol yn berthnasol. Yn atodol, bydd torri'r FMPO yn dod yn drosedd droseddol dan yr un Ddeddf. Mae'r drosedd yn drosedd naill ffordd neu'r llall gydag uchafswm cosb ar gollfarn o bum mlynedd o garchar, neu ddirwy, neu'r ddau. Yn y llys ynadon, mae'r uchafswm statudol yn berthnasol.

## Canllaw Cyfreithiol

Mae Canllaw Cyfreithiol y CPS ar Drais Seiliedig ar Urddas a Phriodas dan Orfod wedi ei ddiwygio i adlewyrchu'r troseddau newydd hyn. Mae'n cynnwys gwella gwybodaeth a chanllaw ymarferol ar gyfer erlynyddion parthed y darpariaethau deddfwriaethol newydd. Cynghorir erlynyddion hefyd ar faterion penodol sydd angen eu hystyried wrth adolygu ac adeiladu achosion cryf, ac yn benodol:

- Cyngor ar gyhuddo: cynghorir erlynyddion y dylent ystyried y drosedd newydd o FM yn ogystal â'r amrywiaeth eang o droseddau, os yn briodol, megis herwgipio ac/neu garchariad ar gam. Cynghorir erlynyddion i ddethol cyhuddiadau sy'n adlewyrchu'r difrifoldeb a dedfryd debygol;
- Lles y Cyhoedd: gofynnir i erlynyddion nodi ble ceir digon o dystiolaeth i ddarparu gobaith realistig o gollfarn, y bydd fel arfer er lles y cyhoedd i fwrw ymlaen. Y neges sylfaenol yw y bydd yn cymryd dewrder i ddioddefwyr adrodd FM yn erbyn eu rhieni/teulu ac felly dylid eu cefnogi trwy gydol y broses erlyn;

- Derbynioldeb Pledion: sicrhau yr ystyrir barn y dioddefwyr ar bob adeg ac y derbynnir pledion yn unol â Chanllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Dderbynioldeb Pledion.

## Hyfforddiant

Yn Rhagfyr 2013, darparwyd gweminar ar FM a HBV yn cynnwys gwybodaeth agoriadol ar y drosedd oedd i ddod o FM. Mae gwaith hefyd wedi cychwyn gyda'r arweinydd ACPO ar gyfer FGM, FM ac HBV i ddatblygu pecyn hyfforddi i'w ddarparu ar draws yr 13 ardal CPS rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2014. Mae hyn wedi ei anelu'n benodol at erlynyddion a gweithwyr yr heddlu. Yn ogystal, rydym yn datblygu hyfforddiant e-ddysgu ar gyfer erlynyddion a fydd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth FM newydd, cefnogi dioddefwyr HBV ac FM trwy gydol y broses gyfreithiol a sicrhau yr hysbysir y dioddefwyr am gynnydd yr achos. Mae'r CPS hefyd yn cefnogi'r Sioeau Teithiol a arweinir yn y Swyddfa Gartref sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth FM newydd.

- Cafwyd pedwar o frodyr yn euog o drais seiliedig ar urddas yng Ngogledd-orllewin Lloegr yn dilyn 14 mlynedd o gam-drin eu chwaer. Wedi ceisio ei mygu, cerddodd y dioddefwr i orsaf yr heddlu i'w hysbysu fod ei theulu yn mynd i adrodd ei bod ar goll, ond nad oedd mewn gwirionedd ac yr hoffai yn hytrach adrodd ar y gamdriniaeth a ddioddefodd. Plediodd pob diffynnydd yn euog a'u dedfrydu; roedd hyn yn cynnwys un gollfarn o 21 mis o garchar. Yn ogystal, derbyniodd yr holl ddiffynyddion orchmynion ataliol am gyfnodau amhenodol yn gwahardd unrhyw gyswllt gyda'r dioddefwr yn y dyfodol.

## FGM

Ym Mawrth 2014 cyhoeddwyd yr erlyniad cyntaf o drosedd FGM (FGM), yn dilyn 28 mlynedd o ddiffyg erlyniadau ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Cyhuddir y diffynnydd cyntaf gyda chyflawni FGM ac mae'r ail ddiffynnydd wedi ei gyhuddo gydag annog trosedd o FGM yn fwriadol a chynorthwyo, annog, cynghori neu gaffael troseddol o FGM.

Cynhaliwyd dau gyfarfod bord gron<sup>79</sup> i sefydlu'r camau a oedd yn cynnwys:

- Cytundeb rhwng y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan a'r CPS am ddelio ag achosion FGM.
- Aide memoire o droseddau eraill y gellid eu hystyried wedi eu cyhoeddi yng nghanllaw cyfreithiol y CPS a'i rannu gyda'r heddlu.
- Gwella casglu data.
- Adolygu canllaw adrodd ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

<sup>79</sup> Yn Medi 2012 a Medi 2013.



- Trafodaethau gyda'r heddlu ar weithrediadau tactegol i alluogi erlyniad heb ddibynnu ar dystiolaeth y dioddefwr.
- Cadw deddfwriaeth dan adolygiad a monitro ei effeithiolrwydd.
- Penodwyd prif erlynyddion ar gyfer pob Ardal CPS ac maent wedi arwain at gytuno ar brotocolau gyda phob heddlu lleol yn sefydlu'r trefniadau ar gyfer ymchwilio ac erlyn FGM yn lleol.
- Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi cenedlaethol ar y cyd rhwng y CPS a'r heddlu yn Chwefror 2014 i hysbysu'r cynllun hyfforddi FGM.
- Mae'r Heddlu a'r CPS wedi cytuno ar gynllun hyfforddi ar gyfer yr 13 ardal CPS a'u heddluoedd perthnasol parthed FGM, sy'n ymestyn o Orffennaf i Ragfyr 2014. Bydd hyn yn cael ei dargedu at ymchwilyr yr heddlu ac erlynyddion y CPS.

Swyddogaeth arall i'r CPS oedd archwilio a monitro sut mae awdurdodaethau eraill yn cefnogi dioddefwyr FGM trwy'r system gyfiawnder troseddol ac yn nodi arferion da. Mae'r CPS yn casglu gwybodaeth o Sbaen, Awstralia a Ffrainc i ystyried a oes gwersi i'w dysgu ble cynhaliwyd erlyniadau am FGM. Mae'r DPP hefyd wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar yn ddiweddar i'r Pwyllgor Dethol Materion Cartref ar FGM.

Mae'r CPS wedi gweithio gyda'r MoJ ar addasiadau deddfwriaethol i gryfhau deddfau presennol, yn cynnwys newid i awdurdodaeth alldiriogaethol i ymlacio'r gofyniad 'preswlydd parhaol y Deyrnas Unedig' er mwyn gallu cyflwyno erlyniadau ble nad yw'r cyflawnwyd yn breswylwyr parhaol yn y Deyrnas Unedig fel y diffinnid yn adran 6(3) Deddf 2003 – mae hyn nawr yn cael ei ddwyn ymlaen trwy addasiadau i'r Bil Troseddau Difrifol. Mae cynnig i ystyried atebolrwydd rhieniwl trwy roi dyletswydd bositif ar rieni neu ofalwyr i atal FGM wedi ei godi, ynghyd â dyletswydd bositif neu adrodd gorfodol ar gyfer gweithwyr meddygol/gofal iechyd i adrodd achosion FGM neu risg o FGM. Mae hyn yn destun trafodaeth trawslywodraethol a arweinir gan y Swyddfa Gartref.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gyflwyno anhysbysrwydd i ddioddefwyr FGM, yn debyg i'r hyn sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau rhywiol difrifol, ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr trawslywodraethol i archwilio'r opsiynau.

## Cynadleddau lleol

- Yn Chwefror 2014, yn dilyn Diwrnod Rhyngwladol Dim Goddefwch i Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, cynhaliodd partneriaid ym Mryste, dan arweiniad FORWARD (Foundation for Women's Health Research and Development); Refugee Women of Bristol a Safer Bristol gynhadledd i rannu gwybodaeth a dysgu gyda phartneriaid eraill ar yr ymgyrch FGM ledled Bryste a gafodd ei ail-lansio ym Mehefin 2013. Mynychodd y CPS y gynhadledd ac mae'n cadw mewn cysylltiad â phartneriaid allweddol. Mae'r Model Bryste ar gyfer diddymu FGM yn canolbwyntio ar nifer o ymagweddau sy'n cynnwys amlygu'r risgiau iechyd sylweddol sydd ynghlwm a chodi ymwybyddiaeth ymysg cymunedau nad yw'n arfer gofynnol dan grefydd.
- Cyfrannodd CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr i Ddiwrnod Astudio gweithwyr proffesiynol FGM ledled yr Ardal. Darparodd y CPS gyflwyniad ar y Gyfraith a pholisi'r CPS ar FGM. Roedd yn gyfle i hyrwyddo ymagwedd ranbarthol y CPS i hyfforddiant a chydweithio ar FGM gyda'r Heddlu ar draws y rhanbarth, a chyflwyno protocol cyffredin. Noddwyd y diwrnod gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gorllewin Canolbarth Lloegr. Roedd 200 o ddirprwyon yn mynychu'r digwyddiad, gan gynnwys Cymorth i Fenywod Birmingham a Solihull, Cyngor Dinas Birmingham, GIG, NSPCC, Yr Is-ysgrifennydd ar gyfer Materion Rhyngwladol a chafwyd cyflwyniad ysgytwol gan ddiodeffwr. Rhoddwyd proffil o FGM ar wefan lleol CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr hefyd yn rhan o'r diwrnod rhyngwladol dim goddefwch ar FGM.
- Siaradodd yr Arweinydd FGM yng nghynhadledd genedlaethol Coleg Brenhinol y Bydwagedd yn Nhachwedd 2013, ac mewn cynhadledd i weithwyr meddygol a Heddlu'r Met yn Llundain yn Hydref 2013 i godi ymwybyddiaeth o arwyddocâd FGM, gan amlinellu'r gyfraith a thystiolaeth, yr angen i adrodd am FGM ac yn amlygu rôl allweddol gweithwyr meddygol wrth adrodd i alluogi ymyrraeth gan Wasanaethau Cymdeithasol, neu ymchwiliad / erlyniad mewn achosion priodol.

## Cam-drin plant

Cododd y nifer o atgyfeiriadau cam-drin plant gan yr heddlu i 11,187 yn 2013-14 – cynnydd o 1,808 o atgyfeiriadau (19.3%) o 9,379 yn 2012-13. Nododd 11 o Ardaloedd gynnydd mewn atgyfeiriadau.

Cyhuddwyd 7,731, cynnydd mewn nifer o 1,949 o ddiffynyddion, o 5,782 yn 2012-13 (cynnydd o 33.7%). Cyhuddwyd 69.1% o'r atgyfeiriadau hyn, cynnydd o 61.6% yn 2012-13. Nododd pob Ardal gynnydd mewn niferoedd a nododd 12 ohonynt gynnydd yn y gyfran a gyhuddwyd.

Cyrhaeddodd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2013-14 7,998 – cynnydd o 440 o ddiffynyddion (5.8%) ers 2012-13. Roedd cynnydd yn y nifer o ddeilliannau llwyddiannus mewn achosion cam-drin plant yn gyffredinol o 5,755 yn 2012-13 i 6,096 yn 2013-14 (76.1% o ddeilliannau llwyddiannus yn 2012-13 i 76.2% yn 2013-14).

Yn 2013-14 cafwyd cynnydd yn y nifer o erlyniadau troseddau dynladdiad cam-drin plant<sup>80</sup>, o 30 yn 2012-13 i 35, gyda dros 91.4% o ddeilliannau llwyddiannus. Roedd cynnydd yn y nifer o droseddau yn erbyn y person (o 2,220 i 2,383); gyda deilliannau llwyddiannus yn gostwng o 74.0% i 72.4%, o gymharu â 2012-13. Cododd erlyniadau troseddau cam-drin plant yn rhywiol a gwblhawyd<sup>81</sup> yn 2013-14 (o 4,051 i 4,371); gyda deilliannau llwyddiannus yn codi o 75.8% i 76.5%.

Ceir manylion pellach yn Nhabl 9.

**Tabl 9: Erlyniadau cam-drin plant**

A Lladdiad	Collfarnau		Aflwyddiannus		CYFANSWM
	Nifer	%	Nifer	%	
2008-2009	33	75.0%	11	25.0%	44
2009-2010	33	82.5%	7	17.5%	40
2010-2011	24	88.9%	3	11.1%	27
2011-2012	15	88.2%	2	11.8%	17
2012-2013	22	73.3%	8	26.7%	30
2013-2014	32	91.4%	3	8.6%	35
B Troseddau yn erbyn yr unigolyn	Collfarnau		Aflwyddiannus		CYFANSWM
	Nifer	%	Nifer	%	
2008-2009	1,514	72.9%	563	27.1%	2,077
2009-2010	1,896	72.4%	723	27.6%	2,619
2010-2011	2,186	74.0%	767	26.0%	2,953

<sup>80</sup> Gweler y rhestr termau am ddiffiniadau.

<sup>81</sup> Mae gwylodaeth ar gael o'r System Rheoli Achosion [CMS] i ddangos y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd, wedi eu llumanu fel cam-drin plant, a'r rhai'r categoriwyd eu prif drosedd fel troseddau rhywiol. Mae ystadegau ar gael i ddangos y canlyniad yn seiliedig ar bob diffynnydd.

2011-2012	1,835	71.4%	734	28.6%	2,569
2012-2013	1,642	74.0%	578	26.0%	2,220
2013-2014	1,725	72.4%	658	27.6%	2,383
<b>B Troseddau rhywiol</b>	<b>Collfarnau</b>		<b>Aflwyddiannus</b>		<b>CYFANSWM</b>
	<b>Nifer</b>	<b>%</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>	
2008-2009	3011	74.7%	1,018	25.3%	4,029
2009-2010	3,133	75.7%	1,004	24.3%	4,137
2010-2011	3,551	74.1%	1,243	25.9%	4,794
2011-2012	3,530	75.8%	1,125	24.2%	4,655
2012-2013	3,070	75.8%	981	24.2%	4,051
2013-2014	3,344	76.5%	1,027	23.5%	4,371
<b>D Cyfanswm Cam-drin plant</b>	<b>Collfarnau</b>		<b>Aflwyddiannus</b>		<b>CYFANSWM</b>
	<b>Nifer</b>	<b>%</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>	
2008-2009	5,479	74.2%	1,902	25.8%	7,381
2009-2010	6,043	74.8%	2,036	25.2%	8,079
2010-2011	6,855	74.2%	2,380	25.8%	9,235
2011-2012	6,444	75.1%	2,137	24.9%	8,581
2012-2013	5,755	76.1%	1,803	23.9%	7,558
2013-2014	6,096	76.2%	1,902	23.8%	7,998

Dynion oedd y diffynnyddion mewn 80% o erlyniadau lladdiad; 74% o droseddau yn erbyn yr unigolyn a 98% o droseddau rhywiol.

#### Arfer da:

- Cynhaliodd Tafwys a Chiltern gynhadledd ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn dilyn erlyniadau lleol proffil uchel i gryfhau gweithio rhyngasiantaethol ac i gefnogi dioddefwyr.
- Cynhaliodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gorllewin Canolbarth Lloegr uwchgynhadledd ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant a masnachu mewn pobl.
- Yng Ngogledd-orllewin Lloegr, bu aelodau o'r LSIP yn cymryd rhan mewn diwrnod hyfforddiant ar gyfer y tîm RASSO yn seiliedig ar gam-drin plant yn rhywiol.

## Gweithredu trawslywodraethol ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae gwaith y CPS ar gam-drin plant yn rhywiol yn rhan o ymdrech ehangach ar draws y Llywodraeth i ymateb i drais rhywiol yn erbyn plant a phobl fregus. Yng Ngorffennaf 2013,

cyhoeddodd gweinidog y Wladwriaeth ar gyfer Plismona, Cyfiawnder Troseddol a Dioddefwyr adroddiad yn amlinellu rhaglen gynhwysfawr o waith gyda chamau i'w cymryd yn y meysydd allweddol canlynol:

1. Lleihau natur fregus dioddefwyr;
2. Lleihau'r risgiau o gam-drin awdurdod a phŵer; a
3. Uchafu effeithlonrwydd ac atebolrwydd ein systemau.

### **Herwgipto a cham-drin**

- Cafodd gŵr a herwgiptodd a cham-drin merch o 13 oed ei garcharu am gyfanswm o bedair blynedd a thri mis yn Llys y Goron. Derbyniodd orchymyn gwahardd troseddau rhywiol saith mlynedd hefyd sy'n ei atal rhag cysylltu ag neu geisio cysylltu ag unrhyw fenyw dan 16 oed heb ganiatâd ei rhiant neu warchodwr.

## **Grŵp Llywio Trawslywodraeth Tystion Bregus ac Ofnus**

Cafodd y grŵp hwn ei ailenwi ym Mawrth 2013, ac mae bellach yn cael ei alw'r "Grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol" i adlewyrchu cwmpas ei waith yn well. Mae'r CPS yn parhau i fod yn aelod o'r grŵp hwn.

## **Rhwydwaith Cam-drin Plant yn Rhywiol a Chanllawiau**

Lansiwyd rhwydwaith o arbenigwyr cam-drin plant yn rhywiol yn Ebrill 2013 – un erlynydd arbenigol o bob Ardal a CPS Direct.

Yn Hydref 2013, cyhoeddodd y CPS ganllawiau sy'n sefydlu'n sylfaenol y dull newydd i erlynyddion ddilyn mewn achosion o gam-drin plant yn rhywiol ac ymagwedd gyson i ddelio â'r achosion hyn. Y pedwar prif bwynt oedd:

- Dyraniad: rhaid i erlynydd arbenigol ddelio â phob achos CSA;
- Hygrededd: wrth asesu hygrededd, bydd y ffocws ar y cyhuddiad; trwy symud y pwyslais i ffwrdd o hygrededd i'r dioddefwr i'r cyhuddiad cyffredinol yn cynnwys y diffynnydd, y nod yw ceisio sicrhau y credir dioddefwyr, eu bod yn cael eu trin yn deg ac y cyflawnir cyfiawnder;
- Deunydd trydydd parti: dylid ceisio sicrhau deunydd o'r fath (megis nodiadau meddygol) yn gynnar; a
- Herio mythau ac ystrydebau: dylai erlynyddion herio mythau ac ystrydebau yn y llys a dylent ystyried nodi tystiolaeth arbenigol neu wahodd barnwr yr achos i roi cyfarwyddyd penodol i'r rheithgor. Mae'r Canllawiau CSA yn cynnwys rhestr o'r mythau ac ystrydebau mwyaf cyffredin.

Cefnogir y canllawiau gan:

- brotocol ar y cyd a model arferion da ar gyfer rhannu gwybodaeth (gweler yr adran ganlynol);

- cyflwyno unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol ardraws y CPS, sy'n delio ag achosion cam-drin plant yn rhywiol yn Llys y Goron;
- sefydlu rhwydwaith o erlynyddion cam-drin plant yn rhywiol arbenigol;
- y system sicrwydd VAWG i oruchwyllo ac annog gwelliant parhaus wrth ddelio ag achosion cam-drin plant yn rhywiol.

## Model Protocol ac Arfer Da 2013

Mae'r Protocol a Model Arferion Da ar ddatgelu gwybodaeth mewn achosion honedig o gam-drin plant yn rhywiol a chyfarwyddiadau cysylltiedig (troseddol a gofal) hefyd wedi eu cyhoeddi. Bellach fe ddisgwylir i'r Heddlu ac erlynyddion rannu a cheisio gwybodaeth briodol am bobl ifanc fregus gydag ac o wasanaethau cymdeithasol, ysgolion a llysoedd teulu yn unol â'r protocol a model arferion da. Mae'r protocol 2013 yn berthnasol i'r holl achosion honedig o gam-drin plant yn rhywiol (cam-drin rhywiol ac nad yw'n rhywiol) ac yn sicrhau fod datgeliad yn digwydd o gychwyn yr ymchwiliad o'r fath raddau ag y caniateir gan y gyfraith. Mae'n rhoi mwy o hyder i erlynyddion wrth weithredu egwyddorion datgeliad trydydd parti (yn cynnwys rheolau cymhleth yn ymwneud â datgelu deunydd yn ymwneud ag achosion y Llys Teulu). Mae ardaloedd CPS lleol yn y broses o lofnodi protocolau gydag asiantaethau lleol a'r farnwriaeth deuluol.

## Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol

Gellir nawr ail adolygu achosion nad ydynt yn ddiweddar o gam-drin plant gan y Panel Adolygu CSA, sydd wedi ei sefydlu gyda chynrychiolaeth gan yr heddlu, CPS, elfen annibynnol (Swyddfa'r Comisiynydd Plant a'r NSPCC). Bydd y panel yn edrych eto ar achosion ble nad yw achwynydd yn fodlon gyda phenderfyniad blaenorol (naill ai gan yr heddlu neu'r CPS) i beidio cymryd unrhyw gamau ynglŷn â chyhuddiadau o drosedd rywiol a gyflawnwyd pan oedd dan 18 oed.

### Achosion paratoi

- Erlynodd Uned RASSO Wessex a'r heddlu lleol ddiffynnydd oedd wedi bod yn trin, rheoli a threisio menywod oedd yn oedolion yn ogystal â pharatoi a cham-drin merched ifanc rhwng 14 a 36 oed, dros gyfnod o wyth mlynedd. Roedd wedi paratoi a cham-drin dwy ferch dan 16 oed yn rhywiol. Aeth ymlaen i dreisio un o'r ddwy ferch pan oedd yn 16 oed. FE'i cafwyd yn euog o dreisio, achosi i unigolyn gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heb gydsyniad, ysgogi plentyn i gymryd rhan mewn gweithred rywiol, gweithgaredd rhywiol gyda plentyn, niwed corfforol gwirioneddol a dychrynu. Cafodd ei ddedfrydu i gyfanswm o 19

## Panel Adfocadau Erlyn

Ym Mehefin 2013, estynnodd y DPP yr amrediad o waith achos a ellir ei gyflawni gan adfocadau treisio arbenigol yn unig i gynnwys troseddau rhywiol eraill yn ymwneud â phlant.

Mae'r rhestr treisio arbenigol nawr yn cael ei galw'r *Rhestr Treisio a Cham-drin Plant yn Rhywiol*. Mae'n ofynnol i aelodau'r rhestr arbenigol hon fod yn ymwybodol o'r canllawiau dros dro newydd ar gam-drin plant yn rhywiol ac i gyflawni unrhyw hyfforddiant newydd fel sy'n ofynnol.

## Hyfforddiant

Cynhaliwyd hyfforddiant penodol ar erlyn cam-drin plant yn rhywiol yn 2013-14. Roedd hyn yn galw am hyfforddiant wyneb yn wyneb gyda Phrif Gynghorydd Cyfreithiol y CPS am gyfreithwyr arbenigol presennol ar y gwersi a ddysgwyd yn deillio o'r Achos Savile, a hyfforddiant mewnol ar gyfer pob erlynydd i gyflwyno canllawiau newydd. Datblygwyd dau gwrs e-ddysgu ar gyfer erlynyddion; y cyntaf wedi ei anelu at bob erlynydd i gyflwyno'r canllawiau cam-drin plant yn rhywiol, a'r ail wedi ei anelu at arbenigwyr.

### Defnydd o alcohol a chyffuriau:

- Targedodd dau ddiffynnydd grwpiau gwahanol o ferched bregus 12-15 oed. Roeddynt yn cymryd arnynt eu bod eisiau bod yn gyfeillion iddynt, a'u cymell gydag alcohol a chyffuriau cyn eu cam-drin yn rhywiol. Cydweithiodd tîm yr erlyniad – y cyfreithiwr adolygol, prif gwrsel, adfocad y goron a'r heddlu – yn agos yn dilyn cyhuddiad er mwyn sicrhau y gellid delio'n fuan â materion na ragwelwyd yn gyflym ac effeithiol. Cafodd y diffynnyddion eu profi ar amrywiaeth o droseddau, yn cynnwys cyfres o dreisio ac ymosodiadau rhywiol yn ogystal â darparu cyffuriau ac ymosodiad corfforol ar eu dioddefwyr. FE'u cafwyd yn euog a derbyniont ddedfrydau o garchar o gyfanswm o 18.5 mlynedd ac 17.5 mlynedd

## Gangiau

Mae'r CPS yn dal i weithio gyda chydweithwyr o Uned Taclo Troseddau'r Swyddfa Gartref i ddwyn ymlaen y gwaith i ymateb i 'Terfynu Trais Gangiau ac Ieuenctid: Adroddiad Trawslywodraethol'. Mae'r Adroddiad Blynyddol (2013) am Derfynu Trais Gangiau ac Ieuenctid yn cofnodi fod CPS Llundain wedi cyflwyno 'gwasanaeth premiwm' ar gyfer troseddwr/troseddau yn gysylltiedig â gangiau trwy neilltuo achosion i erlynyddion gangiau penodedig. Mae'r un adroddiad hefyd yn nodi fod y CPS yn cefnogi erlynyddion i ddeall materion ynghylch cam-drin mewn perthnasau ardedegau trwy, er enghraifft, ddiweddarau canllaw cyfreithiol allweddol.



## Masnachu mewn pobl

Ers Ebrill 2010, mae'r CPS wedi llumanu a monitro pob achos o fasnachu mewn pobl<sup>82</sup>. Cododd y nifer o atgyfeiriadau masnachu mewn pobl gan yr heddlu i 171 yn 2013-14 – cynnydd o 30.5% o 2012-13. Cyhuddwyd 103 (60.2% o'r atgyfeiriadau hyn), nifer debyg i 2012-13 (102).

Cyrhaeddodd y nifer o erlyniadau masnachu mewn pobl a gwblhawyd yn 2013-14 226 – cynnydd o 139 yn 2012-13. Roedd cynnydd yn y nifer o ddeilliannau llwyddiannus masnachu mewn pobl o 99 yn 2012-13 i 155 yn 2013-14 (gostyngodd 71.2% yn 2012-13 i 68.6% yn 2013-14; yn bennaf yn gysylltiedig i gynnydd mewn rhyddfarnau gan reithgorau).

**Tabl 10: Erlyniadau masnachu mewn pobl a gwblhawyd yn ôl deilliant**

	2010 – 11		2011 – 12		2012 – 13		2013-14	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Collfarnau	73	70.9%	94	66.2%	99	71.2%	155	68.6%
Aflwyddiannus	30	29.1%	48	33.8%	40	28.8%	71	31.4%
<b>Cyfanswm</b>	<b>103</b>		<b>142</b>		<b>139</b>		<b>226</b>	

Roedd 86% o'r holl ddiffynnyddion y cofnodwyd eu rhywedd yn ddynion<sup>83</sup>. Roedd y mwyafrif o ddiffynnyddion rhwng 25-59 oed. Cofnodwyd 98 o ddioddefwyr, gyda 52% yn cofnodi eu rhywedd, nifer annigonol i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Erlynir troseddau a'u collfarnu am droseddau difrifol ar wahân i fasnachu mewn pobl, ble mae cysylltiadau i fasnachu yn cynnwys, er enghraifft, cynllwyn i fasnachu, carchariad ar gam, rheoli puteindra ar gyfer enillion a threiso. Gall troseddau amgen fod yn fwy cywir i'r troseddu gwirioneddol, fod â chosbau mwy difrifol a bod yn llawer haws i'w hesbonio – yn arbennig i reithgorau.

## Gwaith trawslywodraeth a deddfwriaeth

Daeth deddfwriaeth masnachu mewn pobl (addasiad i'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012) i rym yn Ebrill 2013, i alluogi'r Deyrnas Unedig i gydymffurfio gyda Chyfarwyddeb yr UE ar Fasnachu Mewn Pobl. Roedd yr addasiadau yn cynnwys erlyn achosion o fasnachu o unrhyw le yn y byd, gan fasnachwr sy'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig. Addaswyd

<sup>82</sup> Ni chedwir data troseddau yn ôl diffynnydd neu ganlyniad; felly sefydlwyd lluman i ddarparu data canlyniad yn ôl diffynnydd. Troseddau a lumanir yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Adran 57, 58 a 59) a Deddf Lloches a

Mewnffudo [Triniaeth o Hawlwyr] 2004 Adran 4(1), (2) a (3) a Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 adran 71. Gosodir y faner ar gychwyn yr achos; bydd y faner hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng yn dilyn hynny. Os yw achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylid gosod baner ar y cam hwnnw.

Fel gydag unrhyw system fonitro cymharol newydd, mae angen amser iddi sefydlu er mwyn sicrhau ei defnydd cywir. Felly mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data yn ofalus. O Ionawr 2013, roedd cywirdeb llumanu yn cael ei wirio'n chwarterol.

<sup>83</sup> Cofnodwyd 99% o rywedd.

deddfwriaeth hefyd i droseddoli masnachu ar gyfer camfanteisio nad yw'n rhywiol sy'n digwydd yn gyfan gwbl yn y Deyrnas Unedig.

Rhoddodd y CPS dystiolaeth i'r Adolygiad Tystiolaeth Bil Caethwasiaeth Modern, a gyhoeddodd adroddiad yn Rhagfyr 2013 yn sefydlu cynllun ar gyfer Bil Caethwasiaeth Modern newydd (a gyflwynwyd yn Araith y Frenhines ar 4 Mehefin 2014). Mae'r CPS wedi gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref ar ddrafftio'r Bil, yn dilyn ei gyflwyniad yn Rhagfyr 2013, i uno'r holl ddeddfwriaeth bresennol ar fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth. Mae'r CPS hefyd yn cyfrannu i ddatblygiad cynllun gweithredu Caethwasiaeth Modern trawslywodraethol ac adolygiad o'r mecanwaith cyfeirio cenedlaethol (NRM) i wella dynodiad o, a chefnogaeth i, ddiodefwrwr masnachu a chaethwasiaeth. Rydym yn cymryd rhan yn y grŵp bygythiad troseddau cyfundrefnol masnachu mewn pobl yr Asiantaethau Troseddau Cenedlaethol ac i nodi pa waith pellach all Adran Ryngwladol y CPS gefnogi yn ein gwledydd bygythiad blaenoriaethol.

## Canllaw Cyfreithiol

Diweddarwyd canllaw cyfreithiol ar gyfer erlynyddion yn Hydref 2013 ar beidio erlyn diodefwrwr a fasnachir i weithgaredd troseddol; i adlewyrchu newidiadau yn codi o'r dyfarniad yn HVN ac Ors [2013]. Mae hefyd wedi darparu canllaw i'r llysoedd ar yr ymagwedd mewn achosion o'r fath ac ar y mater o ymchwiliad dyledus i oed. Cafodd hyn ei hyrwyddo gan y CPS i'r Bar a Chymdeithas y Gyfraith mewn seminarau a gweminarau yn Hydref. Bydd ACPO a Chymdeithas y Gyfraith yn cyhoeddi eu canllaw pellach eu hunain i adlewyrchu canllaw'r CPS.

Diweddarwyd y canllaw cyfreithiol ar fasnachu mewn pobl, caethwasiaeth a smyglo ymhellach yn Chwefror 2014 i ddarparu canllaw diwygiedig i erlynyddion ar ddiffyg erlyniad rhai a ddrwgdybir mewn achos troseddol a allai fod yn ddiodefwrwr masnachu mewn pobl neu gaethwasiaeth i ddarparu mwy o eglurder. Mae hyn yn ymwneud â detholiad o droseddau ble gallai'r sawl a ddrwgdybir fod wedi cyflawni trosedd o ganlyniad uniongyrchol i, neu fel amlygiad o'u sefyllfa masnachu neu gaethwasiaeth. Fe unodd y canllaw wedi ei ddiweddarau ganllaw presennol ar fasnachu mewn pobl a llafur gorfodol a chaethwasiaeth.

### Arfer da:

- Yn Ne-orllewin Lloegr, mae'r CPS yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Gwrth Fasnachu.
- Yng Nghymru, mae'r CPS yn gweithio gydag awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol yn y grŵp arweinyddiaeth Gwrth Fasnachu Mewn

## Hyfforddiant

Datblygwyd modwl e-ddysgu ar gyfer masnachu mewn pobl a'i lansio ym Mawrth 2013 i baratoi ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth a ddiwygiwyd.

Roedd digwyddiadau pellach ar gyfer ymarferwyr troseddol a mewnfudo yn y Bar, Cymdeithas y Gyfraith a'r farnwriaeth ar y gweill ar gyfer 2013-14 i godi ymwybyddiaeth o'r

mater o ddiodefwyr a fasnachwyd yn cael eu troseddoli am droseddau y'i gorfodwyd i'w cyflawni gan eu masnachwyr.

## Cynllun gweithredu masnachu mewn pobl y CPS

Yn Ionawr 2014, lansiwyd cynllun gweithredu ar fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth y CPS. Roedd datblygiad y cynllun gweithredu yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd gan y DPP yn Rhagfyr 2013. Mynychodd y Swyddfa Gartref, yr heddlu, yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, adrannau'r llywodraeth, sefydliadau trydydd sector ac arbenigwyr yn y maes hwn, y cyfarfod i helpu nodi sut all y CPS weithio gydag eraill i wella ymateb y system gyfiawnder droseddol ar y math hwn o droseddu, trwy wella adeiladu achosion a nodi beth arall ellid ei wneud i gefnogi a diogelu troseddwyr masnachu a chaethwasiaeth. Roedd y cynllun yn cynnwys 11 o gamau gweithredu, a fydd yn cael eu cyflawni trwy'r CPS, yr heddlu a sefydliadau trydydd sector yn cydweithio ac mewn ymgynghoriad â'r Swyddfa Gartref fel prif adran y llywodraeth ar fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth. Yn ogystal â chydweithio, mae'n amlygu pwysigrwydd cefnogi diodefwyr ac adeiladu achosion cadarn.

### Masnachu rhywiol

- Dedfrydwyd dau ddiffynnydd a gyfaddefodd i fasnachu dwy o fenywod i Gymru i ddibenion puteindra yn Llys y Goron Casnewydd yn Ionawr 2014 – carcharwyd un diffynnydd am 15mis a'r llall am ddwy flynedd a saith mis. Cefnogodd Cymru Ddiogelach, elusen sy'n cynnig cefnogaeth i ddiodefwyr cam-drin, y diodefwyr, gan arwain at ymgysylltu â Heddlu De Cymru.

## Gwaith rhyngwladol

Mae'r CPS yn gwella gallu mewn awdurdodaethau blaenoriaeth i gryfhau eu rheolaeth gyfreithiol ac i wella casglu tystiolaeth i'w galluogi i ymchwilio i ac erlyn masnachwyr yn y ffynhonnell. Dylai hefyd arwain at gryfhau ymchwiliadau'r Deyrnas Unedig ac erlyniadau trwy wella cymorth cyfreithiol cilyddol i gasglu tystiolaeth dramor. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Asiantaeth Droseddau Genedlaethol ar wella lefelau o adfer asedau yn ymwneud â throseddau masnachu a chaethwasiaeth modern.

**Caethwasiaeth:**

- Daeth un o achosion mwyaf hirhoedlog a heriol Gogledd-orllewin Lloegr i ben yn y Llys Apêl. Cyflwynodd y Cyfreithiwr Cyffredinol Apêl yr Erlyniad yn erbyn y dedfrydau a gyflwynwyd yn erbyn gŵr a'i wraig, gan ddadlau eu bod yn rhy drugarog.

Roedd y dioddefwr ifanc nad oedd sicrwydd o'i hoed yn fyddar a mud. Roedd wedi ei masnachu i'r wlad hon, ei chadw fel caethwas mewn seler, ei gorfodi i weithio i'r teulu heb dâl, a'i cham-drin yn economaidd gyda'r teulu yn hawlio budd-dal oedd yn perthyn iddi hi. Cyflogwyd canolwr arbenigol, oedd yn fud ei hun, a ddatblygodd ddull penodol o arwyddo i gyfathrebu â'r ferch ifanc. Roedd angen cyfieithydd arall "arfero" i gyfieithu trwy'r canolwr ar gyfer y Llys. Cynyddwyd y dedfrydau gwreiddiol yn y Llys Apêl – y ddedfryd derfynol i'r gŵr oedd 15 mlynedd o garchar a chafodd ei wraig ddedfryd o chwe blynedd o garchar.

# Puteindra

Yn 2013-14 cafwyd 58 erlyniad am reoli puteindra o gymharu â 50 yn y flwyddyn flaenorol. Amnewidiwyd troseddau plagio pen ffordd dan A1(1)(a) ac A1(1)(b) y Ddeddf Troseddau Rhyw 1985 gydag A51A y Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 yn 2010 – gyda chynnydd bychan i 237 yn cael eu herlyn dan yr adran hon (o 233 y llynedd). Gostyngodd troseddau cadw puteindai. Cododd erlyniadau ar gyfer troseddau hysbysebu puteindra (trwy roi cardiau mewn manau cyhoeddus) ychydig i 91 – o 80 yn 2012-13.

Mae Tabl 11 yn amlinellu'r data CPS a gasglwyd ar buteindra<sup>84</sup>.

**Tabl 11: Erlyniadau Troseddau VAWG: troseddau puteindra**

	2008 – 2009	2009 – 2010	2010 – 2011	2011- 2012	2012- 2013	2013- 2014
<b>A Rheoli puteindra</b>						
Deddf Troseddau Rhywiol (2003) {52}	17	11	24	19	11	9
Deddf Troseddau Rhywiol (2003) {53}	93	87	87	61	39	49
<b>CYFANSWM</b>	<b>110</b>	<b>98</b>	<b>111</b>	<b>80</b>	<b>50</b>	<b>58</b>

<b>B Cadw puteindai</b>	2008 – 2009	2009 – 2010	2010 – 2011	2011- 2012	2012- 2013	2013- 2014
Deddf Troseddau Rhywiol 1956 {33}	83	39	48	35	31	19
Deddf Troseddau Rhywiol 1956 {33A o Atodlen 2}	130	70	106	92	54	31
Deddf Troseddau Rhywiol 1956 {34}	0	0	0	1	2	0
Deddf Troseddau Rhywiol {35(1)}	6	2	3	3	1	2
Deddf Troseddau Rhywiol {36}	2	3	0	2	1	3
Deddf Troseddau Rhyw 2003 { 53A } <sup>85</sup>	0	0	40	7	8	0
<b>CYFANSWM</b>	<b>221</b>	<b>114</b>	<b>197</b>	<b>140</b>	<b>97</b>	<b>55</b>

<sup>84</sup> Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd, deilliant na data cydraddoldeb. Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau System Gwybodaeth Reoli yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes arwydd o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad sylweddol yn y diwedd.

Daeth y data hwn o system TG weinyddol y CPS sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn cynnwys camgymeriadau posib wrth lwytho data a'i brosesu. Mae'r ffigurau'n rhai dros dro, ac yn destun i newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

<sup>85</sup> Yn 2010 gwnaeth trosedd newydd A53A y Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 y rhai sy'n addo talu am wasanaethau rhywiol gan butain sy'n amodol i orfodaeth neu gamfanteisio yn droseddwr.

<b>C Plagio Pen Stryd</b>	<b>2008 – 2009</b>	<b>2009 – 2010</b>	<b>2010 – 2011</b>	<b>2011- 2012</b>	<b>2012- 2013</b>	<b>2013- 2014</b>
Deddf Troseddau Rhywiol 1985 {1(1)(a)}	331	375	161	7	2	0
Deddf Troseddau Rhywiol 1985 {1(1)(b)}	10	21	5	0	0	0
Deddf Troseddau Rhywiol 1985 {2(1)}	24	23	38	2	1	0
Deddf Troseddau Rhywiol 2003 {51A} <sup>86</sup>	0	0	123	305	230	237
<b>CYFANSWM</b>	<b>365</b>	<b>419</b>	<b>327</b>	<b>314</b>	<b>233</b>	<b>237</b>

<b>D Hysbysebu puteindra</b>	<b>2008 – 2009</b>	<b>2009 – 2010</b>	<b>2010 – 2011</b>	<b>2011- 2012</b>	<b>2012- 2013</b>	<b>2013- 2014</b>
Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 {46}	349	457	331	149	80	91

Ers 2011, gall yr heddlu gyhuddo detholiad o droseddau heb gyfeirio'r achos i'r CPS. Gallai hyn fod wedi effeithio ar y nifer o achosion a erlynwyd, ynghyd â newidiadau mewn blaenoriaethau plismona, yn dilyn newidiadau adnoddau a newidiadau yn y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn Ebrill 2010.

Mae'r dirywiad yn y nifer o droseddau hefyd yn unol â chanllaw polisi'r CPS, y strategaeth ACPO ar gyfer Plismona puteindra a chamfanteisio rhywiol, a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2011 ac Adolygiad y Swyddfa Gartref o Ymarfer Effeithiol wrth Ymateb i Buteindra a gyhoeddwyd ar yr un pryd. Mae'r strategaethau yn amlygu sut y gall plismona, ar y cyd â chefnogaeth amlasiantaethol a chymunedol, ddarparu dulliau gwell o ymateb i'r materion o buteindra heb ymateb cyfiawnder troseddol ac a ategir gyda pholisïau diogelu.

Mae'r strategaethau yn pwysleisio fod unrhyw un sydd wedi ei gam-drin a chamfanteisio trwy buteindra angen help a chefnogaeth ar gyfer iechyd a lles er mwyn gadael puteindra, trwy hyrwyddo ymagwedd holistaidd i blismona puteindra ac ymchwilio erlyniad y rhai sy'n camfanteisio a cham-drin. Yn gystal, mae argymhellion i fabwysiadu ymagwedd bartneriaeth gydag awdurdodau lleol a sefydliadau statudol ac anstatudol eraill.

